

Cyngor Caerdydd

Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 - 2027

Fersiwn Terfynol

Contents

<i>Crynodeb Gweithredol</i>	9
<i>Cyflwyniad a chyd-destun</i>	9
<i>Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau</i>	9
<i>Prif ganfyddiadau</i>	10
Galw posibl heb ei fodloni	10
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg	11
<i>Fforddiadwyedd</i>	11
ADY, AAA ac anabledd	11
Cymorth i'r sector gofal plant.....	12
Gwella ansawdd, cywirdeb a chysondeb data	12
1. Cyflwyniad a chyd-destun	15
4. Poblogaeth	22
Cyfraddau geni a newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol	26
Newidiadau yn y Dyfodol	27
Poblogaeth: Cyflogaeth; patrymau gweithio; cyfansoddiad aelwydydd.....	30
Plant ar aelwydydd heb waith (ar ddiwedd 2018)	33
MALIC – Amddifadedd Plant.....	33
Tlodi incwm aelwydydd	35
Cynllun Datblygu Lleol	36
Cymudo.....	39
Y Gymraeg.....	41
AAA ac Anabledd.....	42
Dosbarthiad Plant ag AAA	49

Y Mynegai.....	51
ADY y Blynyddoedd Cynnar	52
Ethnigrwydd	53
5. Covid-19.....	54
Cau Lleoliadau Gofal Plant	54
Achosion positif o Covid-19 wedi’u cadarnhau yn y lleoliad; yn ôl math o ddarpariaeth, ACC	60
Achosion positif o Covid-19 wedi’u cadarnhau yn y lleoliad – plant yn unig; yn ôl math o ddarpariaeth, ACC.....	61
Achosion a gadarnhawyd yn ôl ACC; % yr holl blant ar y llyfrau	62
Covid-19: Effaith ar leoliadau	63
Cyfarpar Diogelu Personol	64
Profion Llif Unffordd.....	65
Yr effaith ar hyfforddiant	66
Rhesymau dros lai o hyfforddiant	67
Mynediad at hyfforddiant	68
Rhesymau dros fethu â chael gafael ar yr hyfforddiant sydd ei angen:.....	69
Nifer a % y darparwyr a ddywedodd eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant Rheoli Atal Heintiau penodol	70
Gweithredu ar gapasiti llawn.....	71
6. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd	73
Nifer y plant rhwng 0 a 14 oed o gymharu â lleoedd gofal plant cofrestredig yn ôl ACC	75
Data Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC): Cofrestriadau 2016 - 2021.....	76
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg.....	81
Plant ar lyfrau darparwyr cofrestredig, yn ôl math, oedran a math o bresenoldeb.....	83
Math o bresenoldeb.....	84
Crynodeb.....	85
Plant ar y llyfrau yn ôl oedran a math o ddarpariaeth.....	89

Lleoedd gwag yn ôl ACC - yn ôl gwasanaethau, pob math o ddarpariaeth	92
7. Cyflenwad Gofal Plant.....	98
7.1. Gwarchodwr Plant	98
Gwarchodwyr plant: Plant ar y llyfrau yn ôl oedran	100
Gwarchodwyr plant: plant ar y llyfrau yn ôl math o bresenoldeb	100
Gwarchodwyr plant: Caerdydd - Rhestrau aros a lleoedd gwag.....	102
Gwarchodwyr plant: ieithoedd.....	105
Gwarchodwyr plant: Cynnig Rhagweithiol.....	106
Gwarchodwyr plant – ieithoedd eraill	107
Gwarchodwyr plant: Y Gymraeg – dosbarthiad yn ôl ACC.....	107
Gwarchodwyr plant – Ffioedd yn ôl oedran	108
Gwarchodwyr plant: Oriau agor ac oriau annodweddiadol.....	114
Gwarchodwyr plant: Cynnig Gofal Plant.....	117
7.2 Meithrinfa Gofal Dydd llawn	119
Gofal dydd llawn: Plant ar y llyfrau yn ôl oedran	121
Gofal dydd llawn: plant ar y llyfrau yn ôl math o bresenoldeb	122
Gofal dydd llawn: Caerdydd - Rhestrau aros a lleoedd gwag.....	123
Gofal dydd llawn: ieithoedd	129
Gofal dydd llawn: Cynnig Rhagweithiol	130
Gofal dydd llawn – ieithoedd eraill.....	131
Gofal dydd llawn: Y Gymraeg – dosbarthiad yn ôl ACC.....	131
Gofal dydd llawn – ffioedd yn ôl oedran.....	132
Gofal dydd llawn: Oriau agor ac oriau annodweddiadol.....	138
Gwyliau.....	139
Gofal dydd llawn – Dechrau'n Deg	142
Gofal dydd llawn: Dechrau'n Deg – ieithoedd	143
Gofal dydd llawn: Cynnig Gofal Plant.....	143
Gofal dydd llawn: Talebau Gofal Plant neu Ofal Plant Di-dreth.....	144
Gofal dydd llawn: Addysg Gynnar.....	145
Gofal dydd llawn: Crynodeb o gryfderau a gwendidau.....	145
7.3. Gofal Dydd Fesul Sesiwn.....	147
Gofal dydd fesul sesiwn: plant ar y llyfrau yn ôl oedran	150
Gofal dydd fesul sesiwn: plant ar y llyfrau yn ôl math o bresenoldeb	151
Gofal dydd fesul sesiwn: Caerdydd - rhestrau aros a lleoedd gwag.....	152
Gofal dydd fesul sesiwn: ieithoedd.....	156
Gofal dydd fesul sesiwn: Cynnig Rhagweithiol	157

Gofal dydd fesul sesiwn: ieithoedd eraill.....	157
Gofal dydd fesul sesiwn: Y Gymraeg – dosbarthiad yn ôl ACC.....	157
Gofal dydd fesul sesiwn – ffioedd yn ôl oedran.....	159
Gofal dydd fesul sesiwn: Caerdydd - ffioedd yn unol â chofnodion Dewis	162
Gofal fesul sesiwn: Oriau agor ac oriau annodweddiadol.....	163
Gwyliau.....	164
Gofal dydd fesul sesiwn – Dechrau'n Deg.....	166
Gofal dydd fesul sesiwn: Dechrau'n Deg – ieithoedd	166
Gofal dydd fesul sesiwn: Cynnig Gofal Plant.....	167
Gofal dydd fesul sesiwn: Talebau Gofal Plant neu Ofal Plant Di-dreth	168
Gofal dydd fesul sesiwn: Addysg Gynnar	168
7.4. Y tu allan i oriau ysgol.....	170
Y tu allan i'r ysgol: plant ar y llyfrau yn ôl oedran	172
Y tu allan i oriau ysgol: plant ar y llyfrau yn ôl math o bresenoldeb	172
Y tu allan i oriau ysgol – rhestrau aros a lleoedd gwag	173
Y tu allan i oriau ysgol: ieithoedd.....	177
Y tu allan i oriau ysgol: Cynnig Rhagweithiol	178
Y tu allan i oriau ysgol: ieithoedd eraill	178
Y tu allan i oriau ysgol: Y Gymraeg – dosbarthiad yn ôl ACC.....	178
Y tu allan i oriau ysgol - ffioedd yn ôl oedran: yn ystod y tymor	180
Y tu allan i oriau ysgol - ffioedd yn ôl oedran: gwyliau ysgol.....	184
Y tu allan i oriau ysgol: Caerdydd - ffioedd yn unol â chofnodion Dewis	188
Y tu allan i oriau ysgol: oriau agor ac oriau annodweddiadol: yn ystod y tymor	188
Gwyliau.....	190
Y tu allan i oriau ysgol: oriau agor ac oriau annodweddiadol: gwyliau ysgol	192
Gofal y tu allan i oriau ysgol: Dechrau'n Deg	192
Y tu allan i oriau ysgol: Cynnig Gofal Plant.....	192
Y tu allan i oriau ysgol: Talebau Gofal Plant neu Ofal Plant Di-dreth	192
Y tu allan i oriau ysgol: addysg gynnar	193
7.5. Darpariaeth chwarae mynediad agored	194
Darpariaeth chwarae mynediad agored: plant ar y llyfrau yn ôl oedran	195
Darpariaeth chwarae mynediad agored: plant ar y llyfrau yn ôl math o bresenoldeb.....	195
Darpariaeth chwarae mynediad agored – rhestrau aros a lleoedd gwag	195
Darpariaeth chwarae mynediad agored: ieithoedd a'r Cynnig Rhagweithiol	195
Darpariaeth chwarae mynediad agored: ffioedd yn ôl oedran: yn ystod y tymor	196
Darpariaeth chwarae mynediad agored: Caerdydd - ffioedd yn unol â chofnodion Dewis	196
Darpariaeth chwarae mynediad agored: oriau agor ac oriau annodweddiadol: yn ystod y tymor	196

Darpariaeth chwarae mynediad agored: Dechrau'n Deg; Cynnig Gofal Plant; Talebau Gofal Plant a gofal plant di-dreth	196
7.6. Creche	197
Creche: yn ystod y tymor a gwyliau ysgol.....	197
Creche: Plant ar y llyfrau yn ôl oedran.....	198
Creche: Plant ar y llyfrau yn ôl math o bresenoldeb.....	198
Creche: rhestrau aros a lleoedd gwag	198
Creche: ieithoedd a'r Cynnig Rhagweithiol.....	198
Creche: ffioedd yn ôl oedran: yn ystod y tymor	198
Creche: Caerdydd - ffioedd yn unol â chofnodion Dewis	199
Creche: oriau agor ac oriau annodweddiadol: yn ystod y tymor	199
Creche: Dechrau'n Deg.....	199
Creche: Cynnig Gofal Plant	199
Creche: Talebau Gofal Plant neu Ofal Plant Di-dreth.....	199
7.7. Nanis	200
8. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr	201
8.1. Defnydd presennol	201
8.2. Galw am Ofal Plant (arolwg rhieni)	206
Siart: Cael mynediad at Dechrau'n Deg	213
9. Addysg Feithrin am ddim a darpariaeth Dechrau'n Deg	255
Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen - ysgolion.....	255
Lleoliadau addysg gynnar nas cynhelir	259
Dechrau'n Deg	260
10. Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)	266
10.1. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – CSCA	266
10.2. Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg	268
11. Darpariaeth Clwb Brecwast am ddim	278
12. Credyd Treth Gwaith/ Credyd Cynhwysol a Gofal Plant â Chymorth Cyflogwyr/ Gofal Plant di-dreth	279

13. Cynaliadwyedd	284
Y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant	287
14. Trawsffiniol/Daearyddol	288
15. Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu.....	289
16. Ymatebion i'r ymgynghoriad	295
Cefndir.....	311
Beth a wnaethom ni	311
Yr hyn a ganfuwyd gennym a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud	312
Methodoleg	312
Canlyniadau.....	312
Galw posibl heb ei ateb	312
A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?	312
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?.....	313
Darpariaeth Gymraeg	313
A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?	314
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?.....	314
Fforddiadwyedd.....	314
A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?	315
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?.....	315
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anabledd	316
A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?	316
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?.....	317
Cymorth i'r Sector Gofal Plant	318
A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?	318
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?.....	318
Gwella ansawdd, cywirdeb a chysondeb data	318
A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?	319
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?.....	319
A oes unrhyw beth arall yn gysylltiedig â gofal plant yr hoffech wneud y Cyngor yn ymwybodol ohono? .	319
17: Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella	323

Dadansoddiad o'r bylchau.....	323
Crynodeb o anghenion heb eu bodloni	327
18: Cynllun Gweithredu.....	330
19: Nodiadau esboniadol	332
Canllaw i'r ADGP.....	332
Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau	332
Y Cynnig Rhagweithiol	333
Codio data	334
Data DHG a Dewis	334
Iaith a therminoleg a ddefnyddiwyd.....	334
Oriau agor/cau	335

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad a chyd-destun

Mae'r dull a gymerwyd wrth gynnal yr asesiad hwn wedi'i seilio ar fodloni gofynion

- y ddogfen ganllaw statudol *Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016)* a'r
- cylchlythyr WGC 003 2021/WG21-28 "*Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Aseidiadau Digonolrwydd Gofal Plant*" a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth, 2021

Yn unol â'r canllawiau, rhaid i awdurdodau lleol:

- Fapio'r ddarpariaeth bresennol o ofal plant, gan ystyried:
 - y math o gofrestriad a'r gwasanaethau a ddarperir
 - yr ystod oedran y darperir ar ei chyfer
 - yr oriau gweithredu
 - iaith y ddarpariaeth
 - y lleoliad
 - lefelau ffioedd
 - gallu i ddarparu darpariaeth gynhwysol
 - unrhyw wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol a ddarperir.
- Mapio patrymau presenoldeb cyfredol, ynghyd â lefel y lleoedd gwag neu blant sy'n aros am le ar unwaith
- Arolwg rhieni
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gael gwybodaeth am y galw presennol a'r galw yn y dyfodol
- Defnyddio dogfennau cynllunio strategol a data poblogaeth presennol a'r dyfodol; tueddiadau demograffig ac economaidd-gymdeithasol, i nodi'r galw tebygol yn y dyfodol
- Nodi lefel a math y galw sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a gyfrifir drwy ddadansoddi'r bwch rhwng y ddarpariaeth bresennol (math, capasiti, lleoliad) a'r galw ar hyn o bryd a'r galw a ragwelir yn y dyfodol

Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau

Mae'r Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn defnyddio Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau (ACCau) Caerdydd fel is-adrannau daearyddol y ddinas a'r sir. Dangosir wardiau etholiadol pob ardal drosodd.

Tabl: Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau Caerdydd

Ardal Cynllunio Cymdogaethau	Wardiau Etholiadol
Gogledd Caerdydd	Rhiwbeina, Y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Cyncoed, Pen-y-lan, Pentwyn, Pontpennau a Phentref Llancwys
Dwyrain Caerdydd	Llanrhymni, Rhymni, Trowbridge
De-ddwyrain Caerdydd	Gabalfa, Cathays (rhan ohoni), Plasnewydd, Adamsdown, Y Sblot
Canol a De Caerdydd	Canol y Ddinas, Butetown, Grangetown, Cathays (rhan ohoni)
De-orllewin Caerdydd	Trelái, Caerau, Treganna a Glan-yr-afon
Gorllewin Caerdydd	Creigiau / Sain Ffagan, Pentyrch, Radur a Phentre-poeth, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Y Tyllgoed, Llandaf, Ystum Taf

Prif ganfyddiadau

Mae canfyddiadau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn dangos bod digon o ofal plant ar draws Caerdydd yn bennaf i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio neu'n ymgymryd â hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod rhywfaint o alw heb ei fodloni mewn rhai ardaloedd, ar gyfer rhai mathau o ddarpariaeth gofal plant ac o ran gwasanaethau gofal plant penodol.

Mae'r data a ddefnyddiwyd i ddod i'r casgliadau hyn wedi'i dynnu o sawl ffynhonnell wahanol, gan gynnwys yr amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf o'r boblogaeth, data disgyblion a ddarparwyd gan Addysg, a chofnodion darparwyr gofal plant a gedwir ar gronfa ddata Dewis. Prif ffynhonnell data'r asesiad hwn oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan leoliadau gofal plant i Arolygiaeth Gofal Cymru, drwy'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (DHG).

Mae pryderon ynghylch cywirdeb rhywfaint o'r data DHG a ddarparwyd, ar ôl nodi nifer o allanolion data. Bydd angen ymchwilio ymhellach mewn rhai achosion i gadarnhau canfyddiadau'r data. Lle mae angen ymchwilio ymhellach, nodwyd hyn yn y cynllun gweithredu.

Mae pum prif faes gweithredu wedi'u nodi yn yr asesiad, fel y dangosir isod:

Galw posibl heb ei fodloni

Mae lefelau is o ddarpariaeth yn Nwyrain Caerdydd o gymharu â Chaerdydd yn gyffredinol, a phocedi o alw posibl am wasanaethau penodol mewn pedair ACC arall (Gogledd Caerdydd, Canol a De Caerdydd, De-orllewin Caerdydd a Gorllewin Caerdydd). Bydd yr ymchwiliad cychwynol yn ceisio

cadarnhau lefel y galw heb ei fodloni, a chynllunio camau gweithredu sy'n seiliedig yn briodol ar y canfyddiadau hyn.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg

Mae'r data'n nodi'r galw cyfrwng Cymraeg posibl am sesiynau bore yng Ngogledd Caerdydd; sesiynau gofal dydd a Chylch Meithrin llawn yng Ngorllewin Caerdydd; a gofal ar ôl ysgol yn Ninas a De Caerdydd, De-orllewin Caerdydd a Gorllewin Caerdydd. Os caiff ei gadarnhau yn dilyn ymchwiliad pellach, byddwn yn mynd ar drywydd cyfleoedd gan weithio'n agos gyda phartneriaid Addysg i ddefnyddio cyllid cyfalaf presennol ac yn y dyfodol sydd ar gael i gefnogi Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd (CSCA), i ddatblygu neu ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n gysylltiedig ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Bydd hyrwyddo cyrsiau blas ar y Gymraeg wedi'u hariannu a'u cynllunio ar gyfer y gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn ceisio mynd i'r afael â'r niferoedd isel o warchodwyr plant cyfrwng Cymraeg a sgiliau Cymraeg cyfyngedig llawer o staff gofal plant.

Fforddiadwyedd

Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn fater allweddol i lawer o deuluoedd sydd eisiau neu sydd angen cael gofal plant. Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn bartneriaid allweddol wrth wella gwybodaeth rhieni a gofaldwyr am yr ystod o gymorth ariannol sydd ar gael i helpu gyda chostau gofal plant. Mae lle i annog mwy o leoliadau i gofrestru i ddarparu Gofal Plant di-dreth i gynorthwyo rhieni sy'n gweithio.

ADY, AAA ac anabledd

Dengys data nad yw pob lleoliad gofal plant yn ymwybodol o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'u cyfrifoldebau.

Mae'r cynllun gweithredu yn tynnu sylw at gamau gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth ar draws y sector a lleoliadau a gwella eu mynediad at gyngor, cymorth, arweiniad a hyfforddiant, er mwyn ymateb i anghenion plant.

Cymorth i'r sector gofal plant

Mae adborth gan ddarparwyr yn amlygu pryderon sylweddol ar draws y sector o ran gallu lleoliadau i recriwtio a chadw gweithwyr gofal plant cymwysedig. Mae cyfleoedd i weithio gyda Gwasanaeth i Mewn i Waith y Cyngor ac Addewid Caerdydd i gyfrannu at gefnogi'r sector.

Gwella ansawdd, cywirdeb a chysondeb data

Wrth gynnal yr asesiad, mae'n amlwg nad oes gan bawb a gyfrannodd ddealltwriaeth gyffredin o rywfaint o'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddiwyd wrth gyflwyno'r data sydd ei angen. Mae hyn yn arwain at anghywirdebau wrth adrodd data ac felly'n effeithio ar gadernid yr asesiad.

Mae angen gwaith i sicrhau bod y diweddariadau blynyddol, ac Aseidiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn y dyfodol yn cael eu llywio gan y data mwyaf cadarn posibl, felly er nad yw'n benodol i Gaerdydd, mae camau gweithredu gyda phartneriaid rhanddeiliaid allweddol i wella cywirdeb data hefyd wedi'u cynnwys.

Mae camau gweithredu manylach a gymerwyd o brif gorff y ddogfen wedi'u cynnwys yn y tabl drosodd.

Darpariaeth: galw posibl heb ei fodloni	<p>O ystyried bod y gwahaniaeth mwyaf rhwng lleoedd gofal plant cofrestredig a nifer y plant 0-14 oed yn Nwyrain Caerdydd, bydd ymchwiliad pellach i'r ffactorau lleol sy'n dylanwadu ar y galw a'r cyflenwad yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'n ymddangos nad oes gan unrhyw wasanaeth yn yr ACC hon unrhyw blant sy'n aros am le ar unwaith. Os bydd angen, bydd cynllun gweithredu lleol yn cael ei ddatblygu.</p>
	<p>Ar gyfer y pedair ACC (Gogledd Caerdydd; Canol a De Caerdydd; De-orllewin Caerdydd; Gorllewin Caerdydd) lle mae'n ymddangos bod y galw'n fwy na'r capasiti, cynhelir ymchwiliad manwl i ganfod cadernid data. Os oes galw, cysylltir â darparwyr gwasanaethau a nodwyd yn lleol i archwilio'r gallu i ehangu'r ddarpariaeth o safleoedd sy'n bodoli eisoes.</p>
	<p>Ymchwilio i'r galw posibl am ddarpariaeth gofal dydd fesul sesiwn, Boreau a Chinio, yng Ngogledd Caerdydd</p>
	<p>Nodi a oes unrhyw alw heb ei fodloni am ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol yn Nwyrain Caerdydd ac ardal Canol a De Caerdydd</p>
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg	<p>Bydd y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant yn mynd ati i dargedu unigolion sydd â sgiliau Cymraeg wrth farchnata'r hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwarchod plant</p>
	<p>Nodi a oes tystiolaeth gadarn ar gyfer y galw am ofal y tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg heb ei fodloni yn Ne-orllewin Caerdydd.</p>
	<p>Ymchwilio ymhellach a yw'r galw yn fwy na'r capasiti ar gyfer gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg neu sesiynau Cylch Meithrin yng Ngorllewin Caerdydd. Archwilio gyda darparwyr presennol o fewn ardaloedd lle y cadarnheir bod y galw'n fwy na'r capasiti i weld a oes posibiliadau i ehangu'r ddarpariaeth bresennol</p>
	<p>Ymchwilio ymhellach a yw'r galw yn fwy na'r capasiti ar gyfer sesiynau Bore cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Caerdydd. Archwilio gyda darparwyr presennol o fewn ardaloedd lle y cadarnheir bod y galw'n fwy na'r capasiti i weld a oes posibiliadau i ehangu'r ddarpariaeth bresennol.</p>
	<p>Nodi a oes tystiolaeth gadarn ar gyfer y galw am ofal y tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg heb ei fodloni yn Ninas a De Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De-orllewin Caerdydd. Nodi a oes gan ddarparwyr presennol y tu allan i'r ysgol y gallu i ehangu'r lleoedd a gynigir.</p>
	<p>Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Addysg a Mudiad Meithrin i gyflawni'r camau a nodwyd yn CSCA Caerdydd 2022 – 2031</p>
	<p>Cyfeirio'r rhaglen hyfforddi estynedig ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar (cynyddu prentisiaethau, rhaglen yr Academi a rhaglen Croesi'r Bont sy'n trochi ymarferwyr newydd yn y Gymraeg) fel y nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymraeg 2050 2021-2026, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu gofal plant, yn enwedig mewn lleoliadau Saesneg / y ddwy iaith.</p>

Fforddiadwyedd	Annog mwy o leoliadau, gan dargedu gofal dydd fesul sesiwn i ddechrau, i gofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant. Dim ond 13 (33.3%) o ddarparwyr gofal dydd fesul sesiwn sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd, y gyfran isaf o unrhyw fath o ddarparwr.
	Parhau i roi gwybodaeth am gymorth ariannol i rieni/gofalwyr gyda chostau gofal plant drwy Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd. Bydd y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant a Chyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn datblygu ac yn marchnata adnodd gwybodaeth sy'n nodi'r amrywiaeth o ffynonellau cymorth ariannol gyda chostau gofal plant.
ADY, AAA ac anabledd	Gweithio gyda phartneriaid Gwasanaethau Cynhwysiant Caerdydd, Datblygu'r Gweithlu a Chwlmw i barhau i hyrwyddo'r hyfforddiant a gynigir i ddarparwyr gofal plant. Mae'r hyfforddiant yn darparu gwybodaeth a chyngor i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Cod Anghenion Ychwanegol a gwella ymarfer ADY/AAA
	Gweithio gyda darparwyr gofal plant a phartneriaid i nodi unrhyw rwystrau rhag cael gafael ar hyfforddiant a chyngor ynghylch ADY/AAA
	Parhau i hyrwyddo'r Grant Lleoedd â Chymorth, sy'n darparu cyllid ar gyfer cymorth staffio ychwanegol i ganiatáu mynediad i ofal plant i blant rhieni sy'n gweithio na allent fynychu'n ddiogel fel arall.
Cymorth i'r sector gofal plant	Yn dilyn y cyllid grant ychwanegol diweddaraf (Ch3, Ch4 20231-22) a ddarparwyd drwy'r Grant Gofal Plant a Chwarae/Plant a Chymunedau, cysylltir â darparwyr i gynhyrchu data cynaliadwyedd wedi'i ddiweddarau i'w gynnwys yn y ADGP terfynol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022
	Parhau i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa o ddewis drwy Addewid Caerdydd a Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd i annog mynediad i brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant cymhwysio i bobl ifanc, pobl ddi-waith ac unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
Gwella ansawdd, cywirdeb a chysondeb data	Gweithio gyda chydweithwyr Addysg, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, i sicrhau bod darparwyr gofal plant yn deall yn gywir y defnydd o derminoleg sy'n ymwneud â lleoliadau addysg gynnar ac ystyr y derminoleg yn gywir, er mwyn gwella cywirdeb DHG ac ymarferion casglu data eraill yn y dyfodol
	Gyda chydweithwyr Dechrau'n Deg, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, sicrhau bod darparwyr gofal plant yn deall yn gywir y defnydd o derminoleg sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg ac ystyr y derminoleg yn gywir, er mwyn gwella cywirdeb DHG ac ymarferion casglu data eraill yn y dyfodol

1. Cyflwyniad a chyd-destun

Mae'r dull a ddefnyddir wrth gynnal yr asesiad hwn wedi'i seilio ar y ddogfen ganllaw statudol *Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016)* a'r cylchlythyr WGC 003 2021/WG21-28 "*Canllawiau Statudol Gofal Plant (2016): Sicrhau Gofal Plant Digonol ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant*" a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth, 2021.

Yn fras, mae'r dull hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â'r canlynol:

- Mapio'r ddarpariaeth bresennol o ofal plant, gan ystyried:
 - y math o gofrestrriad a'r gwasanaethau a ddarperir
 - yr ystod oedran y darperir ar ei chyfer
 - yr oriau gweithredu
 - iaith y ddarpariaeth
 - y lleoliad
 - lefelau ffioedd
 - gallu i ddarparu darpariaeth gynhwysol
 - unrhyw wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol a ddarperir.
- Mapio patrymau presenoldeb cyfredol, ynghyd â lefel y lleoedd gwag neu blant sy'n aros am le ar unwaith
- Arolwg rhieni
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gael gwybodaeth am y galw presennol a'r galw yn y dyfodol
- Defnyddio dogfennau cynllunio strategol a data poblogaeth presennol a'r dyfodol; tueddiadau demograffig ac economaidd-gymdeithasol, i nodi'r galw tebygol yn y dyfodol
- Nodi lefel a math y galw sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a gyfrifir drwy ddadansoddi'r bwlch rhwng y ddarpariaeth bresennol (math, capasiti, lleoliad) a'r galw ar hyn o bryd a'r galw a ragwelir yn y dyfodol

Ystyriaethau allweddol - y ddarpariaeth bresennol

Roedd tair prif ffynhonnell ddata ar gael ar gyfer yr asesiad hwn.

Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (DHG)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Wedi'i rhoi i Gyngor Dinas Caerdydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), casglwyd y ffynhonnell ddata hon gan ddarparwyr gofal plant Caerdydd yn ystod haf 2021 drwy'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (DHG). Casglwyd y data drwy holiadur ar-lein, a gwblhawyd gan 'Unigolyn/Unigolion Cyfrifol neu Unigolyn/Unigolion Cofrestredig' lleoliadau gofal plant cofrestredig.

- Roedd y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y ffurflenni DHG yn cynnwys deunydd y gellid ei ddefnyddio ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP). Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth arall sy'n ofynnol gan AGC a chan awdurdodau lleol er mwyn bodloni'r canllawiau statudol sydd wedi'u cyhoeddi i gyd-fynd â Deddf Gofal Plant 2006 a Deddf Fframwaith Safonau Ysgolion 1998. Fel rhan o'r fethodoleg, roedd angen tynnu o'r DHG y wybodaeth angenrheidiol a pherthnasol yn unig ar gyfer cwblhau'r ADGP.
- Cyfradd ymateb gyffredinol DHG ar gyfer Caerdydd oedd 89%, gyda chyfraddau ymateb yn amrywio ar draws mathau o gofrestriadau. Cyflwynodd 85.4% o warchodwyr plant, 88% o leoliadau y tu allan i oriau ysgol a 97.6% o leoliadau gofal dydd llawn DHG wedi'i gwblhau. Mae'r gyfradd hon yn adlewyrchu lleoliadau a oedd yn gymwys i gyflwyno DHG yn unig. Nid oedd yn ofynnol i wasanaethau nad ydynt wedi'u cofrestru, sydd newydd eu cofrestru, neu sydd wedi'u eu hatal dros dro ar adeg y DHG gyflwyno datganiad.

Tabl: Cyfradd ymateb i'r DHG yn ôl math o leoliad. Caerdydd, 2021

Nifer y Gwasanaethau a gyflwynodd ffurflenni DHG yn ôl Math o Wasanaeth

Awdurdod Lleol		Caerdydd
Math o Wasanaeth	Gwarchodwr Plant	187
	Creche	2
	Gofal Dydd Llawn	83
	Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	1
	Gofal y Tu Allan i'r Ysgol	44
	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	38
Cyfanswm		355


Nifer y Gwasanaethau sy'n gymwys i gyflwyno ffurflenni DHG yn ôl Math o Wasanaeth

Awdurdod Lleol		Caerdydd
Math o Wasanaeth	Gwarchodwr Plant	219
	Creche	3
	Gofal Dydd Llawn	85
	Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	1
	Gofal y Tu Allan i'r Ysgol	50
	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	41
Cyfanswm		399

% y Gwasanaethau Cymwys a gyflwynodd ffurflenni DHG yn ôl Math o Wasanaeth

Awdurdod Lleol		Caerdydd
Math o Wasanaeth	Gwarchodwr Plant	85.4%
	Creche	66.7%
	Gofal Dydd Llawn	97.6%
	Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	100.0%
	Gofal y Tu Allan i'r Ysgol	88.0%
	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	92.7%
Cyfanswm		89.0%

Siart: % y gwasanaethau cymwys a gyflwynodd ffurflenni DHG, yn ôl math o ddarparwr



- Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru, AGC a chydweithwyr o Gymdeithas Cymru Gyfan o Gynrychiolwyr Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (AWARE) ganllawiau ar gyfer lleoliadau cofrestredig i helpu i gwblhau'r DHG.
- Roedd yr adolygiad o'r ymatebion yn dangos naill ai nad oedd y canllawiau wedi'u dilyn, neu fod y canllawiau wedi'u dehongli mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Pan fo gwallau (neu wallau posibl) wedi'u nodi, o ystyried nad yw'n bosibl diwygio neu gywiro'r data ffynhonnell,
 - mae ffont coch wedi'i ddefnyddio mewn tablau,
 - mae data wedi'i gylchu mewn coch ar siartiau, ac
 - mae sylwadau wedi'u cynnwys ar ddiwedd pob adran.

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd - cronfa ddata Dewis

Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn gweithredu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd, ac yn yr un modd â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru, cedwir data ar ddarpariaeth gofal plant ar gronfa ddata Dewis.

Dewis Cymru yw'r gronfa ddata Cymru gyfan a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru i roi gwybodaeth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol am wasanaethau sy'n cefnogi lles. Anogir darparwyr gofal plant i greu a chynnal cofnod cyfredol ar Dewis Cymru o'u gwasanaethau.

Defnyddir Dewis Cymru hefyd fel ffynhonnell ddata ar gyfer y ADGP gan y gall fod yn ddefnyddiol cymharu rhywfaint o'r data a gedwir ar Dewis Cymru â'r hyn a ddarparwyd drwy'r DHG. Mae'r ddau yn ddibynnol ar ddarparwyr gofal plant yn cofnodi gwybodaeth gywir. Gall croesgyfeirio'r ddwy ffynhonnell ddata fod yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at aliniad a gwahaniaethau, er enghraifft, o amgylch lefelau ffioedd a gofnodwyd.

Arolwg rhieni/gofalwyr

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid AWARE i ddatblygu arolwg rhieni/gofalwyr cyffredin dros Gymru gyfan ar gyfer yr ADGP. Cafodd hyn ei hyrwyddo ar lefel genedlaethol a lleol, a'i ddosbarthu i ysgolion, lleoliadau gofal plant a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Gweler pennod 8: Deall anghenion rhieni a gofalwyr i weld canlyniadau'r arolwg hwn.

Derbyniodd Caerdydd 406 o holiaduron wedi'u cwblhau, sy'n cynrychioli ychydig dros 1% o'r teuluoedd â phlant dibynnol 17 oed ac iau yng Nghaerdydd, yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011. Er na fyddai'r arolwg yn berthnasol i bob cartref â phlant dibynnol, mae'r ymateb cyfyngedig i'r arolwg yn golygu nad yw'r data'n ystadegol arwyddocaol ac felly mae cyfyngiadau ar faint y gellir defnyddio'r ffynhonnell hon i hysbysu'r ADGP. Dylid ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan rieni mewn ymateb i'r arolwg ac a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn fel barn a safbwynt y rhiant hwnnw ar adeg cwblhau'r arolwg ac ni ellir ei allosod i fod yn berthnasol i'r boblogaeth ehangach. Dylid nodi gan nad oedd pob ymatebydd wedi ateb yr holl gwestiynau, mae nifer yr ymatebion a dderbyniwyd (n) wedi'i chynnwys.

2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Yn unol ag atodlen 2 y canllawiau statudol, ar ôl cyhoeddi'r Aseiad Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) drafft ar wefan y Cyngor, gofynnir am ymatebion ffurfiol gan y canlynol:

- Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
- Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Grŵp Monitro Chwarae
- Swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith

Mae'r ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid eraill wedi'u cynnwys ym mhennod 16: *Ymatebion i'r ymgynghoriad*.

Fel rhan o'r broses ymgynghori ar yr Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer plant, mae nifer o gwestiynau wedi'u cynnwys yn benodol ar gyfer plant sy'n mynychu lleoliadau gofal plant. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol y ADGP a fydd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022.

3. . Yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac Aseiad o Anghenion Lles Lleol

Cafodd y crynodeb isod ei gynnwys yn yr Aseiad Diweddaraf o Anghenion Lles Lleol (2017)

Mae'r aseidiadau diweddaraf yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw fylchau sylweddol o ran digonolrwydd gofal plant ar hyn o bryd, a bod darpariaeth gofal plant y mwyafrif helaeth yn diwallu anghenion teuluoedd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, nodir y disgwylir i'r galw am ofal plant y tu allan i oriau ysgol godi oherwydd newidiadau yn y system les a'r twf a ragwelir ym mhoblogaeth Caerdydd. Gallwch ddarllen mwy ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Bydd Crynodeb Gweithredol a Chynllun Gweithredu ADGP 2022-2027 yn cael eu rhannu gyda'r tîm Aseiad o Anghenion Lles Lleol i'w galluogi i gynnwys crynodeb perthnasol yn ei aseiad.

4. Poblogaeth

Poblogaeth Caerdydd yw 369,202 yn seiliedig ar Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2020

(<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/wardlevelmidyearpopulationestimatesexperimental>) .

Er bod hyn yn gynydd o 12,042 o bobl o ffigur Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2015 o 357,160, nid yw'r twf yn y boblogaeth wedi bod mor gyflym â'r disgwyl.

Mae 64,357 o blant rhwng 0 a 14 oed, a 23,232 yn rhagor o bobl ifanc 15 i 19 oed. Plant a phobl ifanc dan 19 oed yw 23.7% o boblogaeth yr awdurdod lleol.

Tabl: Poblogaeth yn ôl ACC: % yn ôl grwpiau oedran (ACB;2020)

DS: Mae'r ffigurau sy'n uwch na chyfartaledd Caerdydd mewn **print trwm** ac mae'r ffigur ACC uchaf wedi'i lwydo.

Siart

	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	Caerdydd
Demograffeg a Dynmeg							
Poblogaeth Breswyl	97,859	38,218	69,537	43,317	57,384	62,887	369,202
% y boblogaeth 0-14 oed	18.7	22.2	11.6	14.3	20.9	18.0	17.4
% y boblogaeth 15-19 oed	6.0	6.0	8.5	6.0	5.4	5.5	6.3
% y boblogaeth 20-64 oed	55.5	56.7	73.5	72.4	61.0	56.4	62.0
% y boblogaeth 65+ oed	19.8	15.1	6.5	7.3	12.8	20.1	14.3

DS. Cyfrifwyd ffigurau ACC gan ddefnyddio data AGEHI. Mae ACEHlau wedi'u neilltuo i ACCau ar sail y ffit orau. Ffynhonnell: Cyfrifwyd y strwythur poblogaeth/oedran gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach canol 2020.

Daw'r holl wybodaeth arall o Gyfrifiad 2011


Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau

Aildrefnodd Papur Gwyn 2013, "**Creu Cymunedau: Dull Newydd o Weithio yn y Gymdogaeth**" y 29 ward yn 6 Ardal Partneriaeth Cymdogaeth, sydd bellach yn Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau (ACCau). Nodir y wardiau ym mhob un o'r Awdurdodau Cynllunio Cymdogaethau hyn isod ac fe'u defnyddir drwy weddill yr ADGP hwn.

Tabl: Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau Caerdydd

Ardal Cynllunio Cymdogaethau	Wardiau
Gogledd Caerdydd	Rhiwbeina, Y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Cyncoed, Pen-y-lan, Pentwyn, Pontprennau a Phentref Llanelirwg
Dwyrain Caerdydd	Llanrhymini, Rhymni, Trowbridge
De-ddwyrain Caerdydd	Gabalfa, Cathays (rhan ohoni), Plasnewydd, Adamsdown, Y Sblot
Canol a De Caerdydd	Canol y Ddinas, Butetown, Grangetown, Cathays (rhan ohoni)
De-orllewin Caerdydd	Trelái, Caerau, Treganna a Glan-yr-afon
Gorllewin Caerdydd	Creigiau / Sain Ffagan, Pentyrch, Radur a Phentre-poeth, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Y Tyllgoed, Llandaf, Ystum Taf

Map: Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau (ACCau) Caerdydd




Tabl: Poblogaeth fesul ACC: nifer fesul grwpiau oedran (ACB;2020)

	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	Caerdydd
Poblogaeth Breswyl (pob oed)	97,859	38,218	69,537	43,317	57,384	62,887	369,202
Poblogaeth 0-14 oed	18,300	8,484	8,066	6,194.3	11,993	11,320	64,357
Poblogaeth 15-19 oed	5,871	2,293	5,911	2,599	3,099	3,459	23,232
Poblogaeth 20-64 oed	54,312	21,670	51,040	31,362	35,004	35,468	228,856
Poblogaeth 65+ oed	19,376	5,771	4,520	3,162	7,288	12,640	52,757


Tabl: poblogaeth yn ôl grŵp oedran a ddefnyddir yn Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

Oedran	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	Caerdydd
0 oed	974	456	595	434	753	585	3,797
1 oed	1,080	496	548	422	717	651	3,914
2 oed	1,105	497	579	437	750	669	4,037
3 oed	1,209	533	546	429	767	684	4,168
4 oed	1,310	559	608	488	796	740	4,501
0-4 oed	5,678	2,541	2,876	2,210	3,783	3,329	20,417
5 oed	1,233	576	569	438	797	782	4,395
6 oed	1,251	598	549	398	840	779	4,415
7 oed	1,294	572	554	410	792	807	4,429
5-7 oed	3,778	1,746	1,672	1,246	2,429	2,368	13,239
8 oed	1,357	645	522	419	860	815	4,618
9 oed	1,310	612	527	439	901	850	4,639
10 oed	1,261	588	527	390	815	777	4,358
11 oed	1,218	583	483	393	830	814	4,321
8-11 oed	5,146	2,428	2,059	1,641	3,406	3,256	17,936
12 oed	1,241	612	487	365	850	804	4,359
13 oed	1,251	597	454	357	773	805	4,237
14 oed	1,162	555	490	357	752	760	4,076
12-14 oed	3,654	1,764	1,431	1,079	2,375	2,369	12,672
15 oed	1,053	477	539	365	630	667	3,731
16 oed	1,058	426	559	331	618	684	3,676
17 oed	988	452	628	364	611	658	3,701
15-17 oed	3,099	1,355	1,726	1,060	1,859	2,009	11,108
Cyfanswm 0-17 oed	21,355	9,834	9,764	7,236	13,852	13,331	75,372

Siart: Nifer y plant 0 - 4 oed yn ôl oedran ac ACC



Siart: Nifer y plant 5 - 17 oed yn ôl grwpiau oedran ac ACC



- Gogledd Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o blant o bob oed a grwpiau oedran, gyda bron i dair gwaith y boblogaeth plant rhwng 0 a 17 oed (21,355) na phoblogaeth Canol a De Caerdydd, yr ACC gyda'r nifer leiaf o blant rhwng 0 a 17 oed (7,236)
- Fodd bynnag, mae plant 0-17 oed yn ganran uwch o'r boblogaeth yn Nwyrain Caerdydd (22.2%) a De-orllewin Caerdydd (20.9%) nag yng Ngogledd Caerdydd (18.7%; Caerdydd = 17.4%)


Cyfraddau geni a newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol

Mae cyfraddau geni yng Nghaerdydd wedi amrywio'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar. Mae data poblogaeth a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru (Stats Wales) yn dangos patrwm cylchol dros y 25 mlynedd diwethaf.

Mae'r siart isod yn dangos bod nifer y genedigaethau wedi gostwng rhwng 1996 a 2002, ac ar yr adeg honno fod y nifer wedi gostwng i 3,569.


Dilynwyd hynny gan gyfnod o dwf tan yr uchafbwynt o 4770 yn 2011, cynnydd o dros 33%. Dechreuodd genedigaethau ostwng yn 2012 ac maent wedi bod yn gostwng oddi ar hynny. Yn dilyn y patrwm hwn, mae'n fwy tebygol y byddwn yn parhau i weld y gyfradd genedigaethau yn codi a gostwng yn hytrach na chynnydd mwy graddol a chyson dros amser.

Siart: Genedigaethau yng Nghaerdydd 1996 – 2019 (Stats Cymru)



Mae'r cylchred hwn a welwyd yn nata cyfraddau geni Caerdydd yn wahanol i'r amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011 a 2014, ac mae'n wahanol i'r amcanestyniadau diweddaraf yn seiliedig ar ddata 2018 a gyhoeddwyd yn 2020:

Siart: Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y plant 0 oed o gymharu â'r gyfradd genedigaethau



Mae'r Cyngor yn casglu data cofrestru meddygon teulu gan y GIG bob blwyddyn sy'n dangos y bydd y gyfradd genedigaethau yng Nghaerdydd yn 2020, pan gaiff ei chyhoeddi, yn is na'r gyfradd genedigaethau a ragwelir gan Lywodraeth Cymru.

Newidiadau yn y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Cymru, sy'n seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd y set ddiweddaraf o amcanestyniadau, yn seiliedig ar ddata 2018, ar 4 Awst 2020. Maent yn cwmpasu'r cyfnod o 25 mlynedd rhwng 2018 a 2043.


Nid yw'r amcanestyniadau'n darogan yr hyn fydd yn digwydd yn yr un modd ag y byddai rhagolwg yn ei wneud. Yn hytrach, maent yn gwneud rhagdybiaethau am newidiadau yn y dyfodol ac yn dangos beth fyddai'r boblogaeth pe bai'r newidiadau hynny yn y dyfodol yn digwydd. Nid ydynt yn rhagweld effaith ffactorau allanol fel polisïau'r Llywodraeth neu amodau economaidd.

Cyhoeddwyd tri amrywiolyn gwahanol yn 2020: prif, uchel ac isel. Mae'r rhain yn seiliedig ar ragdybiaethau am ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Y prif amrywiolyn yw'r prif amcanestyniad h.y. yr adlewyrchiad gorau o batrymau demograffeg. Mae'r rhai uchel ac isel yn cynnig senarios amgen yn y dyfodol, gan ystyried tybiaethau gwahanol ar gyfer y tri ffactor poblogaeth. Nid yw'r amrywiolion wedi'u gosod fel terfynau, ond yn hytrach maent yn rhoi lefel o hyblygrwydd sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd o ragweld newidiadau poblogaeth.

Mae amcanestyniadau 2018 yn dangos cynnydd is yn y boblogaeth yng Nghaerdydd na'r amcanestyniadau blaenorol yn 2014. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth o 6.8% yn is na'r amcanestyniadau o gynnydd blaenorol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn dal i gynyddu 3.2%. Er nad dyma'r cynnydd canrannol mwyaf yng Nghymru, Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf o hyd gyda phoblogaeth ragamcanol o dros 375,700 erbyn 2028.

Yn wahanol i ardaloedd eraill, mae'r cynnydd ym mhoblogaeth Caerdydd yn deillio'n bennaf o nifer uwch o enedigaethau na marwolaethau, gyda chynnydd bach yn unig o fudo net. Er bod yr amcanestyniadau'n dangos gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 15 oed, rhagwelir y bydd nifer y genedigaethau'n cynyddu rhwng 2018 a 2028.

Siart: Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y plant 5 oed yng Nghaerdydd 2018-2043



Fodd bynnag, fel yr amlinellir ar dudalen 8, mae cyfraddau geni yng Nghaerdydd wedi dilyn patrwm cylchol dros y 25 mlynedd diwethaf. Mae'r cyfraddau geni wedi gostwng yn is na phob un o dri taflwybr amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, 2014 ac yn fwyaf diweddar yn 2020 (yn seiliedig ar ddata 2018).

Poblogaeth: Cyflogaeth; patrymau gweithio; cyfansoddiad aelwydydd

Tabl: Dangosyddion poblogaeth yn ôl ACC: Diweithdra; oriau a weithiwyd

DS: Mae'r ffigurau sy'n uwch na chyfartaledd Caerdydd mewn **print trwm** ac mae'r ffigur ACC uchaf wedi'i lwydo


Diweithdra (% o drigolion 16-74 oed)							
	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	Caerdydd
% Di-waith	3.5	6.1	4.5	4.7	5.8	3.6	4.4
% sy'n Ddi-waith: Erioed wedi gweithio	14.9	18.6	19.6	19.4	20.9	15.2	18.1
% sy'n Ddi-waith: Di-waith am gyfnod hir	37.3	41.2	35.5	38.6	37.2	38.0	37.7
Oriau a Weithir gan y rhai mewn Cyflogaeth (% y preswylwyr 16-74 oed mewn cyflogaeth)							
% Rhan-amser (hyd at 15 awr)	9.2	7.8	18.4	8.4	8.2	9.0	10.4
% Rhan-amser (16 i 30 awr)	19.1	22.4	18.6	16.0	21.4	20.4	19.6
% Llawn-amser (31 awr neu fwy)	71.7	69.8	63.1	75.6	70.4	70.6	70.0

Ffynhonnell: Cyfrifwyd y strwythur poblogaeth/oedran gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach canol 2020. Daw'r holl wybodaeth arall o Gyfrifiad 2011.


Tabl: Cyfansoddiad yr aelwyd a Statws Teulu yn ôl Nifer y Rhieni sy'n Gweithio

Cyfansoddiad yr Aelwyd							
	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	Caerdydd De-orllewin	Gorllewin Caerdydd	Caerdydd
Unig Riant sydd â Phlant Dibynnol (nifer yr aelwydydd)	2,314	1,904	1,543	851	2,495	1,829	10,936
Statws Teulu yn ôl Nifer y Rhieni sy'n Gweithio (Pob riant 16 oed a hŷn sydd â phlant dibynnol)							
% Teuluoedd cwpl: Y ddau riant yn gweithio	64.0	45.2	40.4	32.9	42.6	63.7	52.8
% Teuluoedd cwpl: Un riant yn gweithio	18.5	18.6	25.9	32.2	22.1	16.7	20.7
% Teuluoedd cwpl: Dim un riant yn gweithio	3.8	8.8	10.4	14.6	9.5	3.4	6.9
% Teuluoedd unig rieni: Rhiant yn gweithio	9.0	13.2	11.3	9.4	12.2	10.5	10.7
% Teuluoedd unig rieni: Rhiant ddim yn gweithio	4.7	14.2	12.0	10.9	13.6	5.7	8.9
DS. Cyfrifwyd ffigurau ACC gan ddefnyddio data AGEHI. Mae ACEHlau wedi'u neilltuo i ACCau ar sail y ffot orau. Daw'r holl wybodaeth arall o Gyfrifiad 2011.							

Siart: Aelwydydd unig riant sydd â phlant dibynnol fesul ACC



Siart: Statws Teulu yn ôl Nifer y Rhieni sy'n Gweithio (Pob rhiant 16 oed a hŷn sydd â phlant dibynnol)



- O ran y bobl ddi-waith, mae'r ganran uchaf o bobl sy'n ddi-waith am gyfnod hir yn byw yn Nwyrain Caerdydd (41.2%), ac yna Canol y Ddinas a De Caerdydd (38.6%) a Gorrlewin Caerdydd (38%). Y cyfartaledd yng Nghaerdydd yw 37.7%.
- Mae'r nifer uchaf o deuluoedd unig riant sydd â phlant dibynnol yn Ne-orllewin Caerdydd (2,495), ac yna Gogledd Caerdydd (2,314). Mae'r nifer leiaf yng Nghanol a De Caerdydd (851)
- Yr ACC sydd â'r ganran uchaf o deuluoedd lle mae pob rhiant yn gweithio yw Gorrlewin Caerdydd (63.7% o deuluoedd dau riant, 10.5% o deuluoedd unig riant). Yr ACC sydd â'r ganran isaf yw Canol a De Caerdydd (32.9% o deuluoedd dau riant, 9.4% o deuluoedd unig riant). DS: rhaid i bob rhiant mewn teulu fod yn gweithio ac yn ennill o fewn yr ystod incwm a ganiateir i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant (gan dybio bod ganddynt blentyn o oed cymwys)
- Mae % y 'ddau riant yn gweithio' yn amrywio 31.1 pwynt canran rhwng yr uchaf (Gogledd Caerdydd ar 64%) a'r isaf (Canol a De Caerdydd ar 32.9%). Mae % yr unig rieni sy'n gweithio yn amrywio 4.2 pwynt canran rhwng yr uchaf (Dwyrain Caerdydd ar 13.2%) i'r isaf yng Ngogledd Caerdydd (9%)

Plant ar aelwydydd heb waith (ar ddiwedd 2018)

Tabl: Nifer a % y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith, 2018

Caerdydd	9,200	13.1
Cymru	68,700	12.6


Ffynhonnell: Stats Cymru [Plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn ôl ardal, newidyn a statws yr aelwyd \(llyw.cymru\)](#)

- Mae gan Gaerdydd ganran uwch o blant sy'n byw ar aelwydydd heb waith (13.1%) na chyfartaledd Cymru (12.6%)

MALIC – Amddifadedd Plant


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol² ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach hynny sy'n cynnwys 1,000 i 3,000 o bobl, a elwir yn ardaloedd cynnyrch ehangach haen is, lle ceir y crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd. O ran perfformiad cyffredinol yn ôl y MALIC, dim ond dau awdurdod lleol arall yng Nghymru sydd â chanran uwch o bobl sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Map: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Caerdydd - Safleoedd Cyffredinol, ACCau



Map: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Caerdydd – Maes incwm, ACCau

2019 Welsh Index of Multiple Deprivation: Cardiff - Income Domain



Mae'r tabl isod yn dangos y dangosydd amddifadedd incwm plant, canran yr ardaloedd bach (ACEHlau) ym mhob Awdurdod Lleol a oedd ym mhob un o'r grwpiau cronol canlynol: y 10%, 20%, 30% a 50% o ACEHlau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dadansoddiad hwn yn nodi crynodiad yr ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn Awdurdod Lleol, yn hytrach na lefel gyfartalog o amddifadedd

Tabl: dangosydd amddifadedd incwm plant

Awdurdod lleol	Nifer yr ACEHlau mewn awdurdod lleol	% yr ACEHlau gyda 10% o'r cyfraddau uchaf (46 - 99%)	% yr ACEHlau gyda 20% o'r cyfraddau uchaf (37 - 99%)	% yr ACEHlau gyda 30% o'r cyfraddau uchaf (31 - 99%)	% yr ACEHlau gyda 50% o'r cyfraddau uchaf (22 - 99%)
Caerdydd	214	20.1	33.2	42.5	52.3
Cymru	1909	10.0	20.0	30.0	50.0

[Dadansoddiad Ardal o Amddifadedd Plant 2014 \(Dangosyddion MALIC 2014\) \(ioe.ac.uk\)](http://ioe.ac.uk)

- Yr Awdurdod Lleol â'r gyfran uchaf o ACEHlau sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer amddifadedd incwm plant oedd Caerdydd (20.1 y cant).


Tlodi incwm aelwydydd

Tabl: % yr aelwydydd yng Nghaerdydd dan 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr yn ôl ardal partneriaeth cymdogaeth, 2015

ACC	Cyfanswm yr Aelwydydd	Nifer yr Aelwydydd dan 60% o Incwm Canolrifol Prydain Fawr	% yr Aelwydydd dan 60% o Incwm Canolrifol Prydain Fawr
Gogledd Caerdydd	40,739	9,230	22.7
Dwyrain Caerdydd	15,932	6,105	38.3
De-ddwyrain Caerdydd	27,085	10,219	37.7
Canol a De Caerdydd	15,551	4,804	30.9
De-orllewin Caerdydd	24,156	8,917	36.9
Gorllewin Caerdydd	26,754	7,002	26.2
Caerdydd	150,217	46,276	30.8
Cymru	1,333,073	459,283	34.5

TLODI INCWM AELWYDYDD 2015 Ffynhonnell: Gwiriad Cyflog, CACI


Siart: % yr aelwydydd yng Nghaerdydd dan 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr yn ôl ardal partneriaeth cymdogaeth, 2015



- Mae gan bedair ACC fwy na chyfartaledd Caerdydd (30.8%) o aelwydydd sy'n ennill llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr (Canol a De Caerdydd, De-orllewin Caerdydd, De-ddwyrain Caerdydd a Dwyrain Caerdydd)
- Mae gan De-orllewin Caerdydd, De-ddwyrain Caerdydd a Dwyrain Caerdydd fwy o aelwydydd sy'n ennill llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr na chyfartaledd Cymru (34.5%) hefyd

Cynllun Datblygu Lleol

Yn y ADGP diwethaf, cynhwyswyd safleoedd datblygu strategol allweddol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol gan y rhagwelwyd y byddai'r rhain yn dylanwadu ar y galw am ofal plant. Gweler y map isod:



Mae'r tabl isod yn dangos y datblygiadau hyd yma a amlygwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y datblygiadau hyn i fod i gael eu cwblhau yn 2026. Dangosir y cynnydd o ran niferoedd tai yn ôl nifer a % y tai a gynlluniwyd a gwblhawyd mewn cromfachau

Tabl: Datblygiadau allweddol hyd yma

Ardal ddatblygu	Ardal Cynllunio Cymdogaethau	Datblygiadau Allweddol	Cyflawniadau erbyn 2021
Gogledd-ddwyrain Caerdydd (i'r gorllewin o Bontpennau)	Gogledd Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • 4500 o gartrefi • Cludiant Cyflym - Gogledd-ddwyrain Caerdydd • 3 Ysgol Gynradd Newydd • Ysgol Uwchradd Newydd • 26ha o fannau agored, 6 maes chwarae • Cyfleuster hamdden cymunedol • Gwasanaethau gofal sylfaenol ychwanegol 	122 (2.7%)
I'r dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontpennau	Gogledd Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • 1300 o gartrefi • Ysgol Gynradd Newydd • 7.9ha o fannau agored, 2 faes chwarae • Cyfleuster cymunedol • Cyfleuster gofal sylfaenol 	720 (55.3%)
Ardal Fenter Canol Caerdydd	Canol y Ddinas a De Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • 2000 o gartrefi • Cludiant Cyflym – Coridor y De • Ysgol Gynradd Newydd 	102 (5.1%)
Yr Hen Ffatri Nwy, Ferry Road	Canol y Ddinas a De Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • 500 o gartrefi • 1.2ha o fannau agored • Cyfraniad at fannau agored hamdden • Cyfrannu at ddarpariaeth gymunedol oddi ar y safle 	0
Gogledd-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • 5000 o gartrefi • 3-4 Ysgol Gynradd Newydd • Ysgol Uwchradd Newydd • 30ha o fannau agored, 6 maes chwarae 	437 (8.74%)

		<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleuster hamdden cymunedol • Gwasanaethau gofal sylfaenol ychwanegol 	
I'r gogledd o C33/i'r De o Greigiau	Gorllewin Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> • 2000 (D), 650 (E) o gartrefi (gweler y map drosodd) • Cludiant Cyflym - Gogledd-orllewin Caerdydd • Cyfleuster Parcio a Theithio • 1-2 Ysgol Gynradd Newydd • 12ha o fannau agored • 3 maes chwarae • Cyfleuster cymunedol • Gwasanaethau gofal sylfaenol ychwanegol (hyd at 5 meddygfa meddyg teulu) 	101 (3.8%)

Cymudo

Yn y ADGP diwethaf, cynhwyswyd y canlynol:

"Mae diagram drosodd yn dangos patrymau cymudo i Gaerdydd. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw

"Mae bron i ddwy o bob tair swydd net a grëwyd yn Ne-ddwyrain Cymru dros y deng mlynedd diwethaf wedi cael eu creu yng Nghaerdydd. Bob dydd mae dros 80,000 o bobl – neu dros draean o'r 200,000 o weithlu'r ddinas – yn cymudo i Gaerdydd o fannau eraill ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd (Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd)."




DS: Sylwch ar y nifer fach o ymatebion

Os ydych yn anhapus ag agwedd benodol ar eich trefniadau gofal plant, dywedwch wrthym sut y gellid ei gwella: (n17)	%	Nifer
Mwy o oriau ar gael (mae'r lleoliad yn rhy brysur /llawn)	17.7%	3
Ymestyn oriau agor - peth cyntaf yn y bore	17.7%	3
Ymestyn oriau agor – gyda'r nos	23.5%	4
Ymestyn oriau agor – i gwmpasu'r penwythnos	5.9%	1
Ymestyn oriau agor – gofal dros nos	5.9%	1
Sesiynau mwy hyblyg (gofal ad hoc)	35.3%	6
Mwy fforddiadwy	70.6%	12
Lleoliad gwahanol	5.9%	1
Gofal plant sy'n well am ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol fy mhientyn	0.0%	0
Darpariaeth o ansawdd gwell	35.3%	6
Does dim angen unrhyw welliannau:	0.0%	0
Arall (eglwch):	35.3%	6

Siart: Tabl: Trefniadau gofal plant: Meysydd i'w gwella (n17)

DS: Sylwch ar y nifer fach o ymatebion



- Gan mai dim ond 17 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn ni ellir ystyried bod y canlyniadau'n arwyddocaol yn ystadegol
- Nodwyd fforddiadwyedd yn fwyaf aml fel maes i'w wella (12, 70.6%), gyda mwy o hyblygrwydd o ran sesiynau ad hoc, ansawdd, ac 'arall' yn cael eu nodi 6 gwaith yr un (35.3%)
- Roedd y categori Arall yn cynnwys sylwadau gan gynnwys;
 - "Rwy'n teimlo eu bod yn annibynadwy, yn anfon fy mhlentyn adref yn sâl yn rheolaidd"
 - "Rheolau llai llym ynghylch profion PCR / covid, gan gydnabod y bydd plant dan 4 oed yn peswch ac yn dal annwyd"
 - Teilwra profiad yn well i'm plentyn unigol


Cwestiynau barn rhieni: Graddfa Likert

Gofynnodd yr arolwg am farn ymatebwyr ar nifer o ddatganiadau. Nodir y canlyniadau isod.

Tabl: Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod y tymor (n401)

Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod y tymor (n401)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	40.9%	164
Tueddu i Gytuno	41.1%	165
Tueddu i Anghytuno	7.5%	30
Anghytuno'n Gryf	1.7%	7
Dd/B	8.7%	35


Siart: Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod y tymor (n401)



Tabl: Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (n401)

Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (n401)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	45.9%	183
Tueddu i Gytuno	39.1%	156
Tueddu i Anghytuno	5.5%	22
Anghytuno'n Gryf	1.5%	6
Dd/B	8%	32

Siart: Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (n401)




Tabl: Mae dewis da o ofal

plant yn fy ardal i (n400)

Mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i (n400)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	15.3%	61
Tueddu i Gytuno	35.8%	143
Tueddu i Anghytuno	29.3%	117
Anghytuno'n Gryf	14.3%	57
Dd/B	5.5%	22

- Nid yw'n glir a yw'r ymatebion hyn yn cyfeirio at argaeledd, fforddiadwyedd neu ystod gofal plant, na'r hyn y mae ymatebwyr yn ei wybod am ofal plant e.e. Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd, Dewis, GGiD. Cymru, ac ati.


Siart: Mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i (n400)



Tabl: Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda (n401)

Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda (n401)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	25.9%	104
Tueddu i Gytuno	45.9%	184
Tueddu i Anghytuno	16.5%	66
Anghytuno'n Gryf	6.2%	25
Dd/B	5.5%	22

Siart: Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda (n401)




- Nid yw'n glir a yw'r ymatebion hyn yn adlewyrchu barn ymatebwyr ynghylch lleoliad o ran hygyrchedd neu gyfleustra i'r rhiant/gofalwr neu'n ymwneud â barn y rhiant/gofalwr am addasrwydd y safle y darperir y gofal plant ynddo.

Tabl: Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant (n399)

Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant (n399)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	21.1%	83
Tueddu i Gytuno	27.2%	107
Tueddu i Anghytuno	17.3%	68
Anghytuno'n Gryf	7.6%	30
Dd/B	26.9%	106


Siart: Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant (n399)



Tabl: Hoffwn i'm plentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig (n394)

Hoffwn i'm plentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig (n394)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	21.1%	83
Tueddu i Gytuno	27.2%	107
Tueddu i Anghytuno	17.3%	68
Anghytuno'n Gryf	7.6%	30
Dd/B	26.9%	106


Siart: Hoffwn i'm plentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig (n394)



Tabl: Mae gofal plant yn rhy ddrud (n403)

Mae gofal plant yn rhy ddrud (n403)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	74.2%	299
Tueddu i Gytuno	18.9%	76
Tueddu i Anghytuno	3.5%	14
Anghytuno'n Gryf	1.0%	4
Dd/B	2.5%	10


Siart: Mae gofal plant yn rhy ddrud (n403)



Tabl: Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant (n394)

Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant (n394)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	10.4%	41
Tueddu i Gytuno	22.1%	87
Tueddu i Anghytuno	35.3%	139
Anghytuno'n Gryf	15.7%	62
Dd/B	16.5%	65


Siart: Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant (n394)



Tabl: Mae gennyf broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy (ee. canslo sesiynau ar fyr rybudd) (n397)

Mae gennyf broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy (ee. canslo sesiynau ar fyr rybudd) (n397)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	6.8%	27
Tueddu i Gytuno	8.1%	32
Tueddu i Anghytuno	20.9%	83
Anghytuno'n Gryf	35%	139
Dd/B	29.2%	116


Siart: Mae gennyf broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy (ee. canslo sesiynau ar fyr rybudd) (n397)



Tabl: Mae gofal plant yn rhwstr i mi gael gwaith neu hyfforddiant (n396)

Mae gofal plant yn rhwstr i mi gael gwaith neu hyfforddiant (n396)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	19.4%	77
Tueddu i Gytuno	20.2%	80
Tueddu i Anghytuno	23.7%	94
Anghytuno'n Gryf	14.4%	57
Dd/B	22.2%	88


Siart: Mae gofal plant yn rhwstr i mi gael gwaith neu hyfforddiant (n396)



Tabl: Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am ofal plant (n402)

Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am ofal plant (n402)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	16.9%	68
Tueddu i Gytuno	45.5%	183
Tueddu i Anghytuno	22.6%	91
Anghytuno'n Gryf	9%	36
Dd/B	6%	24


Siart: Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am ofal plant (n402)



Tabl: Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant (n401)

Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant (n401)	%	Nifer
Cytuno'n Gryf	9.7%	39
Tueddu i Gytuno	33.2%	133
Tueddu i Anghytuno	31.2%	125
Anghytuno'n Gryf	19.5%	78
Dd/B	6.5%	26

Siart: Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant (n401)




Defnyddio gofal plant yn y dyfodol

Tabl: Mwy neu lai o ofal plant yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf (n401)

Mwy neu lai o ofal plant yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf? (n401)		
Mwy	51.6%	207
Aros yr un fath	28.7%	115
Llai	13.7%	55
Ddim yn gwybod / Ddim yn siŵr	6%	24

Siart: Mwy neu lai o ofal plant yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf




Os byddwch yn defnyddio mwy o ofal plant, pa fath?

Tabl: Os byddwch yn defnyddio mwy o ofal plant, pa fath? (n210; %)

Os byddwch yn defnyddio mwy o ofal plant, pa fath? (n210; %)	%	Nifer
Gwarchodwr Plant	22.4%	47
Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brechwast	53.3%	112
Clwb ar ôl Ysgol	52.9%	111
Meithrinfa Ddydd Breifat	59.5%	125
Meithrinfa Ysgol	44.8%	94
Cylch Chwarae	13.3%	28
Cylch Meithrin	9.5%	20
Crèche Gollwng	1.4%	3
Nani	2.4%	5
Au Pair	1.0%	2
Ysgol Baratoi (Preifat)	1.4%	3
Clwb gwyliau	29.5%	62
Teulu / ffrindiau (â thâl)	4.8%	10
Teulu / ffrindiau (di-dâl)	41.9%	88
Ddim yn berthnasol	0.0%	0
Arall (eglwurwch):	1.0%	2

Siart: Os byddwch yn defnyddio mwy o ofal plant, pa fath? (n210; %)



- Nododd dros hanner yr ymatebwyr (207 o 401, 51.6%) y byddent yn defnyddio mwy o ofal plant yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Nid yw'n glir a yw'r ymatebion hyn gan rieni sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd ac a fydd yn ceisio cynyddu'r oriau y maent yn eu defnyddio, neu a ydynt yn deuluoedd a fydd yn defnyddio gofal plant am y tro cyntaf. Nododd 94 o ymatebwyr mai'r gofal plant y byddent yn ei ddefnyddio fyddai meithrinfa ysgol.
- Nododd 170 o ymatebwyr (42.4%) y byddent yn defnyddio'r un faint, neu lai, o ofal plant yn ystod y blynyddoedd nesaf
- O'r rhain a nododd y byddent yn defnyddio mwy o ofal plant, nododd 98 o ymatebwyr y byddent yn defnyddio ffrindiau a theulu, naill ai â thâl neu'n ddi-dâl
- O'r ymatebwyr a nododd y byddant yn defnyddio mwy o ofal plant cofrestredig, nododd y nifer fwyaf (125, 59.5%) mai meithrinfa ddydd breifat (gofal dydd llawn) fyddai hyn. Dangosodd data fod lleoedd gwag net o (1,371 o leoedd gwag – 302 o blant yn aros) 1,069 o ofal dydd llawn; (1,266 o leoedd gwag – 711 yn aros) 1,195 gofal hanner diwrnod AM a (1,043 o leoedd gwag - 421 o blant yn aros) 622 o ofal hanner diwrnod PM ar draws y ddinas
- Y categorïau mwyaf nesaf oedd gofal cyn oriau ysgol (112, 53.3%) ac ar ôl oriau ysgol (111, 52.9%). Mae (1,117 o leoedd gwag – 46 o blant yn aros) 1,071 o leoedd gwag ar gyfer darpariaeth clybiau brecwast a (947 o leoedd gwag – 310 o blant yn aros) 637 o leoedd gwag ar gyfer darpariaeth clybiau ar ôl ysgol mewn darpariaeth y tu allan i oriau ysgol ledled Caerdydd. Mae lleoedd gwag net hefyd


gyda gwarchodwyr plant ar gyfer dros 290 o leoedd cyn ysgol a thros 250 o leoedd ar ôl ysgol. DS: Fel y nodwyd, mae angen ymchwilio ymhellach i ganfod a yw data rhestrau aros y tu allan i oriau ysgol yn gadarn.

Rhesymau dros ddefnyddio llai o ofal plant

Tabl: Rhesymau dros ddefnyddio llai o ofal plant (n59)

Rheswm dros ddefnyddio llai o ofal plant (n59; %)	%	Nifer
Bydd y plentyn yn hŷn	93.2%	55
Disgwyl gweithio / astudio llai o oriau	0%	0
Disgwyl gweithio / astudio o gartref yn fwy	1.7%	1
Ceisio cael mwy o amser gyda'r teulu	6.8%	4
Pryderon ynghylch COVID-19 / heintiau	5.1%	3
Pryder am darfu COVID-19 ar wasanaethau / atal gwasanaethau	3.4%	2
Arall (rhowch fanylion):	8.5%	5

Siart: Rhesymau dros ddefnyddio llai o ofal plant



- Nododd 93.2% (55) o ymatebwyr y byddent yn defnyddio llai o ofal plant gan y byddai eu plentyn yn hŷn. Gall hyn olygu eu bod yn dechrau eu Meithrinfa Cyfnod Sylfaen yn rhan-amser, yn symud i addysg amser llawn, neu'n cyrraedd oedran pan nad yw rhieni'n teimlo bod angen iddynt ddefnyddio gofal plant.


Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant


Tabl: Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant (n106)

Os nad ydych yn defnyddio unrhyw ofal plant, ticiwch y rheswm/rhesymau pam: (n106)	%	Nifer
Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael	3.8%	4
Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o'r teulu neu ffrind	30.2%	32
Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw ofal plant	1.9%	2
Rwy'n rhiant sy'n aros gartref ac felly nid oes angen gofal plant arnom	13.2%	14
Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain	3.8%	4
Nid oes gofal plant o ansawdd digonol	3.8%	4
Nid oes darpariaeth Gymraeg addas	1.9%	2
Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg na Saesneg	0.0%	0
Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion	15.1%	16
Mae cost gofal plant yn rhy ddrud	44.3%	47
Mae amseroedd gofal plant yn anaddas	16.0%	17
Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn	8.5%	9
Mae problem gyda thrafnidiaeth	1.9%	2
Nid oes gofal plant lle mae ei angen arnaf i fod	7.6%	8
Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn	4.7%	5
Dim ond ar sail ad hoc rydw i'n defnyddio gofal plant ac mae'n amhosibl cynllunio	0.9%	1
Arall (eglwurwch):	20.8%	22

Siart: Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant (n106)

Reason for not accessing childcare (n106; %)





Cost gofal plant, a'r defnydd o ffrindiau teulu yw'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â defnyddio gofal plant (47,44.3% a 32,30.2%)

- Roedd y trydydd categori mwyaf cyffredin, Arall, yn cynnwys ymatebion gan gynnwys;
 - *"Rwyf ar absenoldeb mamolaeth"*
 - *"Ni allaf fforddio talu am ofal plant. Pe bawn i'n gwneud hynny, byddai unrhyw arian rwy'n ei ennill yn mynd ar ofal plant a mwy."*
 - *"Yn ystod dechrau Covid nid oedd unrhyw ofal plant na chymorth ar gael"*
 - *"Aros i glwb ar ôl ysgol fod ar gael"*


Gofal plant Cymraeg

Defnydd o'r Gymraeg

Tabl: defnydd o'r Gymraeg (n126)

Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg? Ticiwch bob un sy'n berthnasol (n126; %)	%	Nifer
Deall	92.1%	116
Siarad	56.4%	71
Darllen	61.1%	77
Ysgrifennu	48.4%	61

Siart: defnydd o'r Gymraeg (n126)




- Atebodd 126 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mae hyn yn cynrychioli 31% o'r holl ymatebion a gafwyd.
- Mae hyn bron ddwywaith cyfradd y siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth gyffredinol Caerdydd a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011, a nododd fod gan 16.2% o boblogaeth Caerdydd un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (gallu darllen, ysgrifennu neu/a deall Cymraeg), ac mae 36,735 neu 11.1% o boblogaeth y sir yn siaradwyr Cymraeg.

Defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg (n297)

Tabl: defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg (n297)

Ydych chi'n defnyddio gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg? (n297)	%	Nifer
Ydw	21.9%	65
Nac oes	76.4%	227
Ddim yn siŵr / ddim yn gwybod	1.7%	5

Siart: defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg (n297)




- Mae hyn yn uwch na chyfran y lleoliadau cyfrwng Cymraeg (26 o'r 353, 7.4%) neu o leodd cofrestredig (863 o'r 9,002, 9.6%), sy'n dangos bod teuluoedd sy'n defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gwblhau'r adran hon o'r arolwg nag ymatebwyr yn gyffredinol.

Tabl: Yn dymuno defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg (n229)

Os na, a fydddech chi'n dymuno defnyddio gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg? (n229)	%	Nifer
Byddaf	9.6%	22
Efallai	22.7%	52
Na fyddaf	63.3%	145
Ddim yn gwybod	4.4%	10

Siart: Yn dymuno defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg (n229)




- Dywedodd 65 (21.9%) o'r 297 o ymatebwyr eu bod yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, a nododd 74 o ymatebwyr y byddent (22, 9.6%) neu y gallent (52, 22.7%) ddefnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Problemau cael gafael ar ofal plant cyfrwng Cymraeg

Tabl: Problemau cael gafael ar ofal plant cyfrwng Cymraeg

Pa broblemau rydych chi'n eu hwynebu wrth geisio cael gofal plant cyfrwng Cymraeg? (Wedi ymateb 'gallai ddymuno' uchod) (n64; %)	%	Nifer
Pellter	25%	16
Argaeledd	70.3%	45
Ansawdd Gofal	21.9%	14
Gallu ieithyddol staff	21.9%	14
Cost	31.3%	20
Dim digon o oriau gofal	15.6%	10

Siart: Problemau cael gafael ar ofal plant cyfrwng Cymraeg



- Argaeledd oedd y broblem a adroddwyd amlaf (45, 70.3%).
- Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys:
 - Mae rhestr hir iawn ar gyfer y clwb ar ôl ysgol
 - Dim meithrinfa Gymraeg sy'n darparu gwasanaeth cofleidiol ar gyfer yr ysgol maen nhw'n mynd iddi (ysgol cyfrwng Cymraeg) ar gyfer yr oriau dwi'n gweithio
 - Arferai fy mhlant fynd i warchodwr plant Cymraeg ond doedd dim modd iddi eu cael ar ôl iddynt ddechrau'r ysgol gan ei bod yn gollwng plant mewn ysgol wahanol.
 - Cymraeg yw ein hiaith gyntaf ac rydym yn siarad Cymraeg gartref ond nid oes gennym fynediad at feithrinfa cyfrwng Cymraeg

8.3. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Cafeat: Lle defnyddiwyd sylwadau o'r arolwg rhieni, rhaid cydnabod mai barn a phrofiadau'r ymatebydd unigol yw'r rhain ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli poblogaeth rhieni/gofalwyr Caerdydd yn gyffredinol.

Defnyddiwyd sylwadau fel y derbyniwyd a gallant gynnwys gwallau sillafu neu deipograffyddol.

Nid yw'r ymatebion yn ceisio herio na thanseilio dilysrwydd y safbwyntiau a fynegwyd ond maent yn ceisio cyflwyno data neu ddulliau posibl o wella neu fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

(a) hygrychedd darpariaeth gofal plant.

Derbyniwyd y sylwadau canlynol drwy'r arolwg rhieni:

- *Dim digon o warchodwyr plant*
- *Ychydig iawn o ddarparwyr gofal plant yn yr ardal, yn enwedig os oes angen cynllunio ymlaen llaw a bydd angen gofal cofleidiol arnynt ar gyfer meithrinfa ysgol pan fyddant yn 3 oed. Teimlaf nad oes llawer o gefnogaeth i rieni sy'n gweithio, yn enwedig y rheini y mae angen iddynt deithio i weithle o hyd yn hytrach na chael yr opsiwn i weithio gartref. Rydw i wedi gorfod gwrthod diwrnodau ychwanegol o waith yn ddiweddar gan nad ydw i wedi gallu gwneud trefniadau gofal plant addas.*
- *Oes, mae prinder enfawr o ofal plant yn fy ardal leol. Pan fydd fy mab yn dechrau yn yr ysgol gynradd y flwyddyn nesaf, ni allaf ddod o hyd i unrhyw un (gwarchodwr plant neu feithrinfa ddydd breifat) a fydd yn gallu darparu gofal plant cofleidiol. Rwy'n teimlo dan bwysau mawr am hyn oherwydd gallai olygu bod yn rhaid i mi leihau fy oriau gwaith eto neu roi'r gorau i fy swydd. Rwy'n weithiwr proffesiynol ôl-radd cymwysedig felly dydw i ddim am roi'r gorau i'm gyrfa na gorfod rhoi'r gorau i'm horiau gwaith eto. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar gontract 0.75 oherwydd problemau o ran argaeledd gofal plant.*
- *Diffyg amrywiaeth o ddarparwyr, bu'n rhaid i mi ddewis darparwr hynod o ddrud sy'n agos at weithle fy ngwr. Dim byd yn lleol.*
- *Does dim clwb gwyliau ar gael yn yr ysgol mae ein plentyn yn mynd iddi*
- *Yn gyntaf oll, mae'n anodd dod o hyd i'r wefan swyddogol i chwilio am ofal plant. Yna mae'n rhaid i chi chwilio am ofal plant sy'n gallu cynnig gwasanaeth cofleidiol ar gyfer yr ysgol ac yn addas i'ch anghenion gwaith*

Ymateb

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y darparwyr a'r lleoedd, yn seiliedig ar ddata DHG ac AGC

Tabl: Lleoliadau a lleoedd cofrestredig; DHG, AGC, yn ôl math o ddarpariaeth

	Lleoliadau		Lleoedd	
	DHG	AGC 07.06.2021	DHG	AGC 07.06.2021
Gofal dydd llawn	83	87	4005	4,181
Fesul sesiwn	39	43	1073	1,169
Y tu allan i oriau ysgol	44	50	2272	2,452
Gwarchodwyr plant	185	234	1557	1,920
Chwarae Mynediad Agored	1	1	75	75
Creche	1	2	20	30
Cyfanswm	353	417	9002	9827

Er bod rhai lleoliadau wedi nodi rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau penodol, gall hyn fod oherwydd bod plant ar restr aros ar gyfer un lleoliad, tra'n mynychu un arall. Fel y nodir isod, yn seiliedig ar gymhariaeth o restrau aros a lleoedd gwag wedi'u dadansoddi yn ôl gwasanaeth ac ACC, dywedwyd bod cyfanswm o 99 o blant ar restr aros lle nad oes capasiti ar gael o fewn y gwasanaeth hwnnw yn yr ACC.

- Gogledd Caerdydd – 21 o blant yn aros am le boreuol, 10 plentyn yn aros am sesiwn cynllun chwarae, 2 ar gyfer Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM (DS: mae lleoedd gwag yn bodoli ar gyfer Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM)
- Dwyrain Caerdydd - Dim plant yn aros am unrhyw wasanaeth
- De-ddwyrain Caerdydd - Dim plant yn aros am unrhyw wasanaeth
- Canol a De Caerdydd – 3 plentyn yn aros am ofal hanner diwrnod/Meithrinfa Hanner Diwrnod PM (DS: 527 o leoedd gwag ar gyfer Gofal Hanner Diwrnod/Meithrin Hanner Diwrnod AM). 6 o blant yn aros am le mewn Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM
- De-orllewin Caerdydd - 23 o blant yn aros am le mewn darpariaeth Gofal Hanner Diwrnod/Meithrinfa Hanner Diwrnod (DS: mae 36 o leoedd gwag boreol ar gael)
- Gorllewin Caerdydd - Caerdydd Mae 29 o blant yn aros am le Gofal Dydd Llawn/Meithrinfa Ddydd Lawn (DS: Mae 151 o leoedd gwag ar gyfer y bore yn yr ACC hon). Mae 5 plentyn yn aros am le mewn Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM (DS: Adroddwyd am 151 o leoedd gwag ar gyfer y bore)

(b) y rhwystrau a brofir gan—**(i) rhieni sy'n gweithio;**

Roedd y problemau a nodwyd gan rieni sy'n gweithio yn cynnwys costau uchel, gyda 299 o 393 o ymatebion, 74.2%, yn cytuno â'r datganiad "mae gofal plant yn rhy ddrud" (er y dylid nodi nad oedd yn bosibl nodi statws cyflogaeth yr ymatebwyr hyn); yr amser y mae gofal ar gael; problemau'n ymwneud â'r Cynnig Gofal Plant a'r "*diwylliant a disgwyliadau cyfredol ar y prif ofalwr i ddychwelyd i'r gwaith cyn i'r plentyn droi'n 2 oed*"

- *Meithrinfa ddrud iawn a'r angen o hyd i deulu ollwng a chasglu plant - fel gweithiwr allweddol rydw i'n dechrau gwaith am 7 a ddim yn gorffen tan 7.30pm*
- *Mae'r gost yn ormod, felly mae'n rhaid i un rhiant aros gartref yn hytrach na'r ddau'n gweithio (gan y byddem yn waeth ein byd pe bai'r ddau yn gweithio a phrin rydyn ni'n ymdopi fel y mae)*
- *Mae elfen hollt y cynnig 30 awr am ddim yng Nghymru (preifat/ysgol) bron yn anymarferol i lawer o rieni cyflogedig. Dim ond un lleoliad y gallwn ei ddefnyddio er mwyn manteisio ar y ddarpariaeth lawn. Os na fydd fy mhentyn yn cael lle mewn ysgol feithrin ym mis Ionawr yn yr un lle â'i frawd neu chwaer, ni fyddwn yn gallu defnyddio elfen yr ysgol. Mae gwir angen ailfeddwl am hyn.*
- *Dim anawsterau dod o hyd i ofal plant. Mae digon o feithrinfeydd preifat yn yr ardal gyfagos. Y broblem yw'r diwylliant a'r disgwyliad presennol ar y prif ofalwr i ddychwelyd i'r gwaith cyn i'r plentyn droi'n 2 oed pan fydd ymchwil yn dechrau dangos effaith emosiynol ac ymddygiadol y straen y mae'r gwahaniad hwn yn ei gael ar ein plant ifanc, ac felly'r effaith ar eu bywyd diweddarach (ymddygiad a sefydlogrwydd emosiynol). Daw'r pwysau o'r galw ariannol ar y teulu (mae teulu'n gofyn am ddau gyflog i fyw y tu allan i statws goroesi o fis i fis), cost enfawr gofal plant sy'n gwneud i deuluoedd gwestiynu gwerth cyflog ychwanegol, mae neiniau a theidiau yn gweithio'n ddiweddarach mewn bywyd oherwydd cynnydd mewn oedran ymddeol ac felly nid ydynt ar gael i ddarparu cymorth i deuluoedd a'r ofn bod cymryd unrhyw absenoldeb mamolaeth hirach yn cael effaith fawr ar allu'r fenyw i barhau â'i swydd a chael ei chymryd o ddifrif ar gyfer dyrchafiadau a chyfleoedd i ddatblygu yn y dyfodol.*

Ymateb

Nododd y gyfran fwyaf o ymatebwyr i'r cwestiwn ynghylch costau gofal plant, heb gynnwys gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth megis y Cynnig Gofal Plant neu Dechrau'n Deg, yn yr arolwg i rieni eu bod yn talu rhwng £100 a £199 yr wythnos am eu gofal plant (120 o 378, 31.75%), gyda 77 arall (20.37%) yn talu rhwng £200 a £299 yr wythnos. O ystyried y cynnydd sydd ar ddod yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a chostau cyfleustodau, mae'n debygol y bydd costau gofal plant yn cynyddu yn y tymor byr i ganolig. Er y bydd y Tîm

Cymorth Busnes Gofal Plant, fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu, yn ceisio annog mwy o leoliadau, yn enwedig gofal dydd fesul sesiwn, i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a derbyn talebau gofal plant, nid oes gan yr awdurdod lleol fawr ddim dylanwad, os o gwbl, dros y costau a godir gan ddarparwyr gofal plant.

(ii) rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant;

- *Rydym yn gweithio ein horiau yn ystod yr wythnos mewn ffordd gyddwysedig ac yn gweithio ar ddydd Sul yn lle dydd Gwener dim ond am na allwn fforddio'r diwrnod ychwanegol o ofal plant yr wythnos. Rwy'n hyfforddi fel seicolegydd ac oherwydd fy mod yn cael bwrsariaeth ni allwn gael mynediad at unrhyw gymorth ariannol e.e. tâl atodol gan y llywodraeth. Mae'r ddau ohonom wedi blino fel rhieni a dim ond yn gweld ein gilydd ar ddydd Sadwrn gan ein bod yn gofalu am ein plentyn bob dydd Gwener ac yn gweithio diwrnod yn ychwanegol ar y penwythnos gan na allwn fforddio ei roi mewn gofal plant am ddiwrnod ychwanegol. Rydyn ni wedi blino'n lân.*
- *Doedd dim hawl gen i gael grant gofal plant fel myfyriwr. Mae'r terfyn ar gyfer cyflog partneriaid yn rhy isel o lawer o gymharu â phris gofal plant. Roedd yn rhaid i mi astudio gartref gyda fy mab gan na allwn fforddio bod mewn addysg lawn amser a thalu ffioedd meithrinfa*

Ymateb

Nododd adroddiad ymchwil diweddar Llywodraeth Cymru "Adolygiad o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni mewn addysg, hyfforddiant neu wrth ddychwelyd i'r gwaith" y canlynol:

"Bylchau a rhwystrau

Er gwaethaf amrywiaeth o raglenni a ffynonellau ariannu, mae grwpiau o hyd a allai golli allan ar gymorth neu nad ydynt yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan rai cynlluniau i'r graddau bod hyn yn rhwystr iddynt ddilyn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Ymhlith y grwpiau hyn mae:

- *myfyrwyr ôl-raddedig*
- *myfyrwyr gofal iechyd*
- *aelwydydd dau riant lle mae un mewn gwaith (er y gall enillion y riant arall fod yn isel)*
- *rhieni â nifer o blant*
- *grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol megis cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig*
- *dysgwyr anabl*
- *ffoaduriaid a cheiswyr lloches"*

Daeth yr adroddiad i'r casgliadau canlynol gan wneud yr argymhellion a nodir isod:

"Mae'r ymchwil wedi dangos, er gwaethaf effaith gadarnhaol cymorth gofal plant, y gallai grwpiau gollu allan ar y cyfle i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn ogystal â wynebu heriau ychwanegol sy'n creu rhwystrau i rieni.

Er bod angen ymchwilio ymhellach i sut y gellid cefnogi'r rhai sy'n colli allan ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant yn well, ni argymhellir ailgynllunio'r Cynnig Gofal Plant i letya myfyrwyr a'r rhai sydd ar fin cael gwaith. Fel dewis arall, dylid mynd i'r afael â'r bylchau yn y cymorth drwy adolygu cwmpas y rhaglenni presennol a chreu gwell cysylltiadau rhyngddynt.

Mae angen cymryd camau i leihau cymhlethdod cynlluniau cymorth gofal plant a gofynion cymhwyso. Dylid adolygu'r dulliau cyfathrebu â dysgwyr er mwyn mynd i'r afael â hyrwyddo'r pecyn cymorth i'r grwpiau targed hyn ac egluro'r cymorth sydd ar gael."

Gellir gweld yr adroddiad llawn yn,

<https://llyw.cymru/adolygiad-or-cymorth-gofal-plant-sydd-ar-gael-i-rieni-mewn-addysg-hyfforddiant-neu-wrth-ddychwelyd-gwaith-crynodeb-html>

RhGPCh (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth)

Mae RhGPCh yn brosiect ar y cyd dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE). Mae'n gweithredu mewn awdurdodau lleol y tu allan i hen glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Prosiect yn darparu cymorth gofal plant i rieni sy'n ymgymryd â hyfforddiant neu'n chwilio am waith, lle mai gofal plant yw eu prif rwystr. Nod y Prosiect yw cefnogi rhieni rhwng 16 a 24 oed nad ydynt yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant na chyflogaeth a rhieni economaidd anweithgar 25 oed a hŷn.

Nid yw'n glir sut y bydd Brexit a mynediad at ffrydiau ariannu Ewropeaidd yn effeithio ar barhad y Prosiect.

(iii) aelwydydd di-waith;

Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd i awdurdodau lleol ynghylch y ADGP yn gofyn am ganolbwyntio ar "*rieni sy'n gweithio neu rieni sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant,*" ac yn gofyn i Awdurdodau Lleol hefyd ystyried "*anghenion lleol rhieni... i'w cynorthwyo i gael gwaith*". Nodwyd bod y newid i gyflogaeth a'r angen cysylltiedig am ofal plant yn cyflwyno heriau, fel y gwelir o'r ymatebion isod:

- *Nid oes cynlluniau Dechrau'n Deg yn fy ardal i, hefyd ni allaf fforddio talu i ddau blentyn fynd i ofal plant*
- *Yn bendant, nid oes cefnogaeth gan y llywodraeth i famau os ydynt am ddychwelyd i'r gwaith pan fydd eu plentyn yn iau na 2 oed. Nid yw'r llywodraeth yn cefnogi menywod fel hyn! Yn ogystal, mae'r*

gefnogaeth pan fydd plentyn rhwng 3 a 4 oed yn hurt. Nid oes gan bob ysgol glybiau brecwast a phrynhawn felly os yw'r ddau riant eisiau gweithio mae angen i chi dalu am ofal plant preifat. Dylai fod mwy o ddewisiadau sy'n annog rhieni i ddychwelyd i'r gwaith

Ymateb

Yn ogystal â phrosiect RhGPCh (gweler uchod), mae'r Cynnig Gofal Plant yn darparu cyllid gofal plant i rieni cymwys sy'n symud i gyflogaeth, a all, ynghyd â Meithrinfa Cyfnod Sylfaen y plentyn, ddarparu hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg, gyda rhieni'n talu am fwyd a lluniaeth a chostau cludiant yn unig.

I rieni plant 2 i 3 oed sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae elfen gofal plant y rhaglen yn darparu 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim. Gallai hyn helpu i hwyluso symud i gyflogaeth, er y cydnabyddir y codir tâl ar deuluoedd am unrhyw oriau gofal plant sy'n uwch na hawl Dechrau'n Deg.

(iv) teuluoedd incwm isel;

- *Methu fforddio gweithio - mae ennill cyflog o bosibl yn golygu y byddai cyflog cyfan (ynghyd ag ychydig mwy efallai wrth ystyried costau teithio ac ati) yn mynd ar ofal plant. Nid yw'n bosibl nawr gydag un plentyn, ac os byddaf yn cael mwy o blant yn y dyfodol byddai'n gwbl amhosibl gyda mwy nag un plentyn. Rwy'n awyddus iawn i weithio a chyfrannu ond alla i ddim. Does gen i ddim hawl i unrhyw fudd-daliadau gan fod fy mhartner yn ennill ychydig yn uwch na'r terfyn am unrhyw gymorth (mewn sefyllfa anodd lle nad oes hawl gennym gael unrhyw fudd-daliadau ychwanegol ond nid ydym yn gallu fforddio'r rhan fwyaf o bethau)*
- *Oes - anodd dod o hyd i ofal plant sy'n cael am bris rhesymol. Mae rhai sesiynau bron yn £40 y plentyn y dydd.*

Ymateb

Fel y nodwyd uchod, gall RhGPCh, Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth, talebau gofal plant a chymorth gofal plant Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol, i gyd ddarparu rhywfaint o gymorth tuag at gostau gofal plant.

Yn ogystal, dywedodd 42.9% (172 o 401) o ymatebwyr eu bod yn "cytuno'n gryf" neu'n "tueddu i gytuno" â'r datganiad "*Rwy'n gwybod ble i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant*"

Cam Gweithredu: Gweithio gyda gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd i wella hygyrchedd gwybodaeth am gymorth ariannol gyda chostau gofal plant i rieni/gofalwyr.

Cam gweithredu: gweithio gyda lleoliadau gofal dydd fesul sesiwn i annog mwy o leoliadau i gofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant. Dim ond 13 (33.3%) o ddarparwyr gofal dydd fesul sesiwn sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd, y gyfran isaf o unrhyw fath o ddarparwr.

(v) teuluoedd unig rieni;

Wrth chwilio am y term 'unig riant' yn yr arolwg i rieni, dim ond un canlyniad a gafwyd, er i 52 o ymatebwyr (12.8%) nodi mai nhw yn unig oedd yn gyfrifol am eu plentyn neu eu plant.

- *Rwyf wedi esbonio yn y paragraff diwethaf na allwn adael gwaith i fynd â nhw i ysgol ymhell i ffwrdd am yr hyn rydych chi'n ei gynnig. Mae angen i chi gynnig gofal plant llawn amser i rieni unigol sy'n gweithio llawn amser mewn meithrinfa breifat fel 'lleoliad gofal plant' i lawr y bae sy'n cynnig oriau hir i rieni sy'n gweithio*

Ymateb

Mae'r gwasanaethau, y polisiau a'r problemau a nodwyd uchod i gyd yr un mor berthnasol i unig rieni ag i ddau riant. Mae'n debygol bod problemau'n ymwneud â chost gofal plant yn effeithio'n yr un modd neu'n fwy difrifol ar rai aelwydydd unig riant. Gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau gofal plant yn gweithredu mewn economi marchnad, nid yw eu ffioedd yn ystyried incwm aelwydydd.

Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig;

Tabl: leithoedd eraill sy'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau



	Bengal eg	Tsieine eg	Ffrang eg	Groegai dd	Eidale g	Makato n	Portiwgal eg	Pwyle g	Pwnjab eg	Sbaen eg	Wrd w
Gwarchodwyr Plant			2				1	2	1	1	1
Gofal dydd llawn	1	1			2	1		2		2	
Gofal Dydd Fesul Sesiwn		1		1	1			1			1

- Dywedwyd bod deg iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau, ynghyd â Makaton.

Tabl: Ethnigrwydd a gofnodwyd: Cyfrifiad 2011; Arolwg Rhieni 2021

Cyfanswm Preswylwyr Arferol	Cyfrifiad 2011	Arolwg Rhieni 2021
Gwyn	84.7	93.3
Prydeinig	80.3	84.2
Gwyddelig	0.7	1.0
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0.2	0.0
Gwyn arall	3.5	8.1
Ethnigrwydd Cymysg	2.9	2.2
Gwyn a Du Caribiaidd	1.1.	1.7
Gwyn a Du Affricanaidd	0.5	0.0
Gwyn ac Asiaidd	0.7	0.5
Cymysg arall	0.6	2.0
Asiaidd	8	2.5
Indiaidd	2.3	1.5
Pacistanaidd	1.8	0.0
Bangladeshaid	1.4	0.0
Tsieineaidd	1.2	0.5
Asiaidd Arall	1.3	0.5
Du	2.4	1.5
Affricanaidd	1.5	1.0
Caribiaidd	0.4	0.2
Du Arall	0.5	0.2
Grwpiau Ethnig Eraill	2	1.0
Arabaidd	1.4	0.7
Grwpiau Ethnig Eraill	0.6	0.2
Cyfanswm	100	100

Tabl: Ethnigrwydd a gofnodwyd: Cyfrifiad 2011; Arolwg Rhieni 2021



- Mae ymatebwyr yr arolwg rhieni sy'n nodi eu bod yn Wyn wedi'u gorgynrychioli ychydig o gymharu â data'r Cyfrifiad ar gyfer y boblogaeth gyfan (93.3% o'r ymatebwyr o gymharu ag 84.7% o'r boblogaeth gyfan)
- Mae pob grŵp ethnig arall wedi'i dangynrychioli yn yr ymatebion, gyda'r gwahaniaeth mwyaf yn y rhai sy'n nodi eu bod yn Asiaidd (2.5% o'r ymatebion o gymharu ag 8% o boblogaeth Caerdydd).

- Nid oes unrhyw wybodaeth am ethnigrwydd y gweithlu gofal plant, er mwyn gallu asesu i ba raddau y mae'n adlewyrchu'r gymuned ehangach

Teuluoedd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig, neu anabledd.

Gofynnodd yr arolwg rhieni i ymatebwyr "A oedd unrhyw anawsterau arbennig wrth ddod o hyd i ofal plant i un neu fwy o'ch plant? Os felly pam? Llenwch y blwch hwn hefyd os ydych wedi cael anhawster dod o hyd i ofal plant ar gyfer plentyn anabl sy'n 18 oed neu'n hŷn?"

Chwiliwyd ymhlith yr holl ymatebion am y geiriau neu'r ymadroddion canlynol:

"AAA"; "Anghenion Addysgol Arbennig"; "anabledd"; "anabl"; "ADY"; "anghenion ychwanegol" a chanfuwyd y 4 ymateb canlynol:

- *Oedd, nid ydych yn cynnig digon o oriau hir na lleoedd cywir ar gyfer gofal plant. Mae plant anabl fel fy un i angen gofal plant a chlybiau gwyliau drwy gydol y flwyddyn a dim ond drwy feithrinfeydd preifat y gellir eu defnyddio felly ystyriwch roi lleoedd gofal plant llawn amser i feithrinfeydd preifat fel darling buds yn y bae sy'n agor am oriau hir*
- *Nid yw llawer o bobl wedi'u hyfforddi ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, yn enwedig gan fod ymddygiad treisgar yn gyffredin*
- *Mae fy mhlentyn 2 oed newydd orffen cemotherapi ac rwy'n poeni am gostau ac mae future chums yn gofalu amdano gyda'i anghenion ychwanegol.*
- *Mae fy mhlentyn yn anabl ac mae ganddo anghenion meddygol cymhleth. Mae diffyg darpariaeth gofal plant/darpariaeth gynhwysol enfawr ar gyfer plant ag anghenion o'r fath. Mae'n anodd iawn dod o hyd i gynorthwyyr personol ac yna brinder ohonynt. Mae angen iddynt hefyd allu gyrru a darparu ar gyfer cadair olwyn yn eu car - mae gan rai geir bach iawn ac felly nid yw hyn bob amser yn bosibl. Mae'n ymddangos bod cynorthwyyr personol yn gwybod nad oes ots os ydynt yn eich siomi ar y funud olaf gan fod galw mawr amdanynt... rydych yn annhebygol iawn o gael gwared arnynt neu ddod o hyd i rywun arall yn gyflym oherwydd bod eu hangen arnoch mor wael. Maent hefyd yn tueddu i symud ymlaen o'u rolau'n gyflym iawn. Mae dod o hyd i ofal plant yn ystod gwyliau'r haf yn amhosibl - mae'r ysgol yn cynnig 3 diwrnod yr wythnos am ddim ond pythefnos. Hyd yn oed pan fydd gennych gynorthwy-ydd personol, fel arfer mae ganddo swydd arall y mae'n rhaid i chi weithio o'i chwmpas. Hefyd, nid ydych yn cael digon o oriau i ddiwallu eich anghenion, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol. Er enghraifft, cafwyd 7 wythnos yn ystod gwyliau'r haf diwethaf a dim ond 9 awr yr wythnos yw ein dyraniad ar gyfer cynorthwyydd personol. Mae fy ngŵr yn gweithio'n llawn amser ac rwy'n gweithio 3 diwrnod yr wythnos. Felly mae ein hamser gyda chynorthwyydd personol yn caniatáu i ni gael gwasanaeth gofal plant o 1 diwrnod a 1awr 30min - pan fydd angen 3 diwrnod arnom. Felly mae'n rhaid i ni ddibynnu ar neiniau a theidiau, neu gylchdroi ein*

gwyliau blynyddol, sy'n golygu nad ydym i ffwrdd o'r gwaith gyda'n gilydd nac yn gallu gwneud pethau neis gyda'n gilydd.


Er ei bod yn amlwg y gall gofal plant fod yn broblem i rai teuluoedd â phlentyn anabl neu angen ychwanegol, gofynnodd yr arolwg rhieni i rieni roi rhesymau pam nad oeddent yn defnyddio gofal plant. O'r 106 o ymatebwyr, nododd 5 (4.7%) fod hyn oherwydd "*Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhleintyn.*" Pan ofynnwyd iddynt roi sylwadau ar y datganiad "*Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant*", roedd 38.6% (154) o ymatebion yn cytuno'n gryf, ac roedd 42.1% arall (168) yn tueddu i gytuno.

Darparwyr gofal plant: Darpariaeth ADY/AAA

Tabl: Darpariaeth ADY/AAA, yn ôl math o ddarpariaeth

		Person dynodedig ar gyfer darpariaeth ADY/AAA?	Hyfforddiant ychwanegol/arbenigol parthed: ADY/AAA?	Yn ymwybodol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol?	Atgyfeiriadau i'r ALL neu gyswllt ynghylch: ADY/AAA?
Gwarchodwyr plant	Nifer	44	31	96	30
	%	24	17	52	16
Gofal dydd llawn	Nifer	47	41	47	46
	%	57	49	57	55
Fesul sesiwn	Nifer	37	31	35	33
	%	95	79	90	85
Y tu allan i oriau ysgol	Nifer	31	29	33	19
	%	70	66	75	43
Creche	Nifer	1	1	1	1
	%	100	100	100	100
Chwarae Mynediad Agored	Nifer	0	1	0	0
	%	-	100	-	-

Siart: Darpariaeth ADY/AAA, yn ôl math o ddarpariaeth



- Er bod 37 o 39 (95%) o leoliadau gofal dydd fesul sesiwn yn dweud bod ganddynt aelod staff dynodedig ar gyfer ADY/AAA, mae hyn yn gostwng i 70% ar gyfer gofal y tu allan i oriau ysgol; 57% ar gyfer gofal dydd llawn, a 24% ar gyfer gwarchod plant. DS: Er bod 100% ar gyfer Creche, mae pob sgôr yn seiliedig ar un ymateb)

- Dywedodd 79% o leoliadau gofal dydd fesul sesiwn a 66% o ddarparwyr y tu allan i oriau ysgol eu bod wedi cael hyfforddiant ychwanegol neu arbenigol. Mae hyn yn lleihau i lai na hanner y lleoliadau gofal dydd llawn (49%) a dim ond 17% o warchodwyr plant
- Mae ymwybyddiaeth o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn amrywio o 90% mewn gofal dydd fesul sesiwn; 75% yng ngofal y tu allan i oriau ysgol; 57% mewn gofal dydd llawn a 52% mewn gwarchodwyr plant
- Mae gofal dydd fesul sesiwn a llawn yn adrodd am y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i'r awdurdod lleol a chyswllt â'r awdurdod lleol (85% a 55% yn y drefn honno), gyda 43% o leoliadau y tu allan i oriau ysgol ac 16% o warchodwyr plant yn nodi'r math hwn o gyswllt

Cam Gweithredu: Gweithio gyda phartneriaid Gwasanaethau Cynhwysiant Caerdydd, Datblygu'r Gweithlu a Chwlwm i barhau i hyrwyddo'r hyfforddiant a gynigir i ddarparwyr gofal plant. Mae'r hyfforddiant yn darparu gwybodaeth a chyngor i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Cod Anghenion Ychwanegol a gwella ymarfer ADY/AAA

Cam Gweithredu: Gweithio gyda darparwyr gofal plant a phartneriaid i nodi unrhyw rwystrau rhag cael gafael ar hyfforddiant a chyngor ynghylch ADY/AAA

Cam Gweithredu: Parhau i hyrwyddo'r Grant Lleoedd â Chymorth, sy'n darparu cyllid ar gyfer cymorth staffio ychwanegol i ganiatáu mynediad at ofal plant i blant rhieni sy'n gweithio na allent fynychu'n ddiogel fel arall.


Mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd / a gefnogir gan y gwasanaeth

Tabl: Mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer/a gefnogir ar hyn o bryd, yn ôl y math o ddarpariaeth; nifer, %

		Gwybyddiaeth a Dysgu	Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol	Cyfathrebu a Rhyngweithio	Synhwyrdaidd a / neu Gorfforol
Gwarchodwyr plant	Nifer	44	47	51	49
	%	23.8	25.4	27.6	26.5
Gofal dydd llawn	Nifer	48	50	43	48
	%	57.8	60.2	51.8	57.8
Fesul sesiwn	Nifer	21	25	31	23
	%	53.8	64.1	79.5	59.0
Y tu allan i oriau ysgol	Nifer	19	30	25	21
	%	43.2	68.2	56.8	47.7
Creche	Nifer	1	1	1	1
	%	100	100	100	100
	Nifer	1	1	1	1

Chwarae Mynediad Agored	%	100	100	100	100
-------------------------	---	-----	-----	-----	-----

Siart: Mathau o ADY/AAA y darperir ar eu cyfer/a gefnogir ar hyn o bryd, yn ôl y math o ddarpariaeth; nifer, %



- Mae'r ddarpariaeth a gofnodwyd ar gyfer plant ag ADY/AAA ar draws y 4 categori ar ei hisaf ymhlith gwarchodwyr plant, gyda dim mwy na 51 (27.5% ar gyfer Cyfathrebu a Rhyngweithio) yn nodi'r gallu i ddarparu cymorth ar gyfer unrhyw gategori.
- Mae dros hanner y lleoliadau gofal dydd fesul sesiwn (21, 53.8%) a lleoliadau gofal dydd llawn (48, 57.8%) yn dweud eu bod yn gallu cefnogi plant ag ADY/AAA mewn perthynas â Gwybyddiaeth a Dysgu, a thros 60% o leoliadau gofal dydd llawn (50, 60.2%); gofal dydd fesul sesiwn (25, 64.1%) a lleoliadau y tu allan i oriau ysgol (30, 68.2%) yn darparu cymorth ynghylch Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol. Mae hyn yn gostwng i 25.4% ymhlith gwarchodwyr plant.
- Adroddwyd am y gallu i gefnogi plant o amgylch materion synhwyrdd a/neu gorfforol gan 23 (59%) o leoliadau gofal dydd fesul sesiwn a 48 (57.8%) o leoliadau gofal dydd llawn, gyda 21 (47.7%) o leoliadau y tu allan i oriau ysgol yn gallu darparu hynny.

9. Addysg Feithrin am ddim a darpariaeth Dechrau'n Deg

Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen - ysgolion

Mae'r tablau canlynol yn nodi nifer y plant sy'n derbyn addysg gynnar a ariennir mewn ysgolion meithrin, cynradd ac arbennig, yn ôl oedran disgyblion ac yn ôl ACC.

Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – ysgolion: Gogledd Caerdydd

ACC	Enw'r Ysgol Gynradd	Cyfanswm	2/3 oed Rhan-amser	3/4 oed Rhan-amser	4/5 oed Llawn amser
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Bryn Celyn	32	12	20	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin	32	7	25	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Coed Glas	70	15	55	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Glyncoed	41	12	29	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Howardian	91	27	64	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Lakeside	79	23	56	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Llanedern	65	19	46	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Llanisien Fach	69	23	46	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Llys-faen	44	1	43	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Marlborough	62	0	61	1
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Pontprennau	79	24	55	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Rhiwbeina	80	0	80	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Rhydypennau	75	14	61	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Springwood	31	10	21	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Bernadette	53	17	36	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant	37	12	25	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans	48	14	34	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig	62	16	46	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen	79	17	62	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes	16	3	13	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol y Berllan Deg	61	25	36	0
Gogledd Caerdydd	Ysgol y Wern	79	0	79	0
Cyfanswm		1285	291	993	1

Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – ysgolion: Dwyrain Caerdydd

ACC	Enw'r Ysgol Gynradd	Cyfanswm	2/3 oed Rhan-amser	3/4 oed Rhan-amser	4/5 oed Llawn amser
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Bryn Hafod	57	16	41	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon	22	5	17	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Greenway	48	13	35	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Meadowlane	51	14	37	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Oakfield	96	37	59	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn	42	13	29	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Tredelerch	77	20	57	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog	49	19	30	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd	47	16	31	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Trowbridge	25	11	14	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Willowbrook	64	0	64	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Bro Eirwg	64	12	52	0
Dwyrain Caerdydd	Ysgol Pen y Pîl	41	15	26	0
Cyfanswm		683	191	492	0

Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – ysgolion: De-ddwyrain Caerdydd

ACC	Enw'r Ysgol Gynradd	Cyfanswm	2/3 oed Rhan-amser	3/4 oed Rhan-amser	4/5 oed Llawn amser
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Adamsdown	60	15	45	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Albany	51	17	34	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Allensbank	28	9	19	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Baden Powell	31	8	23	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Gladstone	55	20	35	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Moorland	53	20	33	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Parc y Rhath	63	16	47	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	26	8	18	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr	53	15	38	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd Stacey	37	12	25	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville	33	11	22	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Feithrin Tremorfa	62	18	44	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Glan Morfa	36	14	22	0
De-ddwyrain Caerdydd	Ysgol Mynydd Bychan	53	19	34	0
Cyfanswm		641	202	439	0

Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – ysgolion: Canol a De Caerdydd

ACC	Enw'r Ysgol Gynradd	Cyfanswm	2/3 oed Rhan-amser	3/4 oed Rhan-amser	4/5 oed Llawn amser
Canol a De Caerdydd	Ysgol Feithrin Grangetown	134	38	96	0
Canol a De Caerdydd	Ysgol Gynradd Mount Stuart	74	23	51	0
Canol a De Caerdydd	Ysgol Gynradd Parc Ninian	91	30	61	0
Canol a De Caerdydd	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair	30	4	26	0
Canol a De Caerdydd	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Sant Paul	24	8	16	0
Canol a De Caerdydd	Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad	67	24	43	0
Cyfanswm		420	127	293	0

Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – ysgolion: De-orllewin Caerdydd

ACC	Enw'r Ysgol Gynradd	Cyfanswm	2/3 oed Rhan-amser	3/4 oed Rhan-amser	4/5 oed Llawn amser
De-orllewin Caerdydd	Canolfan Blant Trelái a Chaerau	109	54	54	1
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Herbert Thompson	80	22	58	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Hywel Dda	56	17	39	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Kitchener	70	19	51	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Lansdowne	60	22	38	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Millbank	46	16	30	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Pencaerau	49	14	35	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Severn	125	38	87	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan	14	0	14	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffrancis	48	15	33	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	29	7	22	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Trelái	47	15	32	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Tŷ Gwyn	4	1	3	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Windsor Clive	64	19	45	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gymraeg Nant Caerau	48	7	41	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gymraeg Pwll Coch	57	23	34	0
De-orllewin Caerdydd	Ysgol Gymraeg Treganna	96	10	85	1
Cyfanswm		1002	299	701	2


Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – ysgolion: Gorllewin Caerdydd

ACC	Enw'r Ysgol Gynradd	Cyfanswm	2/3 oed Rhan-amser	3/4 oed Rhan-amser	4/5 oed Llawn amser
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Bryn Deri	43	18	25	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Coryton	24	10	14	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Creigiau	53	15	38	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Danescourt	62	14	48	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Gabalfa	38	13	25	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Hawthorn	35	12	23	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Pentre-baen	44	9	35	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Peter Lea	59	19	40	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Radur	47	7	40	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Tongwynlais	39	9	30	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd	80	0	80	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Glan Ceubal	47	16	31	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	64	0	64	0
Gorllewin Caerdydd	Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth	43	22	21	0
Cyfanswm		678	164	514	0

Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – meithrin, ysgolion cynradd ac arbennig: Caerdydd

ACC	Cyfanswm	2/3 oed Rhan-amser	3/4 oed Rhan-amser	4/5 oed Llawn amser
Gogledd Caerdydd	1285	291	993	1
Dwyrain Caerdydd	683	191	492	0
De-ddwyrain Caerdydd	641	202	439	0
Canol a De Caerdydd	420	127	293	0
De-orllewin Caerdydd	1002	299	701	2
Gorllewin	678	164	514	0
Caerdydd	4709	1274	3432	3

Siart: Tabl: Addysg Gynnar y Feithrin yn y Cyfnod Sylfaen – meithrin, ysgolion cynradd ac arbennig: Caerdydd



- Mae cyfanswm o 4,706 o blant rhwng 2 a 3, a 3 i 4 oed yn cael mynediad i addysg rhan-amser yn y blynyddoedd cynnar drwy ysgolion a gynhelir, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig

Lleoliadau addysg gynnar nas cynhelir

Tabl: Lleoliadau addysg gynnar nas cynhelir – ACC; math o gofrestrriad AGC; prif iaith; lleoedd cofrestredig; plant a ariennir ar gyfer lleoliad addysg gynnar rhan-amser (tymor yr haf 2021)

ACC	Math y cofrestrriad AGC	Prif iaith	Lleoedd cofrestredig	Nifer y plant sy'n cael eu hariannu
Gogledd Caerdydd	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	Cymraeg	33	12
De-orllewin Caerdydd	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	Cymraeg	19	2
	Gofal dydd llawn	Cymraeg	32	3
Gorllewin Caerdydd	Gofal dydd llawn	Cymraeg	36	0
	Gofal dydd llawn	Cymraeg	33	16
	Gofal dydd llawn	Cymraeg	58	2
	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	Cymraeg	24	3
	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	Cymraeg	36	18
Cyfanswm			271	56

- Ariannwyd cyfanswm o 56 o blant i fynychu 6 lleoliad nas cynhelir ar gyfer lle addysg gynnar a ariennir.
- Mae pob lleoliad yn un cyfrwng Cymraeg

- DS: Dywedodd cyfanswm o 144 o leoliadau (86 o warchodwyr plant, 47 o leoliadau gofal dydd llawn ac 11 o leoliadau gofal dydd fesul sesiwn fod ganddynt blant yn mynychu rhwng 7 Mehefin a 4 Gorffennaf ar gyfer lleoliad addysg gynnar, er na ddywedodd llawer eu bod wedi cael eu hariannu i'w darparu.
- Adroddwyd am y presenoldeb wythnosol cyfartalog canlynol ar gyfer lleoliadau addysg gynnar: gwarchodwyr plant – 197; gofal dydd llawn – 2146, fesul sesiwn – 314.

Tabl: Lleoliadau addysg gynnar a gofnodwyd ac a ariennir, pob math o ddarpariaeth

Math o ddarparwr	Presenoldeb cyfartalog wythnosol a gofnodwyd ar gyfer lleoliad addysg gynnar	Presenoldeb cyfartalog dyddiol wedi'i gyfrifo (wythnosol/5)	Presenoldeb dyddiol gwirioneddol (plant a ariennir ar gyfer addysg gynnar yn ôl adran Addysg)	Gwahaniaeth
Gwarchodwr Plant	197	39	0	39
Gofal dydd llawn	2146	429	21	408
Gofal fesul sesiwn	314	62	35	27
Cyfanswm	2657	530	56	474

- Gan dybio mai'r presenoldeb cyfartalog dyddiol ar draws yr holl ddarparwyr a ddywedodd fod ganddynt blant yn bresennol ar gyfer lle addysg gynnar yw 530 o blant y dydd, roedd $530 - 56 = 474$ o blant y dydd yn cael eu cofnodi o dan y categori presenoldeb anghywir.

Cam Gweithredu: Gweithio gyda chydweithwyr Addysg, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, i sicrhau bod darparwyr gofal plant yn deall yn gywir y defnydd o derminoleg sy'n ymwneud â lleoliadau addysg gynnar ac ystyr y derminoleg yn gywir, er mwyn gwella cywirdeb y DHG ac ymarferion casglu data eraill yn y dyfodol

Dechrau'n Deg

Tabl: Dechrau'n Deg: Caerdydd: lleoliadau – pob darparwr; ieithoedd (DHG)

Lleoliadau	
Gofal dydd llawn - Saesneg	6
Gofal dydd llawn - Cymraeg	3
Fesul sesiwn - Saesneg	19
Fesul sesiwn - Cymraeg	1
Creche - Saesneg	1
Gwarchodwr Plant - Saesneg	2
Y tu allan i oriau ysgol	1

Tabl: Dechrau'n Deg: Caerdydd: lleoliadau – pob darparwr; ieithoedd (Dechrau'n Deg)

Lleoliadau	
Gofal dydd llawn - Saesneg	4
Gofal dydd llawn - Cymraeg	3
Fesul sesiwn - Saesneg	22
Fesul sesiwn - Cymraeg	3
Creche - Saesneg	1
Gwarchodwr Plant - Saesneg	0
Y tu allan i oriau ysgol	0

- Mae'n ymddangos na chafodd data DHG ei gyflwyno gan 3 darparwr gofal dydd fesul sesiwn cyfrwng Saesneg a 3 darparwr gofal dydd fesul sesiwn cyfrwng Cymraeg
- Mae'n ymddangos bod dau leoliad gofal dydd llawn (cyfrwng Saesneg) ac un lleoliad gofal dydd fesul sesiwn (y ddwy iaith) wedi adrodd yn anghywir am ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg.
- Mae'r tabl isod yn dangos nifer y lleoliadau a nododd eu bod yn ddarparwr Dechrau'n Deg mewn du, a data a ddarparwyd gan dîm Dechrau'n Deg Cyngor Caerdydd mewn coch

Tabl: Lleoliadau Dechrau'n Deg – math o ddarpariaeth ac ACC; DHG (Dechrau'n Deg)

	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd
Gofal dydd llawn - Saesneg	-	2 (1)	1 (0)	1 (1)	2 (2)	-
Gofal dydd llawn - Cymraeg	-	1 (1)	-	-	2 (2)	-
Fesul sesiwn - Saesneg	1 (2)	6 (7)	3 (4)	2 (2)	6(6)	1 (1)
Fesul sesiwn - Cymraeg	1 (0)	-	0 (1)	-	0	-
Fesul sesiwn - Cymraeg	0 (1)	-	-	-	-	-
Creche - Saesneg	-	-	-	-	1 (1)	-

Tabl: Lleoedd a brynwyd fesul lleoliad Dechrau'n Deg yn ôl ACC a math o gofrestrriad

ACC	Math o leoliad	Lleoedd a brynwyd bob dydd
Dwyrain Caerdydd	Gofal dydd llawn	9
	Gofal dydd llawn	20
	Fesul sesiwn	16
	Fesul sesiwn	28
	Fesul sesiwn	32
	Fesul sesiwn	56
	Fesul sesiwn	40
	Fesul sesiwn	12
	Fesul sesiwn	12
Gogledd Caerdydd	Fesul sesiwn	8
	Fesul sesiwn	48
	Fesul sesiwn	32
De-ddwyrain Caerdydd	Fesul sesiwn	12
	Fesul sesiwn	56
	Fesul sesiwn	36
	Fesul sesiwn	56
	Fesul sesiwn	12

ACC	Math o leoliad	Lleoedd a brynwyd bob dydd
De-orllewin Caerdydd	Gofal dydd llawn	24
	Gofal dydd llawn	32
	Gofal dydd llawn	22
	Gofal dydd llawn	24
	Fesul sesiwn	56
	Fesul sesiwn	48
	Fesul sesiwn	40
	Fesul sesiwn	48
	Fesul sesiwn	56
	Fesul sesiwn	20
	Creche	15
Gorllewin Caerdydd	Fesul sesiwn	40
Canol a De Caerdydd	Gofal dydd llawn	12
	Fesul sesiwn	40
	Fesul sesiwn	56

Dechrau'n Deg: presenoldeb

- Ar gyfer y cyfnod diweddaraf yr adroddir arno, o'r 3,802 o leoedd a brynwyd, llenwyd 3,077. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd defnydd o 81%. Gall diffyg presenoldeb fod o ganlyniad i salwch, hunanynysu sy'n gysylltiedig â Covid neu achosion eraill.
- Dywedodd dau ddarparwr y tu allan i oriau ysgol ac un garchodwr plant eu bod yn lleoliadau Dechrau'n Deg. Nid yw hyn yn gywir gan nad oes unrhyw leoliadau y tu allan i oriau ysgol na gwarchodwyr plant yn darparu lleoedd Dechrau'n Deg

Gofynnwyd am ofal plant ond gwrthodwyd y lle a gynigiwyd.

Roedd 254 o blant yn gymwys ac roedd 10 Ffurflen Mynediad Gofal Plant Dechrau'n Deg heb eu cwblhau o'r cychwyn cyntaf. O'r 241 o gynigion a wnaed ar gyfer plant sy'n gymwys ac a anwyd rhwng 1/1/2019 a 31/3/2018, gwrthodwyd 19, er y gwnaed ail gynnig ym mhob achos neu sgysrwyd â rhieni. Mae hyn yn hafal i 7.8%.

Tabl: Gofynnwyd am ofal plant Dechrau'n Deg ond gwrthodwyd y lle a gynigiwyd.

Rhesymau dros wrthod lle	Eisoes yn mynychu mewn mannau eraill/ddim angen y lle gofal plant mwyach	Newid meddw l ar iaith	Mae'r plenty n yn rhy ifanc	Symud cyfeiriad	Sesiwn addas ddim ar gael	Dim ymateb i gynnig	Brawd neu chwaer mewn ysgol wahanol	Cyfanswm
Nifer y lleoedd a wrthodwyd	3/7	0	5	0	2	1	1	19

Rhieni a wrthododd ofal plant o'r cychwyn i blant sy'n gymwys ac a anwyd rhwng 1/1/2019 – 31/3/2019.

Gwrthododd rieni 16 o blant allan o'r 254 cymwys ofal plant = 6%.

Ym mhob achos, roedd yr Ymwelwyr Iechyd wedi rhoi rhesymau dilys.

Tabl: Rhieni a wrthododd ofal plant o'r cychwyn i blant sy'n gymwys ac a anwyd rhwng 1/1/2019 – 31/3/2019.

Rhesymau dros wrthod lle	Eisoes yn mynychu rhywle arall	Rhy ifanc	Symud cyfeiriad	Symud cartref/Arall	Cyfanswm
Nifer y lleoedd a wrthodwyd	5	2	5	4	16

Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg

- Cynigiwyd 34 o leoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg newydd. Gwrthodwyd dau gan rieni a ddywedodd eu bod wedi "newid eu meddwl". Ynghyd â'r lleoedd cyfrwng Cymraeg presennol sy'n cael eu hariannu, mae hyn bellach yn dod â'r cyfanswm i 78 o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg.

Cryfderau a Gwendidau

- At ei gilydd, mae digon o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg ar gael i bob plentyn cymwys.
- Mae gweithio mewn partneriaeth, gyda chefnogaeth cydleoli Dechrau'n Deg a'r Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant, yn darparu cyfleoedd i rannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, ac i arfer gorau a nodwyd mewn lleoliadau Dechrau'n Deg gael ei rannu gyda darparwyr gofal plant eraill.
- Mae'r dull cydleoli a gweithio ar y cyd yn gwella mynediad Dechrau'n Deg at wasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd ac at hyfforddiant a ddarperir drwy'r Ganolfan Datblygu'r Gweithlu ac Achrededu Cymorth Cynnar
- Mae'r cymorth busnes a'r dulliau sicrhau ansawdd a ddarperir gan y Tîm CBS hefyd yn cefnogi lleoliadau Dechrau'n Deg

Cam Gweithredu: Gyda chydweithwyr Dechrau'n Deg, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, sicrhau bod darparwyr gofal plant yn deall yn gywir y defnydd o derminoleg sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg ac ystyr y derminoleg yn gywir, er mwyn gwella cywirdeb DHG ac ymarferion casglu data eraill yn y dyfodol

Ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg (Y Cytundeb Cydweithio)

Cyhoeddwyd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Tachwedd 2021, ac roedd yn cynnwys ymrwymiad i "*Ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwy flwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu a chryfhau gofal plant cyfrwng Cymraeg.*"

Ni chadarnhawyd y manylion y byddai'r ehangu arfaethedig yn cael eu darparu drwy Ddechrau'n Deg tan ar ôl i'r Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant drafft gael ei anfon at y Pwyllgor Craffu ar Blant a Phobl Ifanc, ac felly ni chawsant eu cynnwys yn y drafft cyntaf. Mae'r adran isod yn nodi'r dull arfaethedig o ddarparu gofal plant yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEHI) a ddewiswyd, yn amodol ar gytundeb Llywodraeth Cymru ar Gynllun Ehangu Dechrau'n Deg Caerdydd, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2022.

Ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg:

Wrth gynllunio ar gyfer yr ehangu ym mis Medi, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod yr anawsterau presennol o ran recriwtio a chadw staff sy'n cael eu profi yn y sector gofal plant ledled Cymru. Gallai'r heriau hyn effeithio ar allu plant sydd newydd gymhwyso i gael mynediad at ddarpariaeth. Efallai y bydd lleoliadau'n

gallu darparu ar gyfer niferoedd cynyddol, ond byddai diffyg staff yn atal darparwr rhag cynyddu ei nifer cofrestredig.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal plant ar gyfer Cam un, mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu defnyddio'r llacio gwasanaeth dros dro fel yr amlinellir yn y ddogfen '*Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar – Canllawiau Cam Un*', yn ôl yr angen, i gefnogi darparwyr ac i alluogi plant i gael mynediad at ddarpariaeth. Gallai hyn gynnwys:

- Llacio elfennau ansawdd uwch gofal plant Dechrau'n Deg yn y tymor penodol, gan gynnwys y cymwysterau.
- Cyfnodau amser estynedig i ddarparwyr derbyn sicrwydd ansawdd.

Bydd disgwyl i ddarparwyr sydd newydd gael eu contractio weithio tuag at gydymffurfio'n llawn â'r canllawiau ar adeg benodol, a fydd yn cael eu trafod fel rhan o'u contract newydd.

Yn y lle cyntaf, a lle bo'n bosibl, y bwriad yw defnyddio unrhyw gapasiti dros ben gyda'r ddarpariaeth dan gontract presennol yn yr ardaloedd a nodwyd, drwy amrywio eu contract presennol.

Bydd timau caffael a chyfreithiol y Cyngor yn sicrhau bod prosesau caffael a chomisiynu'r awdurdod lleol yn cael eu dilyn wrth gaffael y lleoedd angenrheidiol pellach mewn lleoliadau Cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda chaffael a chyfreithiol i gyflwyno fframwaith comisiynu newydd ar gyfer gwarchodwyr plant fel darparwyr gofal plant Dechrau'n Deg a byddwn yn ceisio gwneud hyn ar gyfer ardaloedd presennol a'r ardaloedd cam un ehangu arfaethedig.

10. Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

10.1. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – CSCA

Cymraeg 2050

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg' a'i nod hirdymor yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd' (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud 21). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

CSCA

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun. Mae Caerdydd wedi ymrwmo i sicrhau graddfa o dwf yn unol â'r 25-29% fel ag a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhaid i'r targed lleol gydbwysu uchelgais gyda dealltwriaeth o'r tueddiadau sy'n bodoli, sy'n cynnwys gostyngiad yn y cyfraddau geni ac ansicrwydd cynyddol yn ymwneud â dewisiadau derbyn i ysgolion oherwydd y pandemig. Targed deng mlynedd Caerdydd felly yw cynyddu canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd gan 9% i 27% o'r garfan gymwys.

Mae CSCA Caerdydd 2022-2031, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn nodi:

"Ar hyn o bryd mae 18.5% o blant meithrin / plant tair oed sy'n cymryd lle mewn addysg feithrin yng Nghaerdydd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg." Mae ein targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf wedi'u nodi yn y tabl isod:

Tabl: CSCA

Niferoedd a % y plant 3 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
698 –	19.0 -	733 -	19.8 -	755 -	20.5 -	778 -	21.3 -	803 -	22 - 24.4%
740	19.8%	790	21%	826	22.1%	863	23.3%	902	
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
830 –	22.8 -	857 -	23.5 -	883 -	24.3 -	911 -	25 -	931 -	25.8 - 30.2%
943	25.6%	984	26.7%	1024	27.9%	1066	29%	1090	

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a thyfu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd addysg feithrin Cymraeg o 18.5% i rhwng 25-30% o'r garfan poblogaeth gymwys yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Datblygu opsiynau gofal plant cofleidiol cyfrwng Cymraeg i gefnogi rhieni i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru ar y cyd â'n partneriaid, gan gynnwys Mudiad Meithrin, drwy sefydlu lleoliadau Cylch Meithrin newydd ar gyfer Ysgol Melin Gruffydd a'r ysgol newydd i'w sefydlu ym Mhlasdŵr.

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn

8. Datblygu rhagor o opsiynau gofal plant cofleidiol Cymraeg er mwyn cefnogi rhieni i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru 30 awr ar y cyd â'n partneriaid gan gynnwys Mudiad Meithrin drwy:

- Archwilio dichonoldeb adeiladu gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg (fel darpariaeth Cylch Meithrin) i'w gynnwys ym mhob ysgol gynradd Gymraeg newydd.
- Archwilio cyfleoedd i adeiladu gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg (fel darpariaeth Cylch Meithrin) i'w cynnwys mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bod gan ddefnyddio grantiau cyfalaf Cymreig.

Mae'r camau uchod yn cyd-fynd â dogfen ddiweddaraf Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*, sy'n nodi'r meysydd gweithredu canlynol

1. *Buddsoddi pob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i ehangu ein darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cylchoedd meithrin a sesiynau rhagflas i rieni, drwy:*
 - *Cefnogi agor 60 o Gylchoedd Meithrin newydd a 60 o Gylchoedd Ti a Fi newydd mewn lleoliadau newydd i helpu i ehangu addysg Gymraeg.*
 - *Ehangu'r rhaglen hyfforddi ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar drwy gynyddu prentisiaethau, ehangu'r rhaglen Academi ac ehangu rhaglen Croesi'r Bont sy'n trochi ymarferwyr newydd yn y Gymraeg.*
8. *Datblygu targedau o ran nifer y plant mewn cylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg a chanran y plant mewn cylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg sy'n trosglwyddo i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.*

Y Cytundeb Cydweithio

Mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2021, yn nodi ymrwymiad i:

"Ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu a chryfhau gofal plant cyfrwng Cymraeg."

Ar hyn o bryd nid oes rhagor o fanylion am y cyhoeddiad polisi hwn, fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn bydd angen ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, naill ai drwy geisio cynyddu nifer y

lleoedd a ddarperir gan ddarparwyr cyfrwng Cymraeg presennol, neu drwy greu lleoliadau cyfrwng Cymraeg newydd.

Fel gyda phob datblygiad gofal plant, rhaid ystyried hyfywedd parhaus darparwyr presennol, gan y bydd cynnydd yn y ddarpariaeth o leoedd gofal plant heb gynnydd yn y galw yn lleihau nifer y plant sy'n mynychu fesul lleoliad, o bosibl i'r pwynt lle nad yw rhai lleoliadau'n hyfyw mwyach.

10.2. Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg


Bydd yr adran hon o'r ADGP ond yn cyflwyno data a dynnwyd o'r DHG gan ddarparwyr a nododd mai Cymraeg oedd y "Brif laith y darperir eich gwasanaeth drwyddi" yn eu hymateb i'r DHG.

Bydd pob adran yn cynnwys trosolwg o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob math o ddarparwr, ac yna crynodeb byr o'r ddarpariaeth, capasiti, rhestrau aros a lleoedd gwag yn ôl mathau perthnasol o ddarparwyr.

Tabl: Gofal plant Cymraeg: Caerdydd – lleoliadau, pob math o ddarparwr, yn ôl ACC

	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	Caerdydd
Gwarchodwr Plant	-		-	-	3	1	4
Gofal dydd llawn	-	1	2	1	4	5	13
Fesul sesiwn	3	-	-	-	-	1	4
Y tu allan i oriau ysgol	-	-	1	1	2	1	5
Cyfanswm	3	1	3	2	9	8	26


Siart: Gofal plant Cymraeg: Caerdydd – lleoliadau, pob math o ddarparwr, yn ôl ACC



Tabl: Gofal plant Cymraeg: Caerdydd – lleoedd, pob math o ddarparwr, yn ôl ACC

	Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd	Caerdydd
Gwarchodwr Plant	-		-	-	26	10	36
Gofal dydd llawn	-	32	60	16	117	191	416
Fesul sesiwn	68	-	-	-	-	24	92
Y tu allan i oriau ysgol	-	-	56	48	135	80	319
Cyfanswm	68	32	116	64	278	305	863

Siart: Gofal plant Cymraeg: Caerdydd – lleoedd, pob math o ddarparwr, yn ôl ACC



- O gymharu â ADGP 2016, mae un lleoliad cyfrwng Cymraeg arall
- Mae dosbarthiad gofal plant cyfrwng Cymraeg yn amrywio ar draws yr ACCau o un lleoliad gofal dydd llawn sy'n darparu 32 o leoedd yn Nwyrain Caerdydd i 8 darparwr yng Ngorllewin Caerdydd (305 o leoedd) a 9 yn Ne-orllewin Caerdydd (278 o leoedd)
- Mae rhywfaint o aliniad rhwng y dosbarthiad a chrynodiadau o siaradwyr Cymraeg. Mae'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn Nhreganna yn Ne-orllewin Caerdydd, a'r Eglwys Newydd yng Ngorllewin Caerdydd. Cofnodir niferoedd isel o siaradwyr Cymraeg yn Llanrhymni a Tredelerch, yn Nwyrain Caerdydd.
- Yn gyffredinol, cofnodir y rhestrau aros mwyaf ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ACCau sydd â'r nifer fwyaf o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Yng Ngorllewin Caerdydd, mae'n ymddangos bod 25 o blant yn aros am le meithrin llawn amser, gyda 15 yn aros am le mewn Cylch Meithrin ar gyfer y bore, ac mae'r un nifer yn aros am le mewn Cylch Meithrin ar gyfer y prynhawn.
- Dywedir bod 146 o blant yn aros am le ar ôl ysgol ar unwaith, gyda 95 yn Ne-orllewin Caerdydd a 30 yng Ngorllewin Caerdydd. Nodir bod 21 o blant eraill yn aros am le cyfrwng Cymraeg yn ardal Canol a De Caerdydd


Lleoliadau cyfrwng Cymraeg (%) yn ôl math o ddarparwr

DS: yn seiliedig ar ffurflenni DHG

Tabl: Lleoliadau cyfrwng Cymraeg (%) yn ôl math o ddarparwr

Math o ddarparwr	Saesneg	Cymraeg	Ddau	Cyfanswm	% cyfrwng Cymraeg
Gwarchodwr Plant	4	175	6	185	2.2
Gofal dydd llawn	13	64	6	83	15.7
Gofal Dydd Fesul Sesiwn	4	33	2	39	10.2
Y tu allan i oriau ysgol	5	37	2	44	11.4
Chwarae Mynediad Agored	0	1	0	1	0
Creche	0	1	0	1	0

Siart: Lleoliadau cyfrwng Cymraeg (%) yn ôl math o ddarparwr




- Mae'r nifer (13 o 83) a % (15.7%) uchaf o leoliadau cyfrwng Cymraeg wedi'u cofrestru fel gofal dydd llawn
- Mae yna bedwar darparwr fesul sesiwn cyfrwng Cymraeg (10.2% o ddarparwyr), a phedwar gwarchodwr plant cyfrwng Cymraeg (2.2% o ddarparwyr)
- Mae 5 o'r 44 o ddarparwyr y tu allan i oriau ysgol yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg (11.4%)
- Nid oes creche na darpariaeth chwarae mynediad agored cyfrwng Cymraeg

Gwarchodwyr plant: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

Tabl: Gwarchodwyr plant: Caerdydd: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

	Rhestr aros	Lleoedd gwag
Ar ôl ysgol	1	5
Cyn ysgol	0	24
Lleoliad Addysg Gynnar	0	2
Gofal dydd llawn	0	6

Siart: Gwarchodwyr plant: Caerdydd: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag



- At ei gilydd, mae mwy o leoedd gwag na phlant sy'n aros am le ar unwaith ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir gan warchodwyr plant cyfrwng Cymraeg

Tabl: Gwarchodwyr plant: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag, yn ôl ACC

Gwarchodwr Plant	Caerdydd De-orllewin		Caerdydd Gorllewin	
	Yn aros	Lleoedd gwag	Yn aros	Lleoedd gwag
Ar ôl ysgol	0	5	1	0
Cyn ysgol	0	4	0	20
Lleoliad Addysg Gynnar	0	2	-	-
Gofal dydd llawn/Meithrinfa ddydd llawn	0	6	-	-


- Drwy ddadansoddi'r data yn ôl ACC, mae un plentyn yn aros am le ar ôl ysgol yng Ngorllewin Caerdydd lle nad oes lleoedd gwag wedi'u hadrodd.

Gofal dydd llawn: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

Tabl: Gofal dydd llawn: Caerdydd: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

	Rhestr aros	Lleoedd gwag
Ar ôl ysgol	1	18
Cyn ysgol	0	46
Lleoliad Addysg Gynnar	3	29
Gofal dydd llawn/Meithrinfa ddydd llawn	30	11
Gofal hanner diwrnod AM / Meithrinfa hanner diwrnod AM	2	26
Gofal hanner diwrnod PM / Meithrinfa hanner diwrnod PM	0	31
Amser Cinio	0	9
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin AM	21	6
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin PM	15	7

Siart: Gofal dydd llawn: Caerdydd: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag



- Mae rhestrau aros yn fwy na lleoedd gwag ar gyfer gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg (diffyg 30 - 11 = 19 lle); Cylch Chwarae/Cylch Meithrin ar gyfer y bore(diffyg 21 – 6 = 15 lle) a Cylch Chwarae/Cylch Meithrin ar gyfer y prynhawn (diffyg 15 – 7 = 8 lle)

Tabl: Gofal dydd llawn: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag, yn ôl ACC

Gofal dydd llawn	Dwyrain Caerdydd		De-ddwyrain Caerdydd		Canol a De Caerdydd		De-orllewin Caerdydd		Gorllewin Caerdydd	
	Yn	Lleoedd	Yn aros	Lleoedd	Yn	Lleoedd	Yn aros	Lleoedd	Yn	Lleoedd
Ar ôl ysgol	-	-	1	0	-	-	0	6	0	12
Cyn ysgol	0	20	-	-	-	-	0	16	0	10
Creche		-	-	-	-	-		-	-	
Lleoliad Addysg Gynnar	0	22	0	7	1	0	2	0		
Gofal dydd llawn/ Meithrinfa ddydd llawn	-	-	-	-	-	-	0	6	30	5
Gofal Hanner Diwrnod AM / Meithrinfa Hanner Diwrnod AM	-	-	-	-	-	-	0	21	2	5
Gofal Hanner Diwrnod PM / Meithrinfa Hanner Diwrnod PM	-	-	-	-	-	-	0	21	0	10
Amser Cinio	-	-	-	-	-	-	0	9	-	-
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin AM	0	2	0	4	6	0	-	-	15	0
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin PM	0	6			0	1	-	-	15	0


Tabl: Gofal dydd llawn: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag, yn ôl ACC

	De-ddwyrain Caerdydd		Canol a De Caerdydd		Caerdydd Gorllewin	
	Yn aros	Lleoedd gwag	Yn aros	Lleoedd gwag	Yn aros	Lleoedd gwag
Ar ôl ysgol	1	0	-	-	-	-
Lleoliad addysg gynnar			1	0		
Gofal dydd llawn/Meithrinfa ddydd llawn					30	5
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin AM			6	0	15	0
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin PM					15	0

Tabl: Wedi'i symleiddio – gofal dydd llawn - rhestrau aros net uwchlaw'r capasiti i gyflenwi yn ôl gwasanaeth

	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd
Gofal dydd llawn	Yn aros	Yn aros	Yn aros	Yn aros
Ar ôl ysgol	1	-		
Lleoliad Addysg Gynnar		1	2	
Gofal dydd llawn/	-	-		25
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin AM		6	-	15
Cylch Chwarae / Cylch Meithrin PM			-	15

Siart: Wedi'i symleiddio – gofal dydd llawn - rhestrau aros net uwchlaw'r capasiti i gyflenwi yn ôl gwasanaeth ac ACC



- Drwy ddadansoddi'r data yn ôl ACC, mae un plentyn yn aros am le ar ôl ysgol yn Ne-ddwyrain Caerdydd lle nad oes lleoedd gwag wedi'u hadrodd. Yn Ninas a De Caerdydd, adroddir bod un plentyn yn aros am le addysg gynnar, er na chofnodir bod unrhyw blant yn aros am le gan yr adran Addysg. Adroddir bod chwech o blant yn aros am wasanaeth Cylch Meithrin AM. Yng Ngorllewin Caerdydd, mae'n ymddangos bod 25 o blant yn aros am le meithrin llawn amser, gyda 15 yn aros am le mewn Cylch Meithrin ar gyfer y bore, ac mae'r un nifer yn aros am le mewn Cylch Meithrin ar gyfer y prynhawn

Cam Gweithredu: Ymchwilio ymhellach a yw'r galw yn fwy na'r capasiti ar gyfer gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg neu sesiynau Cylch Meithrin yng Ngorllewin Caerdydd


Archwilio gyda darparwyr presennol o fewn ardaloedd lle mae'r galw'n fwy na'r capasiti i weld a oes posibiliadau i ehangu'r ddarpariaeth bresennol.

Gofal fesul sesiwn: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

Tabl: Gofal dydd fesul sesiwn: Caerdydd: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

	Rhestr aros	Lleoedd gwag
Prynhawniau	20	24
Lleoliad Addysg Gynnar	0	3
Amser Cinio	9	0
Boreau	20	12

Siart: Gofal dydd fesul sesiwn: Nghaerdydd: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag



- Mae rhestrau aros ond yn fwy na lleoedd gwag ar gyfer darpariaeth foreol (20 ar restr aros, 12 o leoedd gwag = diffyg o 8) yn ACC Gogledd Caerdydd.

Tabl: Gofal dydd fesul sesiwn:

	Gogledd Caerdydd	
	Rhestr aros	Lleoedd gwag
Prynhawniau	20	24
Lleoliad Addysg Gynnar	0	3
Amser Cinio	9	0
Boreau	20	12

Cam Gweithredu: Ymchwilio ymhellach a yw'r galw yn fwy na'r capasiti ar gyfer sesiynau Bore cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Caerdydd


Archwilio gyda darparwyr presennol o fewn ardaloedd lle mae'r galw'n fwy na'r capasiti i weld a oes posibiladau i ehangu'r ddarpariaeth bresennol.

Y tu allan i oriau ysgol: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

Tabl: Y tu allan i oriau ysgol: Caerdydd: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag

	Rhestr aros	Lleoedd gwag
Ar ôl ysgol	146	0
Cyn ysgol	0	30

Siart: Y tu allan i oriau ysgol: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag



- Yn gyffredinol, er bod 30 o leoedd gwag wedi'u cofnodi ar gyfer lleoliadau cyn ysgol, mae 146 o blant yn aros am le ar ôl ysgol ar unwaith, gyda 95 yn Ne-orllewin Caerdydd a 30 yng Ngorllewin Caerdydd. Nodir bod 21 o blant eraill yn aros am le cyfrwng Cymraeg yn ardal Canol a De Caerdydd

Tabl: Cyfrwng Cymraeg – rhestrau aros a lleoedd gwag, yn ôl ACC

Y tu allan i oriau ysgol	Canol a De Caerdydd		Caerdydd De-orllewin		Gorllewin Caerdydd	
	Yn aros	Lleoedd gwag	Yn aros	Lleoedd gwag	Yn aros	Lleoedd gwag
Ar ôl ysgol	21	0	95	0	30	0

- Er bod galw uwch na'r capasiti i gyflenwi yn cael ei gofnodi ar gyfer gwasanaethau ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg mewn 3 ACC, bydd angen ymchwilio ymhellach i asesu a yw'r data hwn yn gywir.
- Er enghraifft, mae un lleoliad sy'n nodi rhestr aros ar unwaith wedi'i gofrestru i ddarparu 400 o leoedd yr wythnos ac mae wedi nodi presenoldeb wythnosol cyfartalog o tua 300 o blant, ond adroddodd fod 95 o blant yn aros am le ar unwaith. Mae'n bosibl bod y data sy'n ymwneud â 'lleoedd gwag' wedi'i roi yn y golofn 'plant sy'n aros am le ar unwaith' mewn camgymeriad.

Cam Gweithredu: Nodi a oes tystiolaeth gadarn ar gyfer y galw am ofal y tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg heb ei fodloni yn Ninas a De Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De-orllewin Caerdydd.

Cam Gweithredu: Nodi a oes gan ddarparwyr presennol y tu allan i'r ysgol y gallu i ehangu'r lleoedd a gynigir.

Cam Gweithredu: Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr adran Addysg a Mudiad Meithrin i gyflawni'r camau a nodwyd yn CSCA Caerdydd 2022 – 2031

11. Darpariaeth Clwb Brecwast am ddim

Ers ADGP 2016, mae'r ysgolion canlynol wedi dechrau darparu'r ddarpariaeth Brecwast am Ddim: Ysgol Gynradd yr Holl Seintiau, Ysgol Gynradd Coryton, Ysgol Gynradd Kitchener ac Ysgol Y Wern. Mae Ysgol Gynradd Heol Marlborough wedi rhoi'r gorau i'w ddarparu. Tabl: Darpariaeth clwb brecwast ysgol

Gogledd Caerdydd	Dwyrain Caerdydd	De-ddwyrain Caerdydd	Canol a De Caerdydd	De-orllewin Caerdydd	Gorllewin Caerdydd
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau	Ysgol Gynradd Bishop Childs	Ysgol Gynradd Adamsdown	Ysgol Gynradd Grangetown	Ysgol Gynradd Creigiau	Ysgol Gynradd Bryn Deri
Ysgol Gynradd Llwynbedw	Ysgol Gynradd Bryn Hafod	Ysgol Gynradd Albany	Ysgol Gynradd Mount Stuart	Ysgol Gynradd Danescourt	Ysgol Gynradd Coryton
Ysgol Gynradd Bryn Celyn	Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon	Ysgol Gynradd Allensbank	Ysgol Gynradd Parc Ninian	Canolfan Blant Trelái a Chaerau	Ysgol Gynradd y Tyllgoed
Ysgol Gynradd Coed Glas	Ysgol Gynradd Greenway	Ysgol Gynradd Baden Powell	Ysgol Gynradd Sant Cuthbert	Ysgol Gynradd Herbert Thompson	Ysgol Gynradd Gabalfa
Ysgol Gynradd Glyncoed	Ysgol Gynradd Meadowlane	Ysgol Gynradd Gladstone	Ysgol Gynradd y Forwyn Fair	Ysgol Gynradd Hywel Dda	Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
Ysgol Gynradd Llanedern	Ysgol Gynradd Oakfield	Ysgol Gynradd Moorland	Ysgol Gynradd Sant Padrig	Ysgol Gynradd Kitchener	Ysgol Gynradd Hawthorn
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn	Ysgol Gynradd Saint Alban	Ysgol Gynradd Sant Paul	Ysgol Gynradd Lansdowne	Ysgol Gynradd y Teulu Sanctaidd
Ysgol Gynradd Llysfaen	Ysgol Fabanod Tredelerch	Ysgol Gynradd Sant Joseff		Ysgol Gynradd Millbank	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf
Ysgol Gynradd Rhiwbeina	Ysgol Iau Tredelerch	Ysgol Gynradd Santes Monica		Ysgol Gynradd Pencaerau	Ysgol Meadowbank
Ysgol Gynradd Dewi Sant	Ysgol Gynradd Sant Cadog	Ysgol Gynradd Stacey		Ysgol Gynradd Radnor	Ysgol Gynradd Pentre-baen
Ysgol Sant Philip Evans	Ysgol Gynradd Sant John Lloyd	Ysgol Gynradd Tredegarville		Ysgol Gynradd Sain Ffagan	Ysgol Gynradd Pentyrch

Ysgol Gynradd Springwood	Ysgol Gynradd Llaneirwg	Meithrinfa Tremorfa		Ysgol Gynradd Sant Ffransis	Ysgol Gynradd r Lea
Ysgol The Court	Ysgol Gynradd Trowbridge	Ysgol Glan Morfa		Ysgol Gynradd Severn	Ysgol Riverbank
Ysgol The Hollies	Ysgol Gynradd Willowbrook	Ysgol Mynydd Bychan		Ysgol Gynradd Trelái	Ysgol Gynradd Tongwynlais
Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig	Ysgol Bro Eirwg			Ysgol Tŷ Gwyn	Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd
Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen	Ysgol Pen y Pîl			Ysgol Gynradd Windsor Clive	Ysgol Coed y Gof
Ysgol Pen y Groes				Ysgol Nant Caerau	Ysgol Glan Ceubal
Ysgol y Berllan Deg				Ysgol Pwll Coch	Ysgol Melin Gruffydd
Ysgol y Wern				Ysgol Treganna	Ysgol Pencae

12. Credyd Treth Gwaith/ Credyd Cynhwysol a Gofal Plant â Chymorth Cyflogwyr/ Gofal Plant di-dreth

Credyd Treth Gwaith/ Credyd Cynhwysol

Efallai y bydd rhieni/gofalwyr yn gallu hawlio hyd at 85% o'u costau gofal plant os ydynt yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol ac yn bodloni rhai amodau ychwanegol. Y symiau y gallai rhiant/gofalwr eu derbyn mewn costau gofal plant yw:

- hyd at £646.35 y mis ar gyfer un plentyn
- hyd at £1108.04 y mis ar gyfer dau blentyn neu fwy


Telir cymorth gofal plant mewn ôl-ddyledion ac mae'n berthnasol i gostau gofal plant a ysgwyddir mewn gwasanaeth gofal plant cofrestredig gydag AGC yn unig. Mae'r holl ddata a gyflwynir drwy'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac a ddefnyddir yn y ddogfen hon, oni nodir yn benodol fel arall, wedi'i gyflenwi gan wasanaethau cofrestredig AGC.

Gwarchodwyr plant (n185)

Tabl: Gwarchodwyr Plant – Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/talebau gofal plant

	Nifer	%
Nifer sy'n Darparu'r Cynnig Gofal Plant	120	64.9
Nifer a Ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant	65	35.1
Nifer sy'n Cynnig Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau	149	80.5

Siart: Gwarchodwyr Plant – Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/talebau gofal plant




- Er bod bron i 65% (120 o 185) o warchodwyr plant wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant, dim ond 65 (35.1%) a ddywedodd eu bod yn derbyn cyllid ar hyn o bryd
- Mae 149 (80.5%) o warchodwyr plant wedi cofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant

Gofal dydd llawn (n83)

Tabl: Gofal dydd llawn – Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/talebau gofal plant

	Nifer	%
Nifer sy'n Darparu'r Cynnig Gofal Plant	76	91.6
Nifer a Ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant	75	90.4
Nifer sy'n Cynnig Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau	79	95.2

Siart: Gofal dydd llawn – Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/talebau gofal plant




- Mae dros 90% o leoliadau gofal dydd llawn yn darparu ac yn derbyn cyllid gan y Cynnig Gofal Plant (76 a 75 o 83 yn y drefn honno)
- Mae dros 95% o leoliadau gofal dydd llawn (79 o 83) wedi cofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant

Gofal dydd fesul sesiwn (n39)

Tabl: Gofal dydd fesul sesiwn: Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/Talebau Gofal Plant

	Nifer	%
Nifer sy'n Darparu'r Cynnig Gofal Plant	24	61.5
Nifer a Ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant	19	48.7
Nifer sy'n Cynnig Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau	13	33.3

Siart: Gofal dydd fesul sesiwn: Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/Talebau Gofal Plant




- Mae 24 o 39 (61.5%) o ddarparwyr gofal dydd fesul sesiwn wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant
- Dywedodd 19 (48.7%) eu bod yn derbyn cyllid ar hyn o bryd
- Dim ond 13 (33.3%) o ddarparwyr gofal dydd fesul sesiwn sydd wedi cofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant. Dyma'r gyfran isaf o unrhyw fath o ddarparwr

Gofal y tu allan i oriau ysgol (n44)

Tabl: Y tu allan i oriau ysgol – Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/ Talebau Gofal Plant

	Nifer	%
Nifer sy'n Darparu'r Cynnig Gofal Plant	19	43.2
Nifer a Ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant	10	22.7
Nifer sy'n Cynnig Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau	39	88.6

Siart: Y tu allan i oriau ysgol – Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth/ Talebau Gofal Plant



- Mae 19 o 44 (43.2%) o ddarparwyr y tu allan i oriau ysgol wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant
- Dim ond 10 o'r rhain (22.7%) a ddywedodd eu bod wedi derbyn cyllid
- Mae 39 o leoliadau y tu allan i oriau ysgol wedi cofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant

Chwarae mynediad agored (n1)

- Nid yw'r lleoliad a ymatebodd yn darparu'r Cynnig Gofal Plant, ac nid yw wedi ymrwymo i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant

Creche (n1)

- Mae'r lleoliad a ymatebodd yn darparu, ac yn cael ei ariannu gan, y Cynnig Gofal Plant, ond nid yw wedi ymrwymo i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant

Cam Gweithredu: Targeddu darparwyr gofal dydd fesul sesiwn i annog mwya i gofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant

Cam Gweithredu: Ystyried gyda phartneriaid (Llywodraeth Cymru, AGC) sut y gellid casglu a monitro data ynghylch defnydd darparwyr gofal plant o Gredydau Treth Gwaith/Cymorth Credyd Cynhwysol ar gyfer costau gofal plant

13. Cynaliadwyedd

Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant drwy'r DHG "Yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, a ydych yn weddol hyderus y byddai'n gynaliadwy yn ariannol i barhau i gynnal eich darpariaeth gofal plant?"


Mae'r data wedi'i rannu'n ddarparwyr 'Saesneg/Y ddwy iaith' a 'Chymraeg' i archwilio a oes unrhyw wahaniaethau sylweddol.

Gwarchodwyr plant (n185)

Tabl: cynaliadwyedd gwarchodwyr plant

	Ddim yn gwybod	6 mis	Blwyddyn neu fwy	Cyfanswm
Gwarchodwr Plant, Saesneg/Y ddwy iaith	57	5	119	181
%	31.5	2.8	65.7	
Gwarchodwr plant, Cymraeg	2	0	2	4
%	50	0	50	

Siart: cynaliadwyedd gwarchodwyr plant




- Roedd % uwch o warchodwyr plant 'Saesneg/Y ddwy iaith' yn hyderus y byddent yn gynaliadwy am flwyddyn neu fwy na gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg (65.7% o gymharu â 50%), er bod angen cymryd gofal gan mai dim ond 4 darparwr cyfrwng Cymraeg oedd wedi ymateb.

Gofal dydd llawn (n83)

Tabl: cynaliadwyedd gofal dydd llawn

	Ddim yn gwybod	6 mis	Blwyddyn neu fwy	Cyfanswm
Gofal dydd llawn, Saesneg/Y ddwy iaith	8	2	60	70
%	11.4	2.9	85.7	
Gofal dydd llawn, Cymraeg	2	0	11	13
%	15.4	-	84.6	

Siart: cynaliadwyedd gofal dydd llawn




- Roedd y cynaliadwyedd ariannol a ragwelwyd ar gyfer cyfrwng Saesneg/y ddwy iaith a chyfrwng Cymraeg yn debyg iawn (85.7% ac 84.6%)
- Roedd 2 ddarparwr Saesneg/Y ddwy iaith (2.9%) ond yn hyderus yn eu cynaliadwyedd am y 6 mis nesaf

Gofal dydd fesul sesiwn (n39)

Tabl: Cynaliadwyedd gofal dydd fesul sesiwn

	Ddim yn gwybod	6 mis	Blwyddyn neu fwy	Cyfanswm
Gofal dydd fesul sesiwn, Saesneg/y ddwy iaith	3	5	27	35
%	8.6	11.4	77.1	
Gofal dydd fesul sesiwn, Cymraeg	1	0	3	4
%	25		75	

Siart: Cynaliadwyedd gofal dydd fesul sesiwn




- Roedd y cynaliadwyedd ariannol a ragwelwyd ar gyfer 'Saesneg/y ddwy iaith' a chyfrwng Cymraeg yn debyg iawn (77.1% a 75%), er bod angen cymryd gofal gan mai dim ond 4 darparwr cyfrwng Cymraeg oedd wedi ymateb
- Roedd 5 lleoliad Saesneg/Y ddwy iaith ond yn hyderus yn eu cynaliadwyedd am y 6 mis nesaf

Gofal y tu allan i oriau ysgol (n44)

Tabl: Cynaliadwyedd y tu allan i oriau ysgol

	Ddim yn gwybod	6 mis	Blwyddyn neu fwy	Cyfanswm
Y tu allan i oriau ysgol, Saesneg/Y ddwy iaith	13	2	24	39
%	33.3	5.1	61.5	
Y tu allan i oriau ysgol, Cymraeg	0	1	4	5
%	0	20	80	

Siart: Cynaliadwyedd y tu allan i oriau ysgol



- Nododd canran ychydig yn uwch o leoliadau cyfrwng Cymraeg y tu allan i oriau ysgol eu bod yn hyderus yn eu hyfywedd am flwyddyn neu fwy (80% o gymharu â 61.5%), er bod angen cymryd gofal gan mai dim ond 5 darparwr cyfrwng Cymraeg oedd
- Roedd un lleoliad cyfrwng Cymraeg ond yn hyderus yn eu hyfywedd am y 6 mis nesaf

Chwarae mynediad agored; Creche

Dyweddodd y ddau leoliad (un o bob math) nad oeddent yn gwybod am ba hyd y byddent yn gynaliadwy.

Y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant

Mae'r Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i ddarparwyr gofal plant newydd a phresennol i wella hyfywedd ac ansawdd y gofal plant a ddarperir. Gall gwasanaethau gynnwys cymorth gyda pholisïau a gweithdrefnau, ceisiadau cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru, marchnata, recriwtio staff, cynhyrchu incwm, cynaliadwyedd a cheisiadau am arian grant.

Mae'r tîm yn gweinyddu grantiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant a ddarperir drwy'r Grant Gofal Plant a Chwarae ac yn gweithio'n agos gyda Thîm y Cynnig Gofal Plant, Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd, Dechrau'n Deg Caerdydd a Chanolfan Datblygu'r Gweithlu ac Achredu i sicrhau bod darparwyr gofal plant yng Nghaerdydd yn gallu cael gafael ar hyfforddiant, cyfleoedd marchnata a chymorth ariannol i wella ansawdd a chynaliadwyedd eu darpariaeth.

Cam Gweithredu: Yn dilyn y cyllid grant ychwanegol diweddaraf (Ch3, Ch4 20231-22) a ddarparwyd drwy'r Grant Gofal Plant a Chwarae/Plant a Chymunedau, cysylltir â darparwyr i gynhyrchu data cynaliadwyedd wedi'i ddiweddarau i'w gynnwys yn y ADGP terfynol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022

14. Trawsffiniol/Daearyddol

Drwy gydol y ADGP hwn, mae dosbarthiad y ddarpariaeth gofal plant ledled Caerdydd wedi'i ddadansoddi yn ôl Ardaloedd Cynllunio Poblogaeth. Fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu, yn Nwyrain Caerdydd, yr ACC sydd â'r nifer fwyaf o blant 0-14 oed fesul lle gofal plant cofrestredig, bydd ymchwiliad pellach i'r ffactorau lleol sy'n dylanwadu ar y galw a'r cyflenwad yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'n ymddangos nad oes gan unrhyw wasanaeth yn yr ACC hon unrhyw blant sy'n aros am le ar unwaith.

O ran teuluoedd Caerdydd sy'n defnyddio gofal plant neu addysg gynnar y tu allan i'r sir, nododd 3 ymatebydd i'r arolwg rhieni (2.17% o ymatebwyr) eu bod yn cael mynediad i'w haddysg gynnar y tu allan i Gaerdydd.

Ar hyn o bryd, mae'r Cynnig Gofal Plant yng Nghaerdydd yn nodi bod 68 o'r 413 o leoliadau a ymunodd i ddarparu'r Cynnig mewn ardal awdurdod lleol arall. Mae hyn yn cynrychioli 16% o'r lleoliadau. Fodd bynnag, dim ond un rhiant (0.74% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwnnw) a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r cynnig gofal plant y tu allan i Gaerdydd.

Dylid nodi nad yw'n bosibl canfod o'r data a yw plant sy'n mynychu gofal plant, neu ar restrau aros, yn dod o deuluoedd sy'n preswyllo y tu allan i Gaerdydd.

15. Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu

Lefelau staffio, trosiant, swyddi gwag

Tabl: Lefelau staffio, trosiant, swyddi gwag, yn ôl math o ddarpariaeth

	Gofal Dydd Llawn	Gofal Dydd Fesul Sesiwn	Y tu allan i oriau ysgol	Gwarchodwyr plant	Chwarae Mynediad Agored	Creche	Cyfansymiau
Nifer y staff unigol sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd	1175	224	306	131	3	5	1844
Nifer y staff sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos	47	41	139	14	0	0	241
Nifer y staff sydd wedi gadael y gwasanaeth yn y 12 mis diwethaf	216	28	32	1	0	2	279
Nifer y swyddi gofal plant sy'n wag ar hyn o bryd	78	22	10	40	0	0	150
Nifer yr oriau gofal plant neu chwarae yr wythnos y mae'r swyddig gwag hyn yn cyfateb iddynt	2221	469	191	655	0	0	3536
Nifer y staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd ar gontractau dim oriau	66	18	110	6	0	0	200
Ydych chi'n ei chael hi'n anodd cynnig contractau 16 awr neu fwy i'ch staff?	0	0	0	0	0	0	0
Ydych chi'n ymgymryd â Chynllunio'r Gweithlu?	0	0	0	0	0	0	0
Os ydych yn ymgymryd â Chynllunio'r Gweithlu, faint o staff ychwanegol yr ydych yn rhagweld y bydd eu hangen yn ystod y 24 mis nesaf?	174	18	46	1	0	0	239

- Adroddwyd am 1,844 o bobl sy'n gweithio ym maes gofal plant drwy'r DHG. Er i 185 o warchodwyr plant ymateb, dim ond data am 131 ohonynt sydd wedi'i gasglu uchod
- Dywedwyd bod cyfanswm o 279 o staff wedi gadael gwasanaeth. Nid yw'n bosibl canfod a oeddent yn gadael y sector neu'n gadael i ymgymryd â swydd wahanol ym maes gofal plant.
- Ar hyn o bryd mae 150 o swyddi'n wag, sy'n cyfateb i 3,536 o oriau gofal plant yr wythnos
- Mae gwasanaethau sy'n ymgymryd â chynllunio'r gweithlu wedi nodi y bydd angen 239 aelod o staff arnynt dros y 24 mis nesaf. Nid yw'n glir a yw'r rhain yn ychwanegol at y 150 o swyddi gwag presennol.


Trosiant staff yn ôl math o ddarpariaeth

Tabl: Trosiant staff yn ôl math o ddarpariaeth, %

	Nifer y staff unigol sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd	Nifer y staff sydd wedi gadael y gwasanaeth yn y 12 mis diwethaf	% trosiant staff
Gofal Dydd Llawn	1175	216	18.4
Gofal Dydd Fesul Sesiwn	224	28	12.5
Y tu allan i oriau ysgol	306	32	10.5
Gwarchodwyr Plant	131	1	0.8
Chwarae Mynediad Agored	3	0	0
Creche	5	2	40
Cyfansymiau	1844	279	15.1

DS: mae'r data sy'n ymwneud â gwarchodwyr plant yn anghywir, gan na fyddai'n ofynnol i warchodwyr plant sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu gwblhau DHG ac felly ni fyddent yn cael eu cyfrif. Mae data arall yn awgrymu bod 21 o warchodwyr plant wedi rhoi'r gorau i weithredu rhwng 31.03.2021 a 07.06.2021. Mae'r gyfradd uchel (40%) a nodwyd gan y creche yn ymwneud â 2 o'r 5 aelod o staff sy'n gadael yn ystod y 12 mis diwethaf.

Siart: Trosiant staff yn ôl math o ddarpariaeth, %



- Mae cyfraddau trosiant staff ar eu uchaf ar gyfer gofal dydd llawn (18.4%), y ddarpariaeth sydd hefyd yn cyflogi'r rhan fwyaf o bobl (1175)
- O'r 270 o unigolion sydd wedi gadael gwasanaeth, nid ydym yn ymwybodol faint sy'n cael eu 'hail-gylchu' i swyddi gwag eraill yn y sector, a faint a allai fod wedi gadael gofal plant yn gyfan gwbl.
- Mae'n ymddangos, gyda 150 o swyddi gwag ar hyn o bryd, a 50% o alw cynllunio'r gweithlu o 239/2 = 119.5, fod tua 270 o swyddi gwag wedi'u nodi ar gyfer y 12 mis nesaf. Eto, nid yw'n glir faint o'r rhain y byddai angen iddynt fod yn bobl sy'n newydd i'r sector.

Rhesymau dros adael

Rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mehefin 2021, cynhaliodd Tîm Datblygu'r Gweithlu Caerdydd wybodaeth am 175 o bobl a adawodd o lleoliadau gofal plant cofrestredig, heb gynnwys gwarchodwyr plant. Mae'r tabl isod yn dangos y rhesymau a roddwyd dros adael. *Gan fod y ddau leoliad lle'r oedd y rhai a adawodd wedi nodi bod y 'Lleoliad wedi cau' yn ymwneud â lleoliadau sydd wedi ailgofrestru rhaid cymryd gofal wrth ddehongli'r data hwn.

Tabl: Rhesymau dros adael, Datblygu'r Gweithlu Caerdydd

Rheswm	Nifer
Gweithio mewn lleoliad gofal plant arall	50
Dychwelyd i addysg	3

Ymrwymïadau teulu	20
Ymddeol	9
Symud allan o'r ardal	10
Contract dros dro wedi dod i ben	4
Lleoliad wedi cau*	4
Wedi gadael y proffesiwn gofal plant	39
Anhysbys	24
Mae'n well gennyf beidio â dweud	12
Cyfanswm	175

Mae adborth gan ddarparwyr gofal plant a gasglwyd gan y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant, ac ymatebion Cwlwm ym mhennod 21 yn dangos bod y sector yn wynebu heriau mawr o ran recriwtio a chadw staff. Mae hyn yn arbennig o wir am staff cymwysedig, a hyd yn oed yn fwy amlwg i staff cymwysedig cyfrwng Cymraeg. Ar ôl cysylltu ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill, mae'n ymddangos bod hyn yn broblem ar draws Cymru yn hytrach nag ar lefel leol. Gallai hyn fod yn risg i ddarparu gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 flwydd oed ac ehangu gofal plant cyn ysgol cyfrwng Cymraeg i gefnogi Cymraeg 2050 a CSCA Caerdydd.

Cam Gweithredu: Parhau i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa o ddewis drwy Addewid Caerdydd a Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd i annog mynediad i brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant cymhwyso i bobl ifanc, pobl ddi-waith ac unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Staff: Y Gymraeg

DS: Mae cyfanswm nifer y staff a gofnodwyd dan y cwestiwn hwn yn is na nifer y staff yr adroddwyd eu bod yn gweithio mewn lleoliadau. Cyfanswm y staff sy'n gweithio mewn lleoliadau = 1844. Staff a gofnodwyd yn ôl gallu ieithyddol = 1807


Tabl: Gallu staff yn y Gymraeg, yn ôl math o ddarpariaeth – lleoliadau Saesneg / Y ddwy iaith

	Faint o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg?	%	Faint o staff sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg?	%	Faint o staff sy'n gallu siarad ychydig neu ddim Cymraeg?	%
Saesneg/y ddwy						
Gofal Dydd Llawn	84	8.0	143	13.6	828	78.5
Gofal Dydd Fesul Sesiwn	7	3.5	51	25.2	144	71.3
Y tu allan i oriau ysgol	30	11.9	24	9.5	199	78.7
Gwarchodwyr Plant	3	2.6	19	16.2	95	81.2
Chwarae Mynediad Agored	0	0	0	0	3	100
Creche	0	0	0	0	5	100


Tabl: Gallu staff yn y Gymraeg, yn ôl math o ddarpariaeth – lleoliadau Cymraeg

Saesneg	Faint o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg?	%	Faint o staff sy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg?	%	Faint o staff sy'n gallu siarad ychydig neu ddim Cymraeg?	%
Gofal Dydd Llawn	87	84.5	7	6.8	9	8.7
Gofal Dydd Fesul Sesiwn	16	72.7	6	27.3	0	0
Y tu allan i oriau ysgol	41	95.3	2	4.7	0	0
Gwarchodwyr Plant	4	100	0	0	0	0

Siart: Gallu staff yn y Gymraeg, yn ôl math o ddarpariaeth – lleoliadau Saesneg / Y ddwy iaith; %



Siart: Gallu staff yn y Gymraeg, yn ôl math o ddarpariaeth – lleoliadau Cymraeg; %



- Mewn lleoliadau Saesneg / y ddwy iaith, mae rhwng 71.3% (gofal dydd fesul sesiwn) ac 81.2% (gwarchodwyr plant) o'r staff yn dweud eu bod yn gallu siarad 'ychydig neu ddim Cymraeg o gwbl'. Mae'r data ar gyfer creche a lleoliadau chwarae mynediad agored yn ymwneud ag un lleoliad yn unig.
- Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mae rhwng 72.7% (gofal dydd fesul sesiwn) a 95.3% (y tu allan i oriau ysgol) o staff yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg.

Cam Gweithredu: Cyfeirio'r rhaglen hyfforddi estynedig ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar (cynyddu prentisiaethau, rhaglen yr Academi a rhaglen Croesi'r Bont sy'n trochi ymarferwyr newydd yn y Gymraeg) fel y nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymraeg 2020-2026, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu gofal plant, yn enwedig mewn lleoliadau Saesneg / y ddwy iaith.

Cam Gweithredu: Er mwyn annog mwy o weithwyr gofal plant i ddefnyddio'r Gymraeg, bydd Canolfan Datblygu'r Gweithlu ac Achredu Caerdydd yn parhau i hyrwyddo cwrs lefel mynediad Camau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i deilwra ar gyfer Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

16. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymatebion gan bartneriaid Cwlwm

Mae'r camau a argymhellir gan bartneriaid Cwlwm sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r ADGP mewn print trwm

A oes gennyh unrhyw sylwadau ynglŷn â'r Farchnad Gofal Plant ym mhob Awdurdod Lleol unigol?	
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	<p>Fel y sefydliad gofal plant cenedlaethol sy'n cefnogi Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol, mae ein partneriaid CWLWM sy'n cefnogi meysydd gofal plant eraill (e.e. darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gwarchodwyr plant) mewn sefyllfa well i roi sylwadau ar ddigonolrwydd, ansawdd a fforddiadwyedd y mathau hyn o ofal plant yng Nghaerdydd. O ran ein gwybodaeth am ofal y tu allan i oriau ysgol yng Nghaerdydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer uchel o ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol wedi'u lleoli mewn meithrinfeydd dydd yng Nghaerdydd, ond mae'n ymddangos bod llawer o'r rhain wedi lleihau'r lleoedd a gynigir i blant oedran ysgol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i'r galw am leoedd blynyddoedd cynnar gynyddu. Gallai hyn arwain at ddiffyg lleoedd i ddiwallu anghenion teuluoedd â phlant oedran ysgol mewn rhai ardaloedd • Er bod rhai lleoliadau cyfrwng Cymraeg cofrestredig yng Nghaerdydd, mae lle o hyd i dwf mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg cofrestredig i gefnogi nod Cymraeg 2050. Gall cael gofal plant cofrestredig ar safle'r ysgol fod yn ffactor sy'n cyfrannu at ddewisiadau rhieni (e.e. wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg). • Ar hyn o bryd mae 8 darparwr gofal y tu allan i oriau ysgol nad ydynt wedi'u cofrestru yng Nghaerdydd a byddai'n dda gweld y rhain yn cael eu cofrestru gydag AGC i sicrhau bod rhieni'n cael sicrwydd o ansawdd drwy reoleiddio, a hefyd i gefnogi fforddiadwyedd. • Mae rhai aml-ddarparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol yng Nghaerdydd. Mae angen bod yn ymwybodol o'r bwch sylweddol a fyddai'n cael ei greu pe bai unrhyw un o'r aml-ddarparwyr hyn yn mynd allan o fusnes yn dilyn effaith Covid-19 • Mae cynaliadwyedd yn bryder parhaus i'r sector gofal y tu allan i oriau ysgol, yn enwedig wrth i fwy o bobl weithio gartref yn sgil y Pandemig. Gallai hyn achosi problem o ran digonolrwydd gofal plant pe na bai darparwyr yn gallu cynnig eu gwasanaethau mwyach. Mae nifer o ddarparwyr wedi mynegi pryder am eu cynaliadwyedd parhaus (gweler yr ystadegau yn ein hadroddiad Cyflwr y Sector, a anfonwyd ar wahân.) • Mae angen ystyried a oes galw am ofal plant mewn ysgolion nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd gan ddarpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Ar hyn o bryd, gall rhieni/gofalwyr fod yn defnyddio opsiynau gofal plant anffurfiol heb eu rheoleiddio os nad oes gofal plant cofrestredig ar gael • Mae recriwtio staff cymwysedig yn peri pryder ac mae nifer o ddarparwyr yng Nghaerdydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i staff sydd â chymwysterau addas i fodloni'r cymarebau sy'n ofynnol o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae hyn yn bryder o ran y gallu i aros ar agor/ar y gofrestr, a gall hefyd arwain at gyfyngu opsiynau darparwyr wrth gyfweld â staff newydd, a allai effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth.

A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r Farchnad Gofal Plant ym mhob Awdurdod Lleol unigol? Cyfeiriwch at ddigonolrwydd, ansawdd a fforddiadwyedd pob math o ofal plant sydd ar gael yn eich atebion.	
Blynyddoedd Cynnar Cymru	<p>Mae gennym ystod eang o aelodau yn y sir hon gan gynnwys Meithrinfeydd Dydd, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant a chlybiau ar ôl ysgol. Rydym yn gweithio'n galed gyda'n haelodau i'w helpu i adfer yn sgil effeithiau Covid ar eu busnesau. Rydym yn cefnogi aelodau gydag ystod enfawr o faterion gan gynnwys cynaliadwyedd, recriwtio, asesiadau risg ac ansawdd.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r sector yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff cymwysedig ac mae hyn yn effeithio ar ansawdd a chynaliadwyedd, mae diffyg staff i rai wedi arwain at orfod lleihau capasiti a chynnydd mewn rhestrau aros. (Nodwyd hyn yn yr ADGP)</p>
Mudiad Meithrin	<p>Yn gyffredinol, ni allwn drafod materion yn ymwneud â digonolrwydd, ansawdd, fforddiadwyedd ac ati.</p> <p>Ein gweledigaeth fel Mudiad yw y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i chwarae, dysgu a thyfu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, lle bynnag y bo plant bach yng Nghymru, dylai Mudiad Meithrin (ac felly'r iaith Gymraeg) fod yn bresennol hefyd. Mae angen mapio ardaloedd Caerdydd lle mae angen datblygu darpariaethau cyfrwng Cymraeg. Gallwn i gyd weithio dan gynllun Sefydlu a Symud Mudiad Meithrin sef prosiect datblygu'r Cylch Meithrin mewn ymateb i raglen waith #Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr.</p> <p>Ni ddylid cyfuno darpariaethau dwyieithog â darpariaethau trochi yn y Gymraeg. Mae angen i rieni ddeall y canlyniadau ieithyddol gwahanol iawn i'w plant ac mae perygl yma o gamarwain rhieni. Mae ymchwil fyd-eang yn dangos bod angen trochi plant mewn iaith pan fo'r iaith yn y cartref yn wahanol i iaith y ddarpariaeth/dosbarth.</p> <p>Mae arnom angen gwarchodwyr plant sy'n fwy hyderus wrth siarad Cymraeg yn y sir.</p>
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	<p>Mae Covid 19 a'r mesurau amddiffynnol a gymerwyd gan feithrinfeydd wedi arwain at ddiffyg incwm sylweddol i lawer o feithrinfeydd ac wedi creu ansicrwydd am y dyfodol. Mae llawer o leoliadau'n wynebu problemau cynaliadwyedd a fydd yn effeithio ar argaeledd lleoedd gofal plant yn y dyfodol.</p> <p>Mae recriwtio, yn enwedig staff cymwysedig, yn broblem fawr i'r sector. Bydd costau staffio uwch yn anochel yn effeithio ar fforddiadwyedd gofal plant i rieni.</p> <p>Mae pryder y gallai agor lleoliadau newydd ar safleoedd ysgolion ddisodli'r lleoedd gofal plant presennol mewn meithrinfeydd, a bydd hyn yn y pen draw yn arwain at feithrinfeydd yn mynd yn anghynaliadwy neu'n faich ariannol mwy ar deuluoedd plant iau/heb eu hariannu.</p>
PACEY Cymru	<p>Nid oes gan PACEY Cymru wybodaeth leol fanwl am y farchnad gofal plant gyfan yng Nghaerdydd i roi sylwadau ar hyn.</p>

	<p>Mae PACEY Cymru yn awyddus i nodi gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwarchodwyr plant ledled Cymru, ac maent wedi bod yn adrodd ar hyn dros y pum mlynedd diwethaf. Yng Nghaerdydd, deallwn fod 15 o sefydliadau wedi dadgofrestru yn y chwe mis rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2021. Rydym hefyd yn pryderu am y nifer isel o gofrestriadau newydd ledled Cymru, yng Nghaerdydd bu 1 cofrestrriad newydd yn ystod yr un cyfnod.</p> <p>O fis Ebrill 2021, mae PACEY Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa ac opsiwn gofal plant i deuluoedd er mwyn cefnogi cynaliadwyedd, niferoedd gwarchodwyr plant ac argaeledd dewis gofal plant i rieni.</p>
--	---

Gwelliannau i deuluoedd incwm isel	
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	<p>Mae gweithwyr ar gyflogau is yn aml yn gweithio patrymau shifft annodweddiadol, ac felly gall diffyg gofal plant cofrestredig yn ystod yr oriau hyn waethygu'r broblem. Mae angen gweithio i ddatblygu, cynnal a hyrwyddo darpariaeth gofal plant sy'n cynnig oriau annodweddiadol.</p> <p>Bydd cefnogi datblygiad gofal plant cofrestredig, ac annog cofrestru gofal plant presennol, hefyd yn cefnogi teuluoedd incwm isel drwy sicrhau eu bod yn gallu elwa ar gynlluniau cymorth ariannol (e.e. Cynnig Gofal Plant / Gofal Plant Di-dreth) lle bo'n gymwys (gan sicrhau bod y cynlluniau cymorth hyn yn cael eu hyrwyddo hefyd i sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol ohonynt)</p> <p>Ystyried ehangu'r cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwysedd ac ystodau oedran er mwyn sicrhau y gellir cael effaith hirdymor ar gynifer o deuluoedd â phosibl (gweler y nodiadau ychwanegol isod ar y pwynt hwn). Mae rhai cynlluniau cyfredol yn dibynnu ar feini prawf cymhwysedd penodol (e.e. Dechrau'n Deg sy'n defnyddio cod post fel procsi ar gyfer cymhwysedd) sydd felly'n eithrio rhai teuluoedd incwm isel a fyddai'n elwa ar gael manteisio ar gyfleoedd o'r fath.</p>
Blynyddoedd Cynnar Cymru	<p>Rydym yn cefnogi darparwyr gofal plant i gefnogi teuluoedd i gael mynediad i'w gwasanaethau ac ni roddwyd gwybod i ni am unrhyw broblemau yn y maes hwn.</p> <p>Byddem yn croesawu ymestyn darpariaethau Dechrau'n Deg lle mae capasiti a phocedi o angen gyda rhieni sydd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg</p>
Mudiad Meithrin	<p>Hyrwyddo manteision gofal cofleidiol ac addysg cyfrwng Cymraeg - e.e. manteision addysgol, economaidd a gyrfaol. Gall hyn helpu teuluoedd sydd wedi dioddef ers cenedlaethau mewn cylch o anfantais.</p> <p>Sicrhau hygyrchedd i ofal addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r cynllun Dechrau'n Deg.</p>
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	<p>Sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mathau o ofal plant a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a sicrhau y rhoddir gwybod am y cymorth ariannol sydd ar gael</p>
PACEY Cymru	<p>Nid yw PACEY Cymru yn ymwybodol o unrhyw warchodwyr plant a ariennir i ddarparu naill ai darpariaeth Dechrau'n Deg neu'r Cyfnod Sylfaen yng Nghaerdydd. Mae PACEY Cymru yn credu y dylai'r Awdurdod Lleol ystyried cyfleoedd i roi cyllid Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar i leoliadau gwarchod plant os yw lleoliadau'n bodloni meini prawf diffiniedig. Credwn y byddai hyn yn sicrhau cyfleoedd cyfartal ar draws y sector, yn</p>

	cefnogi cynaliadwyedd lleoliadau gwarchod plant ac yn ystyried dewis rhieni. Mae hyn hefyd yn debygol o gefnogi gwell canlyniadau i blant drwy ddarparu dilyniant gofal sy'n diwallu anghenion plant sy'n gysylltiedig â lles. Mae PACEY Cymru yn deall goblygiadau ariannol defnyddio gwarchodwyr plant i ddarparu gwasanaethau a ariennir ond mae'n credu y dylai'r canlyniadau i blant fod yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir
--	--

Gwelliannau i deuluoedd â phlant anabl	
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	Sicrhau bod cyllid ar gael a chymorth i ddatblygu a chynnal darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, yn ogystal â chyllid a chymorth i sicrhau y gall yr holl ddarpariaeth gofal plant fod yn gynhwysol ac yn hygyrch (e.e. cyllid ar gyfer cymorth un i un / hyfforddiant ychwanegol i staff).
Blynyddoedd Cynnar Cymru	Rydym yn cefnogi darparwyr ac ymarferwyr gofal plant i ddarparu gwasanaethau i bob plentyn sy'n defnyddio eu lleoliadau ond nid ydym yn ymwneud yn uniongyrchol â'r grŵp hwn o bobl. Nid oes gennym unrhyw fewnbwn i gynlluniau lleol yn y sir hon, ond hoffem weld llwybrau atgyfeirio a gwybodaeth glir ar gael drwy Awdurdodau Lleol
Mudiad Meithrin	Sicrhau hygyrchedd i ofal ac addysg cyfrwng Cymraeg waeth beth fo anabledd pob plentyn.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	Sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu dewisiadau. Dealltwriaeth a hyfforddiant llawn yn y systemau ADY newydd a'r gofynion ar ddarparwyr.
PACEY Cymru	<p>Mae PACEY Cymru yn croesawu'r system ADY newydd yng Nghymru, sy'n cynnwys darpariaeth i blant dan oedran ysgol a phob darparwr gofal plant gael gafael ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad cynnar drwy dîm ADY Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol. Byddem yn croesawu'r cyfle i ddysgu mwy am sut mae'r cyfnod pontio hwn yn mynd rhagddo'n lleol ar gyfer gwarchodwyr plant.</p> <p>Yn ogystal, mae PACEY Cymru yn credu y gallai Nanis Cymeradwy fod yn opsiwn i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio yn arbennig ar gyfer y teuluoedd hynny sydd â phlant ag anabledau, gan y byddent yn gofalu am blant yn eu cartrefi eu hunain, a gall rhieni barhau i fanteisio ar elfen gofal plant di-dreth a thalebau gofal plant cyflogwyr. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cyfleoedd cyfartal ar draws y sector ac ystyriaeth o ddewis rhieni. Mae hyn hefyd yn debygol o gefnogi gwell canlyniadau i blant drwy ddarparu dilyniant gofal sy'n diwallu anghenion plant sy'n gysylltiedig â lles. Mae PACEY Cymru yn credu y dylai'r canlyniadau i blant fod yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir ac y byddent yn</p>

	croesawu'r cyfle i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol i drafod modelau posibl o weithio gyda nanis i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd.
--	--

Gwelliannau i deuluoedd sy'n gweithio	
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	<p>Mae angen sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant cofrestredig o ansawdd da ar gael i bob oedran (blynyddoedd cynnar a chyn-ysgol, a gofal cofleidiol o amgylch y diwrnod ysgol i blant hŷn) ac yn yr iaith o'u dewis (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog – ehangu cyfrwng Cymraeg yn arbennig i adlewyrchu'r bwch o 11% yn y ddarpariaeth a nodwyd gan Arad*) i ddiwallu anghenion rhieni a phlant sy'n gweithio.</p> <p><i>*Angen eglurhad</i></p> <p>Ymestyn yr ystod oedran y gall plant fanteisio ar leoedd gofal plant a ariennir (e.e. Cynnig Gofal Plant i Gymru) – gall costau gofal plant gyfrannu at y tlodi mewn gwaith y mae rhai teuluoedd sy'n gweithio yn ei brofi, ac nid yw anghenion gofal plant wedi'u cyfyngu i'r ystod oedran 3-4. Mae Gofal Plant Di-dreth (sydd ynddo'i hun angen ei hyrwyddo'n well i sicrhau bod y teuluoedd hynny sy'n gymwys yn ei ddefnyddio) yn cael effaith gadarnhaol ar fforddiadwyedd gofal plant, ond gall y balans sy'n weddill barhau i greu pwysau ariannol i deuluoedd sy'n gweithio ac atal rhieni/gofalwyr rhag cynyddu eu horiau gwaith, neu gyfleoedd i ddatblygu gyrfa.</p> <p>Yn sgil Covid-19, mae hefyd yn hanfodol bod y ddarpariaeth gofal plant sy'n parhau ar agor yn cael ei chefnogi i barhau i gynnig gwasanaethau i deuluoedd lleol, a bod digon o gyllid a chymorth i atal codi ffioedd yn ddiangen (a fyddai'n cael effaith negyddol ar deuluoedd) – mae hyn yn cynnwys cadw ethos sy'n canolbwyntio ar y gymuned pan fydd ysgolion/adeiladau cymunedol/awdurdodau lleol yn ystyried taliadau rhent i ddarparwyr gofal plant.</p> <p>Er mwyn parhau i alluogi teuluoedd i fod yn economaidd weithgar, mae angen sicrhau bod gofal plant digonol, fforddiadwy o ansawdd da ym mhob cymuned y mae angen mynediad iddi. Mae pob cymuned yn wahanol, ac mae dewis o ddarpariaeth gofal plant sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau hyn yn cefnogi cydlyniant cymunedol (math o wasanaeth, math o iaith, math o reolaeth).</p>

	<p>Mae nifer y lleoliadau gwirfoddol a gynhelir gan y gymuned wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn, gan effeithio y arbennig ar ardaloedd gwledig/difreintiedig (lle mae llai o ofal plant eisoes ar gael), gan arwain at effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm isel/gwledig o ran y gallu i ddechrau/aros/gwneud cynnydd yn eu gwaith (lle mae darpariaeth a reolir yn breifat yn disodli'r lleoliadau hyn, bydd yn aml yn gofyn am ffioedd uwch i dalu costau).</p> <p>Gall hygyrchedd a chost gofal yn ystod gwyliau'r ysgol yn arbennig fod yn her i rieni/gofalwyr sy'n gweithio.</p> <p>Gall mentrau a rhaglenni eraill a ddefnyddir fel gofal plant heb ei reoleiddio megis gwersylloedd chwaraeon, RhCGY, Rhaglen Gwaith Chwarae yn ystod Gwyliau Ysgol, effeithio ar hyfywedd tymor byr a chynaliadwyedd hirdymor lleoliadau presennol sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn enwedig y rhai sy'n cynnig gofal plant yn ystod y gwyliau, oni bai bod gwasanaethau'n cydweithio wrth gynllunio, ac oni bai bod gofal plant cofrestredig yn cael ei ystyried ar lefel strategol.</p>
--	---

Gwelliannau i deuluoedd sy'n gweithio	
Blynyddoedd Cynnar Cymru	Rydym yn cefnogi darparwyr gofal plant i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd yn arbennig drwy'r cynnig gofal plant. Nid ydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd yn y sir hon.
Mudiad Meithrin	Amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gofal plant gan gynnwys gofal plant yn y cartref, a chymorth ariannol digonol ar gyfer cynlluniau chwarae cyfrwng Cymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	Sicrhau bod digon o leoedd mewn lleoliadau gofal dydd llawn gan fod y rhain yn diwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio yn well ac mae angen sicrhau bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol.
PACEY Cymru	Gall gwarchodwyr plant fod mewn sefyllfa dda i ddarparu gofal plant hyblyg o safon i deuluoedd sy'n gweithio oriau annodweddiadol, sifftiau, neu hyd yn oed ddarparu gofal dros nos. Gall gwarchodwyr plant hefyd ofalu am blant o enedigaeth hyd at 14 oed (neu 16 oed os oes gan blant anghenion dysgu ychwanegol). Gall gwarchodwyr plant ddarparu gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal yn ystod gwyliau ysgol, yn ogystal â'r Chynnig Gofal Plant a darpariaeth Dechrau'n Deg - yn enwedig mewn ardaloedd lle gallai'r galw fod yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael.

	Mae PACEY Cymru yn credu y gallai Nanis Cymeradwy fod yn opsiwn i gefnogi rhai teuluoedd sy'n gweithio gan y gall rhieni barhau i gael gofal plant di-dreth.
--	--

Gwelliannau i deuluoedd sy'n chwilio am waith	
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu'r cynlluniau cymorth ariannol presennol o ran cymhwysedd i gynnwys rhieni/gofalwyr sy'n chwilio am waith. Hefyd, dylai archwilio i'r posibilrwydd o ehangu ystod oedran y plant sy'n gallu cael gofal plant a ariennir (e.e. Cynnig Gofal Plant) – nid yw anghenion gofal plant yn dechrau ac yn gorffen o fewn yr ystod oedran 3-4 a gall byrder y cymorth presennol gyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth i deuluoedd. Gall costau gofal plant oedran ysgol barhau i fod yn rhwystr i rieni/gofalwyr sydd am gynyddu oriau gwaith / gwneud cynnydd yn eu gyrfaedd / dechrau gweithio.
Blynyddoedd Cynnar Cymru	Rydym yn cefnogi darparwyr gofal plant i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd yn arbennig drwy'r cynnig gofal plant. Nid ydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd. Rydym yn fodlon gweithio gyda sefydliadau eraill i helpu i gyfleu negeseuon
Mudiad Meithrin	Gweler uchod
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	Darparu cymorth ariannol gyda chostau gofal plant am gyfnod cychwynnol pan fydd rhiant yn dechrau gweithio.
PACEY Cymru	Mae PACEY Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r JCP, PaCE, Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill i greu diddordeb a recriwtio mwy o bobl i ddod yn warchodwr plant, sydd nid yn unig yn darparu opsiynau gofal plant ehangach i deuluoedd yn eu hardal leol ond sy'n cefnogi pobl yn ôl i waith. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Awdurdod Lleol a phartneriaid i hyrwyddo gwarchod plant fel opsiwn gyrfa.

Unrhyw sylwadau eraill	
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs	Er mwyn diwallu anghenion cymunedau lleol, mae angen cyfathrebu a chydweithredu'n effeithiol rhwng lleoliadau gofal plant a'r adran addysg. Mae gofal plant mewn ysgolion (o gymharu ag opsiynau mewn lleoliadau cymunedol) yn aml yn well i rieni/gofalwyr ac yn opsiwn mwy cynaliadwy i Ddarparwyr (cludiant). Fodd bynnag, mae mynediad i safleoedd ysgolion gan ddarparwyr gofal plant yn aml yn cael ei rwystro gan y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> - Problemau gydag agor/cloi'r safle - Diffyg ystyried gofal plant yn ddigonol yn y camau cynllunio wrth adeiladu ysgolion newydd - Galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion gan arwain at ddiffyg lle ar gyfer gofal plant ar y safle Pryderon parhaus ynghylch Covid-19 ac amharodrwydd i ganiatáu cymysgu grwpiau blwyddyn

	<p>Mae angen ystyried gofal plant ar safleoedd ysgolion o'r camau cynllunio cynnar, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod y gofod wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n galluogi cofrestru gydag AGC ac mae angen parhau i weithio mewn partneriaeth rhwng Addysg a Gofal Plant er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion y gymuned o ran addysg a gofal plant. Mae angen i hyn gynnwys ystyried Gofal Plant lleol nad yw'n gallu gweithredu o safleoedd ysgolion er mwyn sicrhau nad yw plant yn cael eu dadleoli.</p> <p>Hoffem weld ymrwymiad parhaus i gydnabod statws proffesiynol y gweithlu (fel yr amlinellir yng Nghynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, 2017) ac ystyried ffyrdd o gyflwyno tâl i adlewyrchu hyn, yn ogystal â hyrwyddo statws proffesiynol y gweithlu yn gyhoeddus.</p> <p>Mae problemau cadw/recrwtio staff yn golygu bod rhaid i leoliadau weithredu ar gapasiti llai, cau dros dro, ystyried dadgofrestru neu gau'n barhaol. Mae angen ymdrech ar lefel leol a chenedlaethol i annog pobl i ddod i mewn i'r sector ac i helpu i gadw'r rhai sy'n gweithio yn y sector ar hyn o bryd.</p>
Blynyddoedd Cynnar Cymru	<p>Mae gwefannau a chyfryngau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i rieni, gofalwyr a lleoliadau ac fel sefydliad rydym bob amser yn hapus i rannu gwybodaeth gyda'n haelodau.</p> <p>Gall teuluoedd fynd i wefan Blynyddoedd Cynnar Cymru i ddod o hyd i'r lleoliadau sy'n aelodau yn eu hardal yn ogystal â'n tudalennau Rhianta a Chymraeg Rhagweithiol y blynyddoedd cynnar sy'n cynnwys canllawiau ar Ddewis Gofal Plant.</p> <p>Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru hefyd yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant a gweithdai i gefnogi'r sector yn ogystal â rhaglenni rhianta. Mae'r holl wybodaeth ar gael ar ein gwefannau.</p>

Unrhyw sylwadau eraill	
Mudiad Meithrin	<p>Rydym wedi cynnal darn o waith 'Y Prosiect Cwsmer Cudd' ar wefan a gwefannau cymdeithasol y sir. Ein canfyddiadau yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion a Dysgu / Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant / Chwilio am Feithrinfa neu ddarparwr gofal plant – yn y frawddeg agoriadol, byddai'n dda nodi yma bod y rhestr hefyd yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, er mwyn plannu'r had, ac o bosibl ychwanegu brawddeg syml am ddarpariaeth Mudiad Meithrin a dolen i'r wefan. • O dan Ysgolion a Dysgu / Ysgolion / Manteision Addysg Cyfrwng Cymraeg - rhestr ddefnyddiol o Gwestiynau Cyffredin yn nodi pam y dylid addysgu'r Gymraeg ac ateb pryderon rhieni di-Gymraeg am anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. O dan y cwestiwn Felly beth mae addysg Gymraeg yn ei wneud? Mae'n nodi bod yna nod syml iawn i addysg Gymraeg – galluogi plant i ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg tra'n

derbyn addysg yn y pynciau eraill i gyd ar draws y cwricwlwm. Mae plant ifanc yn dysgu ieithoedd yn hynod rwydd – trwy wneud y gorau o'r potensial hwn y daeth addysg Gymraeg mor boblogaidd. A oes cyfle yma i ddweud y cynharaf y bydd y plant yn dechrau siarad Cymraeg, gorau oll ac i sôn am CiB, Ti a Fi a'r cylchoedd meithrin fel bod y plant wedi'u paratoi yn well ar gyfer symud i ysgol Gymraeg, a darparu dolen i wefan Mudiad Meithrin?

- O dan Ysgolion a Dysgu / Ysgolion / Gwneud Cais am Le mewn Ysgol / Derbyn i Ysgolion Meithrin – mae'n nodi: Mae gan blant yr hawl i gael lle meithrin rhan-amser am bum sesiwn addysgol hanner diwrnod o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Byddant yn aros yn yr ysgol feithrin tan y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol gynradd.

Oes cyfle yma i ychwanegu brawddeg i egluro bod meithrinfeydd Cymraeg ar gael i'r rhai sydd wedi cyrraedd yma heb fod yn ymwybodol o CiB a Ti a Fi, a dolen i wefan y Mudiad?

- O dan Ysgolion a Dysgu / Ysgolion / Gwneud Cais am Le mewn Ysgol / Dewis Ysgol – Mae'r frawddeg agoriadol yn dangos nifer yr ysgolion a'r meithrinfeydd ac ati. Byddai'n ddefnyddiol crybwyll bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael fel bod rhieni'n ymwybodol o'r dewis cyn dechrau eu hymchwil.

- Mae Caerdydd Ddwyeithog yn dod o dan y pennawd Strategaethau, Cynlluniau a Pholisiau. Mae'n drueni nad yw Caerdydd Ddwyeithog mewn lle mwy amlwg ar y wefan, hyd yn oed ar y dudalen flaen, gan atodi dogfennau fel y Llyfryn Bod yn Ddwyeithog, a Llyfryn y Llywodraeth Dy Ganllaw i Addysg Gymraeg.

O dan y pennawd Y Gymraeg yng Nghaerdydd (sydd ar y diwedd), mae'n nodi mai'r prif reswm dros dwf yn yr iaith yw bod cymaint o ddisgyblion yn yr ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac yn y frawddeg olaf dywedir bod gan y ddinas dair ysgol uwchradd Cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, pymtheg ysgol gynradd a dwy uned cyfrwng Cymraeg. Mae tua 4,700 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cynradd ac mae dros 2,350 yn mynychu ysgolion uwchradd. Byddai'n dda gallu ychwanegu yma faint o grwpiau/cynlluniau meithrin sydd yn y ddinas a faint o blant sy'n eu mynychu.

- Cyngor Caerdydd – dim dolen i wefan Mudiad Meithrin. Ochr Saesneg – dim canlyniadau o gwbl. Ochr Gymraeg – 3 chanlyniad, gan arwain yn uniongyrchol at y dudalen Ysgolion a Dysgu.

- Facebook – dim manylion am grwpiau/cynlluniau, ond yn cyhoeddi rhai straeon am ysgolion ar ei dudalen.

- Facebook – wrth chwilio am ofal plant Caerdydd, mae Cynnig Gofal Plant Caerdydd yn ymddangos ac mae wedi rhannu tudalen Cymraeg i Blant

- Facebook – Ti a Fi Caerdydd – rhannu llawer o wybodaeth am y grwpiau/cynlluniau a Chymraeg i Blant hefyd ond yn anffodus dim ond 38 o ffrindiau.

- Edrychwyd ar Facebook ac Instagram hefyd o dan wahanol feysydd ee:

Gofal Plant a Meithrinfeydd Bae Caerdydd, Gofal Plant Treganna, Gofal Plant Parc Fictoria, Gofal Plant Creigiau. Canlyniadau amrywiol – nid oes llawer o grwpiau/cynlluniau meithrin yn ymddangos, ond mae gwefannau Dechrau'n Deg a Gofal Plant bellach yn codi'n aml. Roedd y grwpiau/cynlluniau a ymddangosodd yn isel iawn ar y rhestr.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n dda bod gwefan GGiD yn sôn am MM, ond mae'n drueni nad yw'r holl grwpiau/cynlluniau yn dod o dan Ddarparwr Gofal Plant, yn enwedig y 3 a restrir o dan Feithrinfeydd Dydd, gan y gellir dewis un sesiwn. Nid yw 4 grŵp/cynllun o Gaerdydd wedi'u rhestru o gwbl ac mae angen cynnwys y rhain - Maes y Morfa, Creigiau, Nant Lleucu, yr Eglwys Newydd. Byddai hefyd yn braf cael dolen i wefan y Mudiad oddi yma. • O dan Caerdydd Ddwieithog, byddai'n dda gallu ychwanegu faint o grwpiau/cynlluniau meithrin sydd yn y ddinas a faint o blant sy'n eu mynychu. • Gwefan www.childcare.co.uk – A oes cyfle i bob cylch meithrin hysbysebu ar hyn? Mae pob un yn dilyn yr un fformat – gwybodaeth, tabl o'r hyn sy'n cael ei gynnig, costau ac ati. Byddai modd nodi manteision dysgu Cymraeg i blant ifanc yn y paragraff agoriadol, yn Saesneg.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd	Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ychwanegol
PACEY Cymru	<p>Mae PACEY Cymru yn teimlo bod yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn gyfle amserol i ystyried unrhyw faterion lleol a allai fod yn effeithio ar warchodwyr plant megis ffioedd gwastraff masnach neu os oes terfynau wedi'u gosod drwy gynllunio ar nifer y plant yn y lleoliad cyn bod angen caniatâd cynllunio. Cred PACEY Cymru mai'r fframwaith rheoleiddio gofal plant yw'r mecanwaith rheoli priodol ar gyfer nodi uchafswm nifer y plant sy'n derbyn gofal yn yr eiddo, gan gynnwys y rhai sy'n byw yno. Mae PACEY Cymru hefyd yn teimlo y dylid adolygu'r broses a'r ffioedd a godir gan yr awdurdod cynllunio ar gyfer y rhai sy'n ceisio sefydlu gwasanaeth gofal plant yn y cartref.</p> <p>Os oes unrhyw faterion lleol yn effeithio ar warchodwyr plant, cysylltwch â PACEY Cymru i drafod ymhellach.</p>

Cyflogwyr

Dosbarthodd cydweithwyr yng ngwasanaeth i Mewn i Waith Cyngor Caerdydd arolwg ar-lein i weithwyr yng Nghaerdydd ar eu cronfa ddata. Dychwelwyd un ymateb, a dangosir yr ymatebion isod.

Statws y sefydliad	Preifat
Faint o bobl ydych chi'n eu cyflogi yn eich sefydliad?	100
Tua pha ganran o'ch staff sy'n byw yng Nghaerdydd?	0-20%
Tua pha ganran o'ch gweithlu sy'n rhieni â phlant 18 oed neu iau?	41-60%
Ydych chi'n cynnig unrhyw un o'r trefniadau gweithio hyblyg canlynol i weithwyr?	Llai o oriau am gyfnod dros dro
Rhowch fanylion unrhyw drefniadau gweithio hyblyg eraill sydd gennych ar waith	Oherwydd natur ein gwaith, nid ydym yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg er ein bod yn ceisio bod yn hyblyg wrth gefnogi ein gweithlu.
Yn ystod pandemig COVID-19 ydych chi wedi gweld newid yn y ffordd y mae eich gweithwyr yn defnyddio trefniadau gweithio hyblyg?	Ydyn
Dywedwch wrthym pa newidiadau rydych wedi'u gweld	Gweithio gartref mewn rolau lle mae hyn wedi bod yn bosibl er bod cydweithwyr bellach yn dychwelyd i'r gweithle yn rheolaidd.
Yn ystod pandemig Covid-19, pa ganran o'ch gweithlu a ddefnyddiodd y Cynllun Ffyrlo?	81-100%
Bu'n anodd cadw neu ddenu gweithwyr newydd	Anghytuno
Bu gofal plant yn ffactor mawr wrth atal cyflogeion rhag dechrau gweithio neu barhau i weithio yn y sefydliad	Anghytuno
Yn ystod y pandemig Covid-19, a oedd gofal plant yn ffactor mawr wrth atal cyflogeion rhag dechrau gweithio neu barhau i weithio yn y sefydliad?	Anghytuno
Dywedwch wrthym am eich profiadau o ofal plant a sut mae'n effeithio ar gadw neu gyflogi staff	Mae'r rhan fwyaf o'n gweithlu yn gweithio sifftiau ac felly'n rheoli gofal plant o amgylch hyn. Yn ystod y pandemig, roedd ein holl weithlu ac eithrio uwch reolwyr a chriw sgerbwd bach ar ffyrlo a oedd yn helpu gweithwyr gyda theuluoedd.
Ydych chi'n meddwl bod digon o ddarpariaethau gofal plant yng Nghaerdydd i fodloni gofynion eich gweithwyr?	Ddim yn siŵr

Pa welliannau sydd eu hangen eu gwneud i ofal plant yn eich barn chi er mwyn helpu i wella'r broses o recriwtio a chadw staff?	Sesiynau mwy hyblyg, e.e. galw heibio neu ychydig oriau; Mwy fforddiadwy; Ar gael ar wahanol adegau;
Pa adegau fyddai'n gweithio orau?	Cyn 7am; ar ôl 6pm;
Pa leoliadau fyddai'n gweithio orau?	Yn nes at ysgol y plentyn; Yn nes at y gwaith neu'r lleoliad astudio;
Pa fathau o ofal plant fyddai'n gweithio orau?	Clwb gwyliau <i>Nid yw'r cwestiynau uchod yn gadael i mi ateb popeth sy'n berthnasol.</i>
Pa mor aml ydych chi'n cael problemau gyda gweithwyr nad ydynt yn dychwelyd i weithio yn eich sefydliad yn dilyn cyfnod Mamolaeth/Tadolaeth?	Yn anaml
Dywedwch wrthym unrhyw bryderon sydd gennych am y farchnad gofal plant ar hyn o bryd ac yn y dyfodol	Mae gofal plant mor ddrud mae'n afresymol o gostus ac mae llawer o rieni'n gadael gwaith am gyfnod i fagu eu plant. Rhaid i hyn ddod i ben. Ar yr un pryd, rwy'n sylweddoli bod yn rhaid i weithwyr gofal plant ennill cyflog teilwng gan fod y rôl mor bwysig ac fel rhieni mae angen darpariaeth gofal plant arnom o ansawdd da. Byddwn yn awgrymu bod angen i'r llywodraeth roi cymhorthdal i hyn i ryw raddau er mwyn sicrhau bod y DU yn gallu cynnig cyfleoedd gyrfa gwych
Talebau gofal plant	Wedi darparu yn y gorffennol ond nid mwyach
Meithrinfa ar y safle	Nac oes
Crèche ar y safle	Nac oes
Cynllun chwarae ar y safle yn ystod gwyliau ysgol	Nac oes
Clwb ar ôl ysgol ar y safle	Nac oes
Cymorth ariannol tuag at ofal plant	Nac oes
Gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant	Ystyried ei darparu
Gwybodaeth am gredydau treth	Ystyried ei darparu

Ysgolion

Anfonwyd arolwg sy'n benodol i ysgolion, ynghyd â gwybodaeth am yr arolwg rhieni a dolen iddo, i bob ysgol yng Nghaerdydd fel rhan o ddiweddariad e-bost wythnosol gan yr adran Addysg.

PACEY Cymru

1. Mae'n ymddangos o'r tabl sydd wedi'i gynnwys yma (ac ar dudalen 79 o'r DSG) mai dim ond galw heb ei ateb sydd am ofal dydd llawn yn ardal Gorllewin Caerdydd. Byddai'n fuddiol egluro lle byddai cyfeiriadau at ofal dydd llawn (fel yma) yn cynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig yn ogystal â meithrinfeydd dydd, yn enwedig gan fod rhannau eraill o'r DSG lle nad yw gofal dydd llawn yn cynnwys gwarchodwyr plant (fel tudalen 126). Gellid gwneud hyn yn glir hefyd o fewn y camau gweithredu ar dudalen 6 o'r ddogfen DSG lawn.

Byddai PACEY Cymru yn awgrymu dull wedi'i dargedu o recriwtio gwarchodwyr plant i gefnogi digonolrwydd lleoedd gofal plant mewn ardaloedd penodol yng Nghaerdydd, a byddem yn hapus i drafod sut y gallem gefnogi hyn. Gallai hyn hefyd gefnogi'r galw am fwy o warchodwyr plant fel yr amlinellir ar dudalen 224 o'r DSG.

Fel y nodwyd ar dudalennau 64 – 67 a 270 mewn perthynas â'r gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant, byddai PACEY Cymru yn cytuno bod y gostyngiad hwn yn bryder. Rydym wedi bod yn adrodd ar y dirywiad mewn lleoedd gwarchodwyr plant ers nifer o flynyddoedd a gobeithiwn y bydd yr adolygiad annibynnol sydd ar y gweill o warchod plant yng Nghymru yn archwilio dirywiad gwarchodwyr plant ymhellach ac yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r eglurhad o ran cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant mewn lleoliadau gwarchodwyr plant mewn lleoliadau gwarchodwyr plant yn bwysig gan fod hyn yn ymwneud â'r newid a ddaeth i rym yn 2016 a oedd yn ymestyn rheoleiddio gofal plant cofrestredig o ofal plant hyd at 8 oed i gynnwys plant hyd at 12 oed.

2. Fel yr amlygwyd yma ac ar dudalen 6 o'r DSG, byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i archwilio a allwn weithio mewn partneriaeth â chi i gefnogi ymgyrch i recriwtio siaradwyr Cymraeg i ystyried gwarchod plant fel gyrfa. Mae gennym amrywiaeth o adnoddau dwyieithog a Chymraeg i gefnogi ymgyrch recriwtio ac mae ein cyn-gofrestru ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i hyrwyddo hyfforddiant iaith Gymraeg Camau a'r cymorth sydd ar gael i ymarferwyr a lleoliadau sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u defnydd o'r iaith gyda phlant yn eu lleoliad. Mae gwybodaeth am y cymorth

sydd ar gael i warchodwyr plant o PACEY Cymru yn <https://www.pacey.org.uk/welsh-language-development/>

Mae tudalen 95 yn cyfeirio at nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n darparu neu'n gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol. Gyda'r ffigurau hyn mewn golwg, efallai y byddai'n fuddiol cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol o fewn y cynlluniau i hyrwyddo datblygiad y Gymraeg gyda lleoliadau, gan gynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghaerdydd. Byddem yn hapus i archwilio a allwn eich cefnogi i godi ymwybyddiaeth o hyn.

3. Mae PACEY Cymru yn cytuno bod codi ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol sydd ar gael tuag at gost gofal plant yn bwysig.

Mae'n ymddangos, ar dudalen 7 o'r DSG, fod rhai pwyntiau gweithredu yn ymwneud ag ADY sydd wedi'u hailadrodd yn yr adran ar fforddiadwyedd drwy gamgymeriad.

Ar dudalen 229 o'r DSG cyfeirir at godi ymwybyddiaeth gyda rhieni, gallai hefyd fod yn fuddiol codi ymwybyddiaeth gyda darparwyr gofal plant o'r gwasanaeth hwn i gyfeirio rhieni at wybodaeth am gyllid gofal plant a chymorth ariannol.

Gan fyfyrir ar nifer y gwarchodwyr plant sydd wedi cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant ar dudalen 260, a fyddai'n fuddiol codi ymwybyddiaeth gyda'r rhai nad ydynt wedi ymuno â'r Cynnig ar hyn o bryd ac archwilio pam nad ydynt wedi cofrestru eto. Oherwydd y niferoedd isel o blant y gall gwarchodwr plant ofalu amdanynt ar unrhyw un adeg, nid yw'n syndod nad oes gan lawer o'r rhai sydd eisoes wedi cofrestru blentyn cymwys yn eu gofal ar adeg benodol, ond mae'n gadarnhaol eu bod yn barod i gynnig hyn os/unwaith y bydd plentyn yn dod yn gymwys.

3. Byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i archwilio gyda'r awdurdod lleol sut mae'r system ADY yn datblygu'n lleol ac i ddysgu mwy am y cymorth, yr hyfforddiant a'r arweiniad i warchodwyr plant yn yr ardal. Byddem yn hapus i archwilio sut y gallwn weithio gyda chi i godi ymwybyddiaeth o hyn gyda gwarchodwyr plant o ystyried y ffigurau a adroddwyd ar dudalen 235 o'r DSG gyda dim ond 52% o warchodwyr plant yn ymwybodol o'r cod ADY.

Mae PACEY Cymru hefyd yn croesawu'r camau i "*weithio gyda darparwyr gofal plant a phartneriaid i nodi unrhyw rwystrau i gael mynediad at hyfforddiant a chyngor ynghylch ADY/AAA*" Mae hyn yn bwysig, gan ein bod yn ymwybodol o wahanol lefelau o ddisgwyliadau mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru mewn perthynas â rôl darparwyr gofal plant yn y system ADY a'r gofynion hyfforddi a osodir arnynt, Byddem yn croesawu'r cyfle i ddysgu mwy am ddisgwyliadau lleol yng Nghaerdydd yn enwedig ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd i ddarparu addysg gynnar neu wasanaethau Dechrau'n Deg. Mae

PACEY Cymru yn awyddus i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw ddisgwyliadau yn gymesur â'r lleoliad, a bod cymorth a gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth ADY blynyddoedd cynnar lleol ar gael.

Nodir bod y wybodaeth mewn perthynas ag ADY ar dudalen 42 o fewn y DSG llawn yn cyfeirio at nifer y plant cyn-ysgol sydd ag ADY ac yna'n is na'r tabl nifer y plant sydd wedi'u hatgyfeirio. Mae'r [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#) yn cyfeirio at rôl LO ADY BC fel "*mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir*" (pennod 10). Gan fod pwynt gweithredu i godi ymwybyddiaeth o system ADY y blynyddoedd cynnar a chynyddu mynediad i'r cymorth hwn gan leoliadau gofal plant, efallai y byddai'n fuddiol adolygu'r geiriad ar dudalen 42 i egluro bod y gwasanaeth hwn ar gael i grŵp ehangach o blant a lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gan fod y term 'plant cyn ysgol' yn aml yn gysylltiedig â'r rhai sy'n cael mynediad i addysg gynnar a ariennir.

4. Byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i archwilio gyda'r awdurdod lleol sut mae'r system ADY yn datblygu'n lleol ac i ddysgu mwy am y cymorth, yr hyfforddiant a'r arweiniad i warchodwyr plant yn yr ardal. Byddem yn hapus i archwilio sut y gallwn weithio gyda chi i godi ymwybyddiaeth o hyn gyda gwarchodwyr plant o ystyried y ffigurau a adroddwyd ar dudalen 235 o'r DSG gyda dim ond 52% o warchodwyr plant yn ymwybodol o'r cod ADY.

Mae PACEY Cymru hefyd yn croesawu'r camau i "weithio gyda darparwyr gofal plant a phartneriaid i nodi unrhyw rwystrau i gael mynediad at hyfforddiant a chynghor ynghylch ADY/AAA" Mae hyn yn bwysig, gan ein bod yn ymwybodol o wahanol lefelau o ddisgwyliadau mewn gwahanol rannau o Gymru mewn perthynas â rôl darparwyr gofal plant yn y system ADY a'r gofynion hyfforddi a osodir arnynt, Byddem yn croesawu'r cyfle i ddysgu mwy am ddisgwyliadau lleol yng Nghaerdydd yn enwedig ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd i ddarparu addysg gynnar neu wasanaethau Dechrau'n Deg. Mae PACEY Cymru yn awyddus i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw ddisgwyliadau yn gymesur â'r lleoliad, a bod cymorth a gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth ADY blynyddoedd cynnar lleol ar gael. Nodir bod y wybodaeth mewn perthynas ag ADY ar dudalen 42 o fewn y DSG llawn yn cyfeirio at nifer y plant cyn-ysgol sydd ag ADY ac yna'n is na'r tabl nifer y plant sydd wedi'u hatgyfeirio. Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn cyfeirio at rôl LO ADY BC "*mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir*" (pennod 10). Gan fod pwynt gweithredu i godi ymwybyddiaeth o system ADY y blynyddoedd cynnar a chynyddu mynediad i'r cymorth hwn gan leoliadau gofal plant, efallai y byddai'n fuddiol adolygu'r geiriad ar dudalen 42 i egluro bod y gwasanaeth hwn ar gael i grŵp ehangach o blant a lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gan fod y term 'plant cyn ysgol' yn aml yn gysylltiedig â'r rhai sy'n cael mynediad i addysg gynnar a ariennir.

5. Byddai PACEY Cymru yn hapus i weithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid allweddol i gefnogi'r defnydd o derminoleg glir a champau eraill i helpu i gynyddu cywirdeb gweithgareddau casglu data.

Mewn ymateb i'r sylwadau ar dudalen 242 o'r DSG. Gan fod cyfeiriad at gymhwyso egwyddorion y cyfnod sylfaen mewn lleoliadau gofal plant o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gall fod dryswch o fewn lleoliadau ynghylch a ydynt yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, er eglurder byddem yn awgrymu cyfeiriadau clir megis 'a ariennir gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg gynnar a ariennir'.

Byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i archwilio gyda'r awdurdod lleol y potensial ar gyfer cynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig wrth gynllunio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau a ariennir fel addysg gynnar a Dechrau'n Deg os ydynt yn bodloni meini prawf diffiniedig. Credwn y byddai hyn yn sicrhau cyfleoedd cyfartal ar draws y sector, yn cefnogi cynaliadwyedd lleoliadau gwarchod plant ac yn ystyried dewis rhieni. Mae hyn hefyd yn debygol o gefnogi gwell canlyniadau i blant drwy ddarparu dilyniant gofal sy'n diwallu anghenion plant sy'n gysylltiedig â lles. Mae PACEY Cymru yn deall goblygiadau cost defnyddio gwarchodwyr plant i ddarparu gwasanaethau a ariennir ond mae'n credu y dylai'r canlyniadau i blant fod yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir.

6. Mae dirywiad gwarchodwyr plant ledled Cymru yn bryder parhaus ac mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar hyn. Byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i gyfrannu tuag at drafodaethau ynghylch recriwtio a chadw gwarchodwyr plant i'w helpu i weithredu mewn perthynas â hyn. Gallai'r [adolygiad annibynnol o warchod plant yng Nghymru](#) hefyd lywio gwaith pellach i helpu i gadw gwarchodwyr plant wrth symud ymlaen.

Tudalen 57 - mynediad at hyfforddiant. Mae'n galonogol nodi bod 95.7% o warchodwyr plant yn gallu cael hyfforddiant angenrheidiol er bod 20 o warchodwyr plant yn "*Methu dod o hyd i hyfforddiant/Hyfforddiant addas ddim ar gael*". Byddai gan PACEY Cymru ddiddordeb mewn archwilio anghenion hyfforddi ymhellach, os oes unrhyw wybodaeth am y mathau o hyfforddiant y mae hyn yn berthnasol iddynt.

Mae tudalennau 89-90 yn cyfeirio at swyddi gwag a rhestr aros 'lleoliadau addysg gynnar' gwarchodwyr plant, sydd hefyd yn cael ei amlygu o dan wendidau ar dudalen 107. Mae PACEY Cymru yn deall nad oes unrhyw warchodwyr plant yng Nghaerdydd yn cael eu comisiynu ar hyn o bryd i ddarparu addysg gynnar wedi'i hariannu, ond efallai bod rhywfaint o ddryswch yn yr ymatebion yn ymwneud â gofal plant cofleidiol a ariennir gan y Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 3-4 oed. Byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i archwilio gyda'r awdurdod lleol y potensial i gomisiynu gwarchodwyr plant cofrestredig i ddarparu addysg gynnar a ariennir gan FPN.

Mae tudalen 107 yn cyfeirio at gryfderau a gwendidau gwarchod plant yng Nghaerdydd, gellid cyfeirio yma at yr oriau agor estynedig a gynigir gan warchodwyr plant i deuluoedd fel yr amlinellir ar dudalen 104 cymaint sydd ar agor cyn 8am a rhai ar agor ar ddydd Sadwrn. O gymharu â chrynodebau gofal plant eraill, byddai'n fuddiol crynhoi fel cryfder faint o warchodwyr plant sy'n cynnig gofal plant di-dreth yng Nghaerdydd gan fod hyn yn debyg i ffigurau meithrinfeydd dydd.

Tudalen 186 nanis, byddai PACEY Cymru yn awgrymu bod y gair "cofrestredig" yn cael ei newid i adlewyrchu mai cynllun cymeradwyo gwirfoddol yw hwn ac osgoi unrhyw ddryswch gyda gofal plant cofrestredig. Byddai PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle i archwilio gyda chi gefnogaeth i nannedd a chodi proffil dod yn nani fel dewis gyrfa. Byddem hefyd yn hapus i archwilio'r potensial ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i godi proffil y cynllun cymeradwyo gwirfoddol fel yr amlinellir ar dudalen 291.

Mae PACEY Cymru yn croesawu'r gydnabyddiaeth ar dudalen 287 o'r potensial ar gyfer darpariaeth newydd i ddisodli'r ddarpariaeth gofal plant bresennol, byddem yn annog ystyriaeth o'r farchnad gofal plant leol wrth archwilio cynlluniau ar gyfer unrhyw ddarpariaeth newydd ar safleoedd ysgolion

Rhagor o wybodaeth:

Mae PACEY Cymru yn croesawu'r cyfle hwn i roi adborth a sylwadau ar Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant drafft Caerdydd 2022-2027. Cyn yr ymateb hwn, sylwch, rhoddodd PACEY Cymru rywfaint o wybodaeth i'r awdurdod lleol ym mis Tachwedd 2021, yn dilyn eu cais i gwblhau arolwg ar gyfer partneriaid Cwlwm i gefnogi datblygiad yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn.

Sylwer rhoddir pwyntiau i'w hystyried yn ddiwyll er mwyn hwyluso trafodaeth, adborth ac i agor deialog pellach sy'n cefnogi darparwyr gofal plant yn yr Awdurdod Lleol. Ni ddylid defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad y tu allan i'w chyd-destun na'i hystyried yn ddyfarniad ar ddarpariaeth gan ddarparwyr unigol neu'r Awdurdod Lleol ei hun.

Cefndir

Yn ôl y gyfraith, mae angen i gynghorau arolygu faint o ofal plant sydd yn yr ardal ac adrodd a oes digon o ofal plant i gefnogi rhieni i weithio neu hyfforddi. Os oes bylchau, rhaid i'r Cyngor ddangos sut mae'n bwriadu cefnogi darparwyr gofal plant i sefydlu gwasanaethau gofal plant newydd i lenwi'r bylchau hyn. Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant neu ADGP yw hyn.

Beth a wnaethom ni

Anfonwyd gwybodaeth at Gyngor Caerdydd am ddarpariaeth gofal plant gan gynnwys manylion am leoliadau, nifer a math y lleoliadau gofal plant; yr iaith a ddefnyddir yn y lleoliadau gofal plant; nifer y plant sy'n mynychu ac unrhyw leoedd gwag neu restrau aros. Roedd gwybodaeth hefyd am fathau o ddarparwyr gofal plant (e.e. gwarchodwyr plant, meithrinfeydd) a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu (e.e. sesiwn y bore, ar ôl yr ysgol, gofal dydd llawn) i ddeall a oes rhestrau aros ar

gyfer gwasanaethau neu fathau penodol o ddarparwyr gofal plant, a ble yng Nghaerdydd y mae unrhyw restrau aros.

Yr hyn a ganfuwyd gennym a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud

Mae canfyddiadau'r ADGP yn dangos bod digon o ofal plant ar draws Caerdydd gan fwyaf i fodloni anghenion rhieni sy'n gweithio neu'n ymgymryd â hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod rhywfaint o alw heb ei ateb mewn rhai ardaloedd, ar gyfer rhai mathau o ddarpariaeth gofal plant ac o ran gwasanaethau gofal plant penodol.

Methodoleg

- Datblygwyd arolwg ar-lein dwyieithog gan y Tîm Tai a Chymunedau ar y cyd â Chanolfan Ymchwil Caerdydd.
- Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo trwy gyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram corfforaethol y Cyngor trwy gydol y cyfnod ymgynghori.
- Cynhaliwyd nifer o gyfweiliadau wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Cynhaliwyd yr arolwg ar wefan y Cyngor, a'i hyrwyddo i weithwyr y Cyngor trwy DigiGov, y Fewnrwyd a Gwybodaeth i Staff.

Canlyniadau


Cafwyd 95 o ymatebion i'r arolwg.

Galw posibl heb ei ateb

Ein cam cyntaf fydd cynnal ymchwil fanwl bellach gyda'r darparwyr gofal plant yn yr ardaloedd hyn i wirio bod yr wybodaeth yn gywir, ac i weld a all darparwyr gofal plant presennol gynyddu nifer y lleoedd y maent yn eu cynnig i fodloni'r angen hwn. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn ceisio annog darparwyr gofal plant i agor lleoliad newydd.

A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?

Roedd dros bedair rhan o bump (86.9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cam gweithredu hwn. Os caiff ymatebion 'ddim yn siŵr' eu tynnu o'r dadansoddiad, mae'r ganran sy'n cytuno'n cynyddu i 94.3%.



Ydw Ddim yn siŵr Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cam gweithredu. Penderfynodd 15 o'r ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod/drosodd:

- Mae'n well cipio cymaint o ddata â phosibl er mwyn gwneud y penderfyniad.
- Rwy'n ei chymryd yn ganiataol y bydd pob darparwr gofal plant yn cael ei annog i gynnig lleoliad newydd.
- Darpariaeth yn ystod y gwyliau i rieni sy'n awyddus i weithio a llawer ar agor yn ystod y tymor yn unig!
- Dylai'r arian ar gyfer hon fod yn ychwanegol at yr hyn a roddir eisoes i ddarparwyr gofal plant, gan fod diffyg yn aml yn yr hyn y mae llywodraeth leol yn ei roi a'r gost fesul awr wirioneddol. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar yr un pryd, oherwydd fel arall ni fydd darparwyr yn gallu cynnig mwy o ddarpariaeth oherwydd eu costau sefydlog nad yw arian gan y llywodraeth leol yn talu amdanynt.
- Nid lleoedd yn unig yw'r mater yma ond hyblygrwydd y lleoedd a sicrhau darpariaeth y tu allan i ddyddiau ac amserau arferol.
- Ar yr amod nad yw'r cynnydd yn y niferoedd mewn darpariaeth yn arwain at ostyngiad yn y cymarebau staffio. Dydw i ddim yn credu mewn cael yr un nifer o staff yn rheoli mwy o blant.
- Mae angen sicrhau bod y gofal plant sydd ar gael yn hygyrch i blant ag AAA ac i rieni ag anabledau, felly mae angen opsiynau trafnidiaeth hawdd.
- Yn hytrach na chynyddu nifer y lleoedd yn y lleoliad presennol, byddai'n well buddsoddi mwy. Mae fy mab mewn meithrinfa llawn amser, ac rwy'n teimlo bod y gymhareb 4:1 bresennol yn dda i'w ofal, a hoffwn i bob plentyn mewn gofal fod yn ddiogel ac yn hapus mewn amgylchedd di-straen. Ni fydd modd gwarantu hynny os bydd y gymhareb yn cynyddu.
- Rwy'n credu bod angen gofal plant mwy cynhwysol. Roedd cynllun chwarae SPICE yn enghraifft wych o sut i wneud hyn yn dda.
- Mae'n annheg fy mod yn byw ar Windway Road ac nad wyf yn cael gofal plant am ddim. Dylai dewis gofal plant fod yn 30 awr - rydych yn dewis lle bynnag rydych ei eisïau, nid ei rhannu'n ddwy.
- Allwch chi sicrhau bod plant bob amser yn cael mynediad i'r awyr agored?
- Byddwn hollol yn erbyn cynyddu'r gymhareb plant i ofalwyr gan na fyddai'n ddiogel i ofalwyr ofalu am fwy o blant.
- Mae hefyd angen sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael.


Darpariaeth Gymraeg

Mae cyfleoedd ac arian, sy'n gysylltiedig â chynllun Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Caerdydd i ddatblygu neu ehangu gofal plant Cymraeg sy'n gysylltiedig ag ysgolion cynradd Cymraeg.

Byddwn yn hyrwyddo cyrsïau blas ar y Gymraeg ar gyfer y gweithlu gofal plant a blynyddoedd cynnar er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r niferoedd isel o warchodwyr plant Cymraeg a'r sgiliau Cymraeg cyfyngedig sydd gan lawer o staff gofal plant.

A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?

Roedd tri o bob pedwar ymatebwyr (74.7%) yn cytuno â'r cam gweithredu hwn. Os caiff ymatebion 'ddim yn siŵr' eu tynnu o'r dadansoddiad, mae'r ganran sy'n cytuno'n cynyddu i 85.5%.



Ydw Ddim yn siŵr Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cam gweithredu. Penderfynodd wyth ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod/trosodd:

- A ydych chi'n ymateb i'r galw gwirioneddol am ddarpariaeth Gymraeg, neu ai ymarfer ticio blychau yn unig yw hwn i wthio cynllun 2050 Llywodraeth Cymru?
- Gall darpariaeth Gymraeg eithrio'r nifer uwch o blant sy'n siarad Saesneg - efallai y byddai'n well cefnogi darpariaeth ddwyieithog yn hytrach nag annog darpariaeth Gymraeg yn unig. Hefyd, gallai rhai rhannau o Gaerdydd elwa o ddarpariaeth yn eu hieithoedd cartref. Beth yw'r broses ar gyfer annog amlieithrwydd?
- Nid oes angen mwy o ddarpariaeth Gymraeg arnom yng Nghaerdydd. Mae angen mwy o ddarpariaeth Saesneg arnom.
- Mae'n bwysig bod siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn gallu cael mynediad i ofal plant Cymraeg, yn enwedig plant iau.
- Byddai mwy o ofal ar gyfer plant iau yng Nghymru yn gadarnhaol.
- Mae angen sicrhau cefnogaeth ddigonol i rieni nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg hyderus ond sydd am i'w plant fod yn hyderus yn siarad yr iaith ac felly eisiau eu helpu.
- Mae yna blant sy'n cael trafferth gyda'r Saesneg bob dydd. Ac eto maen nhw'n cael eu gorfodi i ddysgu Cymraeg!!


Fforddiadwyedd

Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn bartneriaid allweddol wrth wella gwybodaeth rhieni a gofaluwr am yr amrywiaeth o gymorth ariannol sydd ar gael i helpu gyda chostau gofal plant. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen ar rieni ar gael ar wefan Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd ac mewn llyfryn i rieni.

Caiff mwy o leoliadau eu hannog i gofrestru i gynnig Gofal Plant di-dreth i helpu rhieni sy'n gweithio.

A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?

Roedd bron pob un (96.8%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cam gweithredu hwn.



Ydw Ddim yn siŵr Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cam gweithredu. Penderfynodd 25 o'r ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod/trosodd:

- Cymorthdalw'r ddarpariaeth ymhellach.
- Dylid rhoi peth hyfforddiant i staff yn y lleoliadau eraill hyn i ddeall y wybodaeth hon er mwyn iddynt allu rhoi'r wybodaeth gywir ar eu cyfer.
- Hyd yn oed gyda gofal plant di-dreth, mae'r gost yn dal yn uchel iawn ac mae ffioedd meithrinffeydd yn codi gan roi llawer o bwysau ar deuluoedd ifanc.
- Mae angen i'r wefan gofal plant di-dreth fod yn haws ei defnyddio.
- Mae'r system ddi-dreth yn feichus i warchodwyr plant sy'n unig fasnachwyr.
- Mae costau uchel gofal plant yn ei gwneud yn anodd i rieni ddychwelyd i'r gwaith. Nid yw'r cymorth di-dreth yn mynd yn ddigon pell; mae angen adolygu'r ffordd y caiff gofal plant ei godi a'i ariannu.
- Gwneud gofal plant yn fwy fforddiadwy.
- Yn ogystal â gofal plant di-dreth, mae angen gwneud mwy i wneud gofal plant yn fforddiadwy. I lawer, mae cost gofal plant yn fwy na'u cyflogau neu'n golygu nad yw gweithio'n hyfyw yn ariannol. Nid mewn ardaloedd cychwyn cadarn yn unig y mae hyn yn broblem - mae hyd yn oed yn effeithio ar weithwyr proffesiynol.
- Byddwch yn onest ynghylch sut mae'r "help" hwn yn effeithio ar fudd-daliadau, e.e. trwy ad-dalu rhywfaint o gostau gofal dydd mae'n edrych fel eich bod yn ennill mwy ac yna mae'n rhaid i chi dalu mwy o'r dreth gyngor.
- Nid yw'n ymwneud â rhannu gwybodaeth am gynlluniau sydd ar gael yn unig, ond mae angen i fwy o gymorth ariannol fod ar gael cyn i'r plentyn droi'n 3 oed. Mae cost gofal plant i fabanod dan 3 oed yn afresymol o uchel ac mae'n effeithio ar fy ngallu i weithio.
- Nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell. Mae angen i'r gofal plant 30 awr am ddim ddechrau o 2 oed ymlaen.


- Ni all rhieni gael cymorth gan Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd. Anwybyddir atgyfeiriadau ac ni allwch siarad ag unrhyw un. Mae angen mwy o gymorth ymarferol ar rieni.
- Mae'n dda bod â'r holl wybodaeth mewn un lle.
- Rhaid i'r wybodaeth gynnwys holl amgylchiadau'r rhieni a rhaid gallu ei defnyddio fel 'map ffordd'.
- Mae angen mwy o help ar rieni. Rwy'n gwario mwy ar ofal plant nag yr wyf ar filiau, a does dim arian gen i hanner yr amser oherwydd bod rhaid i mi dalu £1000 a mwy y mis hanner yr amser. Rwy'n meddwl tybed pam ydw i'n gweithio.
- Mae gofal plant di-dreth yn gamarweiniol. Dim ond £500 mewn 3 mis y mae plant mewn gofal llawn amser yn ei gael, ac nid yw hynny'n talu'r gost. Yn wir, mae gofal plant yn y DU yn un o'r rhai drutaf. Dim ond y dosbarth canol a all ei fforddio. Rhaid i hynny newid; dylai o leiaf 50 o'r gost gael ei hysgwyddo gan y llywodraeth i roi cyfle cyfartal i blant ar gyfer eu dyfodol.
- Os ydych chi eisiau i bobl weithio, mae angen i chi ddarparu mwy na gofal plant di-dreth yn unig a beth am y plant dan 3 oed!
- Mae angen mwy o help. Mae angen canolfannau dydd sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.
- Yn ogystal â gofal plant di-dreth, byddai'n fuddiol pe bai mwy o ddarparwyr yn cynnig y 30 awr o ofal plant am ddim o dair oed, a/neu'n darparu gwasanaethau cofleidol i feithrinfeydd ysgolion.
- Angen mwy o gymorth i atal cost gynyddol gofal plant (wedi codi dros 10% mewn 2 flynedd). Nid yw'n fforddiadwy i'r rhan fwyaf.
- Byddai angen hysbysebu/rhannu mewn mannau eraill hefyd.
- Dylid hysbysebu'r opsiynau'n fwy helaeth, Nid dibynnu ar bobl i wybod ble i edrych yn unig.
- Beth yw ystyr 'gofal plant di-dreth'??.
- Byddai gostwng yr oedran ar gyfer cymorth gofal plant o 3 i 1/2 yn hynod ddefnyddiol i gynyddu'r gweithlu (yn enwedig o ran y bwlch rhwng y rhywiau). Mae gan fy rhieni a minnau swyddi sy'n talu'n weddol dda ac roedd yn rhaid i mi wario ein cynilion ar gyfer tŷ yn y dyfodol er mwyn i mi ddychwelyd i'r gwaith - nid yw fy swydd yn un y gallwch gael seibiant ohoni am flwyddyn wrth aros am gymorth ychwanegol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anabledd

Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth darparwyr gofal plant a'i gwneud yn haws iddynt gael cyngor, cymorth, arweiniad a hyfforddiant, er mwyn ymateb i anghenion plant.

A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?

Roedd bron pob un (97.9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cam gweithredu hwn.



Ydw Ddim yn siŵr Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cam gweithredu. Penderfynodd 13 o'r ymatebwyr roi adborth; gellir gweld y sylwadau hyn isod/trosodd:


- Byddai'n ddefnyddiol cael adborth fel rhiant ynglŷn â'r mathau o hyfforddiant y mae staff darparwyr gofal plant yn ei gael.
- Dylid rhoi cymaint o gymorth i blant AAA ag y bo modd. Mae gen i Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd ac rwy'n teimlo wedi fy siomi gan y system addysg.
- Rydym yn gwybod trwy brofiad bywyd bod llawer o ddarparwyr gofal plant yn brin eu dealltwriaeth o ADY. Roedd yn ei gwneud yn anodd gweithio a darparu ar gyfer y teulu a sicrhau bod anghenion ein plant yn cael eu bodloni. Dylai ymwybyddiaeth ac addysg yn y maes hwn fod yn rhan orfodol o unrhyw hyfforddiant/safonau gofal plant.
- Efallai cynnig hyfforddiant ychwanegol mewn pynciau fel datblygu iaith, cyfathrebu swyddogaethol, datblygiad sain lleferydd ac agweddau corfforol a synhwyrdd ar ddatblygiad. Hefyd, datblygu cysylltiadau ag ymwelwyr iechyd a chanolfannau plant ar gyfer cymorth cysgu/toiled/AAA.
- Mae nifer y plant ag ADY difrifol a chymhleth yn cynyddu ac nid yw gwasanaethau'n cadw i fyny.
- Ystyriwch rieni a gofalwyr ag anghenion ychwanegol hefyd.
- Nid yr ymwybyddiaeth sydd ei hangen ond y cymorth. Mae diffyg arian a diffyg cymorth.
- Nid oes digon o ddarpariaeth ar gyfer plant AAA ledled y ddinas. Mae hyn yn atal rhieni rhag cael yr opsiwn i weithio neu gael hyfforddiant.
- Mae hyn yn hanfodol.
- Mae angen i hyn gynnwys hyfforddiant i ddarparwyr ar ADY ac yn enwedig niwro-abledau. Ychydig iawn o ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn ôl-11 oed.
- Ystyriwch gynnwys gwersi BSL mewn ysgolion ac ar gyfer athrawon.
- Rwy'n gwerthfawrogi hyn. Roedd angen help ar fy merch gyda'r nam ar ei chlyw.

Cymorth i'r Sector Gofal Plant

Mae cyfleoedd i weithio gyda Gwasanaeth i Mewn i Waith y Cyngor ac Addewid Caerdydd i gyfrannu at gefnogi'r sector.

A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?

Roedd pedwar o bob pump (86.9%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cam gweithredu hwn. Os caiff ymatebion 'ddim yn siŵr' eu tynnu o'r dadansoddiad, mae'r ganran sy'n cytuno'n cynyddu i 97.5%.



Ydw Ddim yn siŵr Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cam gweithredu. Gadawyd sylwadau gan ddeg ymatebwr; gellir gweld y sylwadau hyn isod/trosodd:


- Yn hanesyddol, mae gofal plant yn broffesiwn â chyflog isel, sy'n gofyn am gymhwyster 2 flynedd gweddol ddwys. Hyd nes y ceir gwobr ariannol fwy am ymrwymiad o'r fath, rwy'n ofni na fydd ymgeiswyr o safon uchel yn cael eu denu i'r proffesiwn heb fuddsoddiad yn y sector (sydd fyw neu lai'n golygu cymorthdal'u'r sector preifat).
- Gan fy mod yn gweithio yn yr IWS, byddwn yn fwy na pharod i gyfrannu unrhyw amser neu arbenigedd y gallaf.
- Dw i ddim yn deall beth mae hyn yn ei feddwl.
- Bydd annog menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn benodol i'r maes hwn trwy gynnig sgiliau llythrennedd/rhifedd ar ôl bod yn y swydd yn grymuso menywod sydd wedi bod allan o'r gweithlu neu nad oes ganddynt sgiliau a hyfforddiant a chymwysterau angenrheidiol yn draddodiadol i gael gwaith arall.
- Dw i ddim yn deall y cwestiwn hwn mewn gwirionedd.
- Nid yw gofal plant yn rhywle lle gall unrhyw un weithio; byddwch yn rhoi plant mewn perygl trwy roi'r gwaith i unrhyw un, ni waeth pwy ydyw.
- Dw i ddim yn siŵr beth mae hyn yn ei olygu? Byddai rhagor o wybodaeth yn ddefnyddiol.
- Dim syniad beth yw'r cyfleoedd.
- Mae angen mwy o fanylion arnaf!!

Gwella ansawdd, cywirdeb a chysondeb data

Mae angen gwaith i sicrhau bod y diweddariadau blynyddol ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn y dyfodol yn cael eu llywio gan y data mwyaf cywir posibl. Felly er nad yw'n fater i Gaerdydd yn unig, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wella cywirdeb data.

A ydych chi'n cytuno â'r cam gweithredu hwn?

Roedd dros bedair rhan o bump (85.3%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cam gweithredu hwn. Os caiff ymatebion 'ddim yn siŵr' eu tynnu o'r dadansoddiad, mae'r ganran sy'n cytuno'n cynyddu i 96.4%.



Ydw Ddim yn siŵr Nac ydw

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cam gweithredu hwn?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cam gweithredu. Gadawyd sylwadau gan ddau ymatebwr; gellir gweld y sylwadau hyn isod/trosodd:

- Dylid sicrhau bod y broses o gofnodi data yn syml er mwyn sicrhau bod y broses o'i chwblhau'n gywir.

A oes unrhyw beth arall yn gysylltiedig â gofal plant yr hoffech wneud y Cyngor yn ymwybodol ohono?

Rhodddwyd cyfle i'r ymatebwyr adael adborth/sylwadau pellach am faterion a oedd yn ymwneud â gofal plant yr hoffent wneud y Cyngor yn ymwybodol ohonynt.

Gadawyd sylwadau gan 52 o'r ymatebwyr; yna dosbarthwyd y sylwadau hyn yn ôl themâu. Gellir gweld y themâu hyn ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod/drosodd:

Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Mae gofal plant yn rhy ddrud	21	40.4	<ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd, ni all fy ngŵr weithio oherwydd ni allwn fforddio iddo fynd yn ôl i'r gwaith gan fod gofal plant yn rhy ddrud. • Mae cost gofal plant yn uchel iawn sy'n golygu bod llawer o deuluoedd sy'n gweithio fel fi yn ei chael hi'n anodd gallu ei ddefnyddio. • Mae cost gofal plant yng Nghaerdydd yn afresymol o uchel. Mae angen gwneud mwy i gefnogi teuluoedd fel nad oes rhaid iddynt weithio dim ond i dalu am ofal plant.

			<ul style="list-style-type: none"> • Mae cost gofal plant i blant dan 3 oed yn rhwysr i famau sy'n dychwelyd i'r gwaith yn bennaf. Er bod 20% yn ddi-dreth, mae'n dal yn ddud iawn ac yn ffactor i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith. Pe baem yn gwneud mwy i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy, yna byddai hyn yn cynyddu nifer y menywod yn y gweithlu, gan hybu'r economi o ganlyniad. • Mae cost gofal plant yn cynyddu o hyd ac mae'n mynd yn anodd ei fforddio.
Dechrau o oedran iau	10	19.2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gofal plant yn ddud iawn. Rwy'n gweithio'n llawn amser ac mae gennyf un plentyn yn y dosbarth derbyn ac un sy'n 2 oed. Mae'n costio £1200 y mis gyda gwarchodwr plant. I lawer, bydd hyn yn ormod o lawer. Mae angen cyflwyno cymorth gofal plant i blant dan 3 oed yn gyflymach. • Lleihau oedran oriau gofal plant am ddim yn unol â Lloegr. • Mae gofal plant yn ddud, yn enwedig i rieni sy'n gweithio ac sydd ill dau mewn gwaith llawn amser. Rwy'n credu y dylid estyn y cynnig gofal plant i rieni gan ddechrau o 2 oed os nad ydynt yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg.
Nid yw nifer yr oriau a ariennir yn ddigonol	9	17.3	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd yr arolwg hwn yn ymdrin ag unrhyw un o'm pryderon fel rhiant. Nid yw lleoliad mewn ysgol feithrin ar gyfer plant 3 oed a hŷn yn helpu rhieni sy'n gweithio o gwbl. Gan mai dim ond 2.5 awr y mae'n ei ddarparu bob dydd, mae rhieni'n cael eu gorfodi i gael gofal cofleidiol nad yw bob amser ar gael neu'n gadael gwaith yng nghanol y dydd i gasglu'r plentyn ac i fynd ag ef i ofal plant amgen a allai fod sawl gwaith y dydd gan ddibynnu ar amserlen yr ysgol; nid yw hyn yn gyson â gwaith. Yn ogystal, os nad yw plentyn yn mynd i'r ysgol feithrin, caiff yr oriau hynny heb ofal plant eu colli. Rwy'n genfigennus o deuluoedd yn Lloegr sy'n cael 30 awr am ddim yn y feithrinfa o'u dewis. Nid yw'r system yng Nghaerdydd yn helpu teuluoedd.

			<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg darparwyr gofal plant cyn ysgol, yn enwedig yn ardal Rhiwbeina. Dim clwb brecwast yn yr ysgol. Diffyg gwarchodwyr plant a diffyg lleoliadau sy'n gallu mynd â phlant i'r ysgol. Anodd iawn i rieni sy'n gweithio. • Mae ffioedd a godir gan ddarparwyr gofal plant yn golygu bod biliau, hyd yn oed gyda 15 awr o ofal plant am ddim, yn dal i fod yn anhygoel o uchel. Mae sesiwn foreol yn ein meithrinfa yn costio £50 heb ddefnyddio unrhyw oriau, ond hyd yn oed gyda 5 awr o ofal am ddim mae'n dal i gostio £25 y sesiwn! Mae hynny'n wahanol iawn i'r gofal plant 'am ddim' a nodir pan hysbysebir y cynnig.
Oriau agor estynedig - Oriau anghymdeithasol/gwylia u'r ysgol	8	15.4	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai oriau agor estynedig i weithwyr allweddol, e.e. athrawon/staff gofal iechyd, yn wych. • Dylid dechrau'r 30 awr (neu rai oriau) o oedran iau. Dylid helpu hefyd yn ystod gwyliau'r ysgol; ychydig iawn o swyddi sy'n rhoi digon o wyliau blynyddol. • Nid yw pob ysgol yn cynnig y clwb brecwast am ddim. Nid oes digon o opsiynau gofal plant ar agor tan 6.
Mae angen mwy o wybodaeth am arian a gofal plant	5	9.6	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r holl arian a sut i ddod o hyd i ddarparwyr gofal plant addas gan gynnwys meithrinfeydd a gwarchodwyr plant. • Nid yw gwefan Dewis yn gyfredol wrth chwilio am ddarpariaethau sy'n cynnig 30 awr o ofal plant am ddim.
Gofal Plant Cymraeg	4	7.7	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen mwy o leoliadau Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Roedd fy mhlentyn yn mynychu meithrinfa Saesneg gan nad oedd unrhyw leoliadau Cymraeg yn yr ardal leol. • Dim ond mewn ardaloedd cyfoethocach y mae darpariaeth Gymraeg ac nid yw byth ar gael mewn clybiau ar ôl yr ysgol ac ati. Mae Meithrin yn gwneud gwaith gwych, ond does dim byd

			cyn neu ar ôl hynny mewn gwirionedd heb deithio.
Hyfforddiant anghenion ychwanegol	3	5.8	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes gan nyrsys meithrinfeydd hyfforddiant na gwybodaeth am anghenion ychwanegol. Mae gan lawer o feithrinfeydd bolisiau hen ffasiwn ar gyfer rheoli ymddygiad ac ychydig iawn o wybodaeth sydd ganddynt am ddatblygiad cynnar plant. Mae angen gofal plant cyn ac ar ôl yr ysgol ar gyfer plant ADY mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig pobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd sydd â niwro-anableddau.
Arall	13	25.0	<ul style="list-style-type: none"> Arolwg diwerth oedd hwn. Ymgyrch tuag at hylendid digidol. Mae'r gofal plant am ddim sydd ar gael yn fy ardal i yn ased gwych a dylid annog mwy o rieni i'w ddefnyddio. Nid oes digon o ysgolion uwchradd.
Cyfanswm yr Ymatebwyr	52	-	

DS: Nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100% gan y gallai sylwadau'r ymatebwyr fod yn berthnasol i sawl thema.

17: Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella

Dadansoddiad o'r bylchau

Yn ôl dadansoddiad manwl o ddata'r DHG, a thrwy gymharu nifer y plant sy'n aros am le ar unwaith yn erbyn y lleoedd gwag yn ôl gwasanaeth ym mhob ACC, dim ond 99 o blant y nodwyd eu bod yn aros am le mewn gwasanaeth nad oedd lle gwag ar ei gyfer yn yr ACC honno. Y dull yw asesu digonolrwydd *gwasanaethau* yn ôl ardal ddaearyddol, yn hytrach na chanolbwyntio ar fathau o ddarparwyr.

Er y cydnabyddir y gall fod gan rai rhieni ddewisiadau ar gyfer y math o ddarparwr y maent yn ei ddefnyddio, er enghraifft, clwb ar ôl ysgol, gallai gofal ar ôl ysgol ar gyfer eu plentyn oedran ysgol gael ei ddarparu gan glwb y tu allan i oriau ysgol, lleoliad gofal dydd llawn neu warchodwr plant. Mae creu lleoedd ychwanegol y tu allan i oriau ysgol, ar ôl oriau ysgol mewn ardal lle mae gwasanaeth eisoes yn cael ei ddarparu, a lle mae lleoedd gwag yn bodoli, yn debygol o danseilio hyfywedd darparwyr presennol oherwydd yr angen i unrhyw leoliad gyrraedd 'màs critigol' o blant sy'n mynychu er mwyn mantoli'r gyllideb a thalu costau.

Fel y nodwyd yng nghorff yr asesiad, mae pryderon ynghylch cywirdeb rhywfaint o'r data a dynnwyd o ymatebion y ffurflenni DHG. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, yr ymateb cychwynnol a gynhyrchwyd gan yr ADGP yn y Cynllun Gweithredu yw ymchwilio ymhellach i ba lefel o alw heb ei fodloni sy'n bodoli, os o gwbl. Mewn rhai achosion, er bod y data'n awgrymu bod rhestr aros ar gyfer un gwasanaeth, e.e. sesiynau boreol yng Ngogledd Caerdydd, mae'r data hefyd yn dangos bod lleoedd gwag yn yr ACC mewn gwasanaethau sy'n ymddangos yn debyg iawn e.e. Gofal Hanner Diwrnod/Meithrinfa Hanner Diwrnod AM. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall yn llawn a all darparwyr sy'n cynnig y gwasanaethau hyn amsugno'r galw, neu a yw amseru, oedrannau plant neu ffactorau eraill yn golygu nad yw'r gwasanaethau hyn yn addas ar gyfer y plant a nodir ar y rhestrau aros.

Os caiff y galw heb ei fodloni ei gadarnhau, bydd y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant yn gweithio gyda darparwyr yn yr ardal, ysgolion, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill i asesu'r ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn. Cyfleoedd i ddarparwyr presennol ehangu naill ai nifer y lleoedd, neu'r mathau o wasanaethau a gynigir fydd y dull a ffefrir, gan y dylai hyn gael yr effaith leiaf ar ddadleoli ac mae'n fwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

Tabl: Lleoedd gwag yn ôl gwasanaeth ac ACC

ACC	Gwasanaeth	Y galw heb ei fodloni (plant sy'n aros am le ar unwaith uwchlaw'r lleoedd gwag presennol, yn ôl gwasanaeth)	Sylwadau
Gogledd Caerdydd	Boreau	21	Mae 474 o leoedd gwag ar gyfer Gofal Hanner Dydd/Meithrinfa Hanner Dydd AM yn yr ACC
	Sesiynau cynllun chwarae	10	Darpariaeth adeg gwyliau – ansicr pa wyliau y mae'r rhestr aros ar eu cyfer
	Cylch Chwarae / Cylch Meithrin AM	2	
Dwyrain Caerdydd	Dim plant yn aros am unrhyw wasanaeth		
De-ddwyrain Caerdydd	Dim plant yn aros am unrhyw wasanaeth		
Canol a de Caerdydd	Gofal hanner diwrnod / Meithrinfa hanner diwrnod PM	3	
	Cylch Chwarae / Cylch Meithrin AM	6	527 o leoedd gwag am Ofal Hanner Diwrnod/Meithrinfa Hanner Diwrnod AM
De-orllewin Caerdydd	Gofal hanner diwrnod / Meithrinfa hanner diwrnod AM	23	DS: 36 o leoedd gwag boreol
Gorllewin Caerdydd	Lle mewn Gofal Dydd Llawn/Meithrinfa Ddydd Lawn	29	
	Cylch Chwarae / Cylch Meithrin AM	5	151 o leoedd gwag boreol

- Gogledd Caerdydd – 21 o blant yn aros am le boreuol, 10 plentyn yn aros am sesiwn cynllun chwarae, 2 ar gyfer Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM (DS: mae lleoedd gwag yn bodoli ar gyfer Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM)
- Dwyrain Caerdydd - Dim plant yn aros am unrhyw wasanaeth
- De-ddwyrain Caerdydd - Dim plant yn aros am unrhyw wasanaeth
- Canol a De Caerdydd – 3 phlentyn yn aros am ofal hanner diwrnod/Meithrinfa Hanner Diwrnod PM (DS: 527 o leoedd gwag ar gyfer Gofal Hanner Diwrnod/Meithrin Hanner Diwrnod AM). 6 o blant yn aros am le mewn Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM
- De-orllewin Caerdydd - 23 o blant yn aros am le mewn darpariaeth Gofal Hanner Diwrnod/Meithrinfa Hanner Diwrnod (DS: mae 36 o leoedd gwag boreol ar gael)

- Gorllewin Caerdydd - Caerdydd Mae 29 o blant yn aros am le Gofal Dydd Llawn/Meithrinfa Ddydd Llawn (DS: Mae 151 o leoedd gwag ar gyfer y bore yn yr ACC hon). Mae 5 plentyn yn aros am le mewn Cylch Chwarae/Cylch Meithrin AM (DS: Adroddwyd am 151 o leoedd gwag ar gyfer y bore)

(a) darpariaeth gofal plant i blant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol;

Yn ôl data DHG, mae 162 o leoliadau gofal plant ar agor cyn 8.00am ar o leiaf rai dyddiau o'r wythnos. Mae 108 o warchodwyr plant yn gweithredu cyn 8.00am, gyda'r cynharaf yn dechrau am 5.50am. Mae 45 gofal dydd llawn, 8 y tu allan i oriau ysgol ac 1 darparwr gofal dydd fesul sesiwn ar agor cyn 8.00am, gan ddarparu 4,080 o leoedd.

Darperir gofal ar ôl 6.00pm rhwng 4 gwarchodwr plant ar ddydd Mawrth, gan godi i 11 ar ddydd Gwener. Gall hyn fod oherwydd bod gwarchodwyr plant yn addasu eu gwasanaeth i ddiwallu anghenion rhieni sy'n defnyddio eu gwasanaeth.

Mae 9 lleoliad gofal dydd llawn hefyd yn gweithredu ar ôl 6.00pm, gyda'r diweddaraf yn cau am 7.00pm DS: mae'r data uchod yn seiliedig ar yr oriau agor a gofnodwyd. Yn ôl yr ymatebion uniongyrchol i'r cwestiwn yn ymwneud â darparu gwasanaethau ar ôl 6.00pm ('Gyda'r nos' ar holiadur DHG) dim ond 8 gwarchodwr plant a 6 lleoliad gofal dydd llawn a ddywedodd eu bod yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Mae 4 gwarchodwr plant yn darparu gofal dros nos, ac mae 6 gwarchodwr plant yn gweithredu ar benwythnosau, gan gynnwys un cyn 8pm ac ar ôl 6pm ar ddydd Sadwrn.

Roedd yr arolwg rhieni yn cynnwys un sylw yn ymwneud â diffyg gofal plant hyblyg i weithwyr shift, ond nid yw'n glir a yw hyn yn ymwneud ag oriau agor gwahanol fathau o ofal plant all cyd-fynd â phatrymau gwaith shiftiau newidiol. Cafwyd nifer fach o sylwadau gan rieni yn ymwneud ag oriau agor y gofal plant yr oeddent yn ei ddefnyddio, gan nodi ei bod weithiau'n anodd gollwng plant a chyrraedd y gwaith yn brydlon, ond ni themlir bod hyn yn fwch sylweddol yn y ddarpariaeth.

(b) darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg;

Yn seiliedig ar ddata DHG, mae 4 gwarchodwr plant cyfrwng Cymraeg, 13 lleoliad gofal dydd llawn (8 ohonynt yn darparu gofal dydd llawn h.y. gall plentyn aros yn y lleoliad drwy'r dydd), 4 gofal dydd fesul sesiwn a 5 lleoliad y tu allan i oriau ysgol. Mae cyfanswm o 863 o leoedd cofrestredig cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.

Gwarchod plant

Drwy ddadansoddi'r data yn ôl ACC, mae un plentyn yn aros am le ar ôl ysgol yng Ngorllewin Caerdydd lle nad oes lleoedd gwag wedi'u hadrodd.

Gofal dydd llawn

Drwy ddadansoddi'r data yn ôl ACC, mae un plentyn yn aros am le ar ôl ysgol yn Ne-ddwyrain Caerdydd lle nad oes lleoedd gwag wedi'u hadrodd. Yn Ninas a De Caerdydd, adroddir bod un plentyn yn aros am le addysg gynnar, er na chofnodir bod unrhyw blant yn aros am le gan yr adran Addysg. Adroddir bod chwech o blant yn aros am wasanaeth Cylch Meithrin AM. Yng Ngorllewin Caerdydd, mae'n ymddangos bod 25 o blant yn aros am le meithrin llawn amser, gyda 15 yn aros am le mewn Cylch Meithrin ar gyfer y bore, ac mae'r un nifer yn aros am le mewn Cylch Meithrin ar gyfer y prynhawn.

Gofal Dydd Fesul Sesiwn

Mae rhestrau aros ond yn fwy na lleoedd gwag ar gyfer darpariaeth foreol (20 ar restr aros, 12 o leoedd gwag = diffyg o 8) yn ACC Gogledd Caerdydd.

Y tu allan i oriau ysgol

Yn gyffredinol, er bod 30 o leoedd gwag wedi'u cofnodi ar gyfer lleoliadau cyn ysgol, mae 146 o blant yn aros am le ar ôl ysgol ar unwaith, gyda 95 yn Ne-orllewin Caerdydd a 30 yng Ngorllewin Caerdydd. Nodir bod 21 o blant eraill yn aros am le ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg yn ardal Canol a De Caerdydd

Er bod galw uwch na'r capasiti i gyflenwi yn cael ei gofnodi ar gyfer gwasanaethau ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg mewn 3 ACC, bydd angen ymchwilio ymhellach i asesu a yw'r data hwn yn gywir. Er enghraifft, mae un lleoliad sy'n nodi rhestr aros ar unwaith wedi'i gofrestru i ddarparu 400 o leoedd yr wythnos ac mae wedi nodi presenoldeb wythnosol cyfartalog o tua 300 o blant, ond adroddodd fod 95 o blant yn aros am le ar unwaith. Mae'n bosibl bod y data sy'n ymwneud â 'lleoedd gwag' wedi'i roi yn y golofn 'plant sy'n aros am le ar unwaith' mewn camgymeriad.

Nid oes unrhyw leoliadau chwarae mynediad agored na meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Er bod rhai ymatebion i'r arolwg rhieni wedi nodi heriau o ran dod o hyd i ofal plant cyfrwng Cymraeg, ni chafwyd unrhyw ymatebion penodol ynghylch chwarae mynediad agored na darpariaeth creche. Cofnodwyd un ymateb yn nodi'r defnydd o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yr Urdd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Fel y nodwyd ym mhennod 10: *Cyfrwng Cymraeg a CSCA*, mae'r camau a nodwyd yn yr ADGP o ran gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cyd-fynd â chyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd ac yn cyfrannu atynt.

(c) darpariaeth gofal plant ar gyfer gwahanol gategorïau iaith.

Yn ôgystal â'r Gymraeg a'r Saesneg, dywedodd darparwyr fod yr ieithoedd canlynol yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau: Ffrangeg, Pwyleg, Portiwgaleg, Sbaeneg, Pwnjabeg, Wrddw, Bengaleg, Tsieinëeg, Eidaleg a Makaton.

Crynodeb o anghenion heb eu bodloni

(a) mathau o ofal plant sydd ar gael;

Yn ôl data'r DHG ac asesiad o restrau aros a lleoedd gwag, wrth edrych ar y ddinas gyfan mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth o ofal dydd llawn, gofal fesul sesiwn, gofal y tu allan i oriau ysgol a gwarchodwyr plant bron yn ddigonol. Fel y nodwyd, mae'n ymddangos bod gan nifer cyfyngedig o wasanaethau o fewn ACCau restrau aros ar hyn o bryd, ac mae camau i ymchwilio ymhellach a datblygu mwy o gapasiti os oes angen, wedi'u nodi.

Dim ond un ddarpariaeth chwarae mynediad agored a nodwyd yn y DHG. Nid yw'r gwasanaeth, sydd wedi'i gofrestru fel crèche, yn gweithredu yn y modd a ddisgrifir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan ei fod yn darparu gwasanaeth yn ystod y tymor, 5 bore'r wythnos, ar gyfer plant Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant y codir tâl amdanynt.

Nid oes unrhyw nanis yn cymryd rhan yn y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yng Nghaerdydd, sy'n dileu gallu unrhyw deulu sy'n defnyddio nani i gael cymorth ariannol drwy elfen gofal plant credydau treth gwaith neu'r cynllun gofal plant di-dreth.

Mae cyfleoedd, yn unol â pholisi Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a CSCA Caerdydd, i ddatblygu gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg, gofal fesul sesiwn a gwarchodwyr plant cyfrwng Cymraeg ymhellach.

Er bod nifer o rieni a ymatebodd i'r arolwg rhieni wedi nodi bod diffyg gofal plant addas yn eu hardal, nid yw Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd wedi adrodd bod y mater hwn yn cael ei godi gan rieni sy'n

cysylltu â'r gwasanaeth. Yn yr un modd, er bod rhai ymatebwyr i'r arolwg rhieni wedi nodi diffyg darpariaeth oriau annodweddiadol, mae 162 o leoliadau'n darparu gofal cyn 8.00am, a hyd at 20 ar ôl 6.00pm.

Meysydd i'w gwella

- Ymchwilio ymhellach i leoliadau lle mae'n ymddangos bod gan wasanaethau alw uwch na chapasiti (rhestrau aros). Os caiff ei gadarnhau, gweithio gyda darparwyr lleol i ddatblygu capasiti ychwanegol gan sicrhau'r effaith leiaf posibl ar ddadleoli.
- Ymchwilio ymhellach i leoliadau lle mae'n ymddangos bod gan wasanaethau cyfrwng Cymraeg alw uwch na chapasiti (rhestrau aros). Os caiff ei gadarnhau, gweithio gyda darparwyr lleol i ddatblygu capasiti ychwanegol gan sicrhau'r effaith leiaf posibl ar ddadleoli.
- Annog nanis i ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, i gefnogi eu cleientiaid i gael cymorth ariannol gyda chostau gofal plant
- Annog darparwyr sy'n gweithredu oriau annodweddiadol i farchnata a hyrwyddo eu gwasanaethau ymhellach

(b) oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt;

Nododd data'r DHG 10,951 o blant ar lyfrau darparwyr gofal plant, wedi'u dadansoddi yn ôl oedran y plentyn. Er mai dim ond 268 o blant dan 1 oed a adroddwyd, cododd hyn i 2,126 ar gyfer plant 2 oed (neu 52.7% o'r garfan) a 2,000 ar gyfer plant 3 oed (48% o'r garfan).

Dim ond 68 o blant dros 12 oed a adroddwyd. Efallai fod gan rai o'r plant hyn anghenion ychwanegol ac y gall y darparwyr hyn ddiwallu'r anghenion hyn, ond nid yw'n bosibl cadarnhau hyn o'r data sydd ar gael. Mae'n ymddangos nad oes llawer o alw am ofal plant ar gyfer plant o'r oedran hwn.

Nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol i'w gwella.

(c) fforddiadwyedd gofal plant;

Roedd 74.2% (299 o'r 403 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn) yn cytuno'n gryf bod gofal plant yn rhy ddrud, gyda 76 arall (18.9%) yn tueddu i gytuno. Fforddiadwyedd hefyd oedd y categori ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn Meysydd i'w Gwella yn yr arolwg rhieni, a ddewiswyd gan 70.6% o'r ymatebwyr, dim ond 17 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a gafwyd.

Amlygwyd fforddiadwyedd hefyd yn yr ymatebion naratif gan nifer sylweddol o rieni, ac efallai fod y costau uwch ar gyfer gofal plant i fabanod dan 1 oed yn effeithio ar nifer y plant ifanc iawn mewn gofal plant. Yn yr un modd, efallai fod y niferoedd cymharol uchel o blant 2, 3 a 4 oed ar lyfrau darparwyr gofal plant yn gysylltiedig â gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru a ddarperir drwy Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant.

Mae'r effaith y gall yr awdurdod lleol ei chael ar y ffioedd a godir ar rieni am le gofal plant yn gyfyngedig. Fodd bynnag, gallai sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r hawliau ariannol y gallent eu cael, yn dibynnu ar eu sefyllfa cyflogaeth ac economaidd, ac annog darparwyr i gofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn talebau gofal plant helpu rhai teuluoedd â chostau gofal plant. Nododd yr arolwg rhieni fod bron i hanner (172 o 401, 42.9%) o rieni yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i roi gwybodaeth am gymorth ariannol i rieni/gofalwyr gyda chostau gofal plant drwy Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd. Bydd y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant a Chyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn datblygu ac yn marchnata adnodd gwybodaeth sy'n nodi'r amrywiaeth o ffynonellau cymorth ariannol gyda chostau gofal plant.
- Annog mwy o leoliadau, gan dargedu gofal dydd fesul sesiwn i ddechrau, i gofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant. Dim ond 13 (33.3%) o ddarparwyr gofal dydd fesul sesiwn sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd, y gyfran isaf o unrhyw fath o ddarparwr.

(ch) yr adegau y mae gofal plant ar gael; ac

Fel y nodwyd uchod, mae 162 o leoliadau'n darparu gofal plant cyn 8.00am, a hyd at 20 ar ôl 6.00 pm.

Nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol i'w gwella.

(d) lleoliad gofal plant.

Mae dosbarthiad gofal plant ledled Caerdydd, mewn perthynas â ble mae'r galw, yn dda ar y cyfan. Fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu, cynhelir ymchwiliad pellach i'r ffactorau sy'n ymwneud â Dwyrain Caerdydd, sydd â'r gymhareb uchaf o ran plant:lleoedd cofrestredig ar gyfer plant 0-14 oed.

Meysydd i'w gwella

- O ystyried bod y gwahaniaeth mwyaf rhwng lleoedd gofal plant cofrestredig a nifer y plant 0-14 oed yn Dwyrain Caerdydd, bydd ymchwiliad pellach i'r ffactorau lleol sy'n dylanwadu ar y galw a'r cyflenwad yn cael ei gynnal. Os bydd angen, bydd cynllun gweithredu lleol yn cael ei ddatblygu.

18: Cynllun Gweithredu

Darpariaeth: galw posibl heb ei fodloni	O ystyried bod y gwahaniaeth mwyaf rhwng lleoedd gofal plant cofrestredig a nifer y plant 0-14 oed yn Nwyrain Caerdydd, bydd ymchwiliad pellach i'r ffactorau lleol sy'n dylanwadu ar y galw a'r cyflenwad yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'n ymddangos nad oes gan unrhyw wasanaeth yn yr ACC hon unrhyw blant sy'n aros am le ar unwaith. Os bydd angen, bydd cynllun gweithredu lleol yn cael ei ddatblygu.
	Ar gyfer y pedair ACC (Gogledd Caerdydd; Canol a De Caerdydd; De-orllewin Caerdydd; Gorllewin Caerdydd) lle mae'n ymddangos bod y galw'n fwy na'r capasiti, cynhelir ymchwiliad manwl i ganfod cadernid data. Os oes galw, cysylltir â darparwyr gwasanaethau a nodwyd yn lleol i archwilio'r gallu i ehangu'r ddarpariaeth o safleoedd sy'n bodoli eisoes.
	Ymchwilio i'r galw posibl am ddarpariaeth gofal dydd fesul sesiwn, Boreau a Chinio, yng Ngogledd Caerdydd
	Nodi a oes unrhyw alw heb ei fodloni am ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol yn Nwyrain Caerdydd ac ardal Canol a De Caerdydd
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg	Bydd y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant yn mynd ati i dargedu unigolion sydd â sgiliau Cymraeg wrth farchnata'r hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwarchod plant
	Nodi a oes tystiolaeth gadarn ar gyfer y galw am ofal y tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg heb ei fodloni yn Ne-orllewin Caerdydd.
	Ymchwilio ymhellach a yw'r galw yn fwy na'r capasiti ar gyfer gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg neu sesiynau Cylch Meithrin yng Ngorllewin Caerdydd. Archwilio gyda darparwyr presennol o fewn ardaloedd lle y cadarnheir bod y galw'n fwy na'r capasiti i weld a oes posibiladau i ehangu'r ddarpariaeth bresennol
	Ymchwilio ymhellach a yw'r galw yn fwy na'r capasiti ar gyfer sesiynau Bore cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Caerdydd. Archwilio gyda darparwyr presennol o fewn ardaloedd lle y cadarnheir bod y galw'n fwy na'r capasiti i weld a oes posibiladau i ehangu'r ddarpariaeth bresennol.
	Nodi a oes tystiolaeth gadarn ar gyfer y galw am ofal y tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg heb ei fodloni yn Ninas a De Caerdydd, Gorllewin Caerdydd a De-orllewin Caerdydd. Nodi a oes gan ddarparwyr presennol y tu allan i'r ysgol y gallu i ehangu'r lleoedd a gynigir.
	Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Addysg a Mudiad Meithrin i gyflawni'r camau a nodwyd yn CSCA Caerdydd 2022 – 2031

	Cyfeirio'r rhaglen hyfforddi estynedig ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar (cynyddu prentisiaethau, rhaglen yr Academi a rhaglen Croesi'r Bont sy'n trochi ymarferwyr newydd yn y Gymraeg) fel y nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymraeg 2050 2021-2026, er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu gofal plant, yn enwedig mewn lleoliadau Saesneg / y ddwy iaith.
Fforddiadwyedd	Annog mwy o leoliadau, gan dargedu gofal dydd fesul sesiwn i ddechrau, i gofrestru i ddarparu Gofal Plant Di-dreth a/neu dderbyn Talebau Gofal Plant. Dim ond 13 (33.3%) o ddarparwyr gofal dydd fesul sesiwn sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd, y gyfran isaf o unrhyw fath o ddarparwr. Parhau i roi gwybodaeth am gymorth ariannol i rieni/gofalwyr gyda chostau gofal plant drwy Gyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd. Bydd y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant a Chyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn datblygu ac yn marchnata adnodd gwybodaeth sy'n nodi'r amrywiaeth o ffynonellau cymorth ariannol gyda chostau gofal plant.
ADY, AAA ac anabledd	Gweithio gyda phartneriaid Gwasanaethau Cynhwysiant Caerdydd, Datblygu'r Gweithlu a Chwlmwm i barhau i hyrwyddo'r hyfforddiant a gynigir i ddarparwyr gofal plant. Mae'r hyfforddiant yn darparu gwybodaeth a chyngor i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Cod Anghenion Ychwanegol a gwella ymarfer ADY/AAA Gweithio gyda darparwyr gofal plant a phartneriaid i nodi unrhyw rwystrau rhag cael gafael ar hyfforddiant a chyngor ynghylch ADY/AAA Parhau i hyrwyddo'r Grant Lleuedd â Chymorth, sy'n darparu cyllid ar gyfer cymorth staffio ychwanegol i ganiatáu mynediad i ofal plant i blant rhieni sy'n gweithio na allent fynychu'n ddiogel fel arall.
Cymorth i'r sector gofal plant	Yn dilyn y cyllid grant ychwanegol diweddaraf (Ch3, Ch4 20231-22) a ddarparwyd drwy'r Grant Gofal Plant a Chwarae/Plant a Chymunedau, cysylltir â darparwyr i gynhyrchu data cynaliadwyedd wedi'i ddiweddarau i'w gynnwys yn y ADGP terfynol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022 Parhau i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa o ddewis drwy Addewid Caerdydd a Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd i annog mynediad i brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant cymhwysio i bobl ifanc, pobl ddi-waith ac unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
Gwella ansawdd, cywirdeb a chysondeb data	Gweithio gyda chydweithwyr Addysg, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, i sicrhau bod darparwyr gofal plant yn deall yn gywir y defnydd o derminoleg sy'n ymwneud â lleoliadau addysg gynnar ac ystyr y derminoleg yn gywir, er mwyn gwella cywirdeb DHG ac ymarferion casglu data eraill yn y dyfodol Gyda chydweithwyr Dechrau'n Deg, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, sicrhau bod darparwyr gofal plant yn deall yn gywir y defnydd o derminoleg sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg ac ystyr y derminoleg yn gywir, er mwyn gwella cywirdeb DHG ac ymarferion casglu data eraill yn y dyfodol

19: Nodiadau esboniadol

Canllaw i'r ADGP


Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau

Aildrefnodd Papur Gwyn 2013, "**Creu Cymunedau: Dull Newydd o Weithio yn y Gymdogaeth**"¹ y 29 ward yn 6 Ardal Partneriaeth Cymdogaeth, sydd bellach yn Ardaloedd Cynllunio Cymdogaethau (ACCau). Nodir y wardiau ym mhob un o'r Awdurdodau Cynllunio Cymdogaethau hyn isod ac fe'u defnyddir drwy weddill yr ADGP hwn.

Ar ôl cwblhau'r ADGP, bydd dadansoddiad fesul ward o'r cyflenwad gofal plant, y galw a ffactorau economaidd-gymdeithasol allweddol yn cael ei gynhyrchu fel adnodd ar gyfer potensial; darparwyr gofal plant, cynllunwyr a rhanddeiliaid allweddol.

Ardal Cynllunio Cymdogaethau	Wardiau
Gogledd Caerdydd	Rhiwbeina, Y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Cyncoed, Pen-y-lan, Pentwyn, Pontpennau a Phentref Lloneirwg
Dwyrain Caerdydd	Llanrhymni, Rhymni, Trowbridge
De-ddwyrain Caerdydd	Gabalfa, Cathays (rhan ohoni), Plasnewydd, Adamsdown, Y Sblot
Canol a De Caerdydd	Canol y Ddinas, Butetown, Grangetown, Cathays (rhan ohoni)
De-orllewin Caerdydd	Trelái, Caerau, Treganna a Glan-yr-afon
Gorllewin Caerdydd	Creigiau / Sain Ffagan, Pentyrch, Radur a Phentre-poeth, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Y Tyllgoed, Llandaf, Ystum Taf

¹<https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/Final-White-Paper.pdf>



Y Cynnig Rhagweithiol

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sy'n arolygu gwasanaethau gofal, gan gynnwys gofal plant cofrestredig, yn cynnwys yn ei hadroddiadau arolygu os yw gwasanaeth yn darparu, neu'n gweithio tuag at ddarparu, y Cynnig Rhagweithiol.

Cyhoeddwyd 'Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' yn 2016 gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nod y fframwaith oedd sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn Gymraeg yn cael cynnig y gwasanaethau hynny. Gelwir hyn y 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.

[Mwy na geiriau: cynllun gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol | Arolygiaeth Gofal Cymru](#)

Codio data

Rhaid i ddarparwyr gofal plant gyflwyno data'n flynyddol i AGC yn eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (DHG). Caiff y wybodaeth hon ei rhannu wedyn mewn fformat dienw gydag awdurdodau lleol er mwyn hysbysu eu ADGPau.

Daeth yn amlwg bod rhywfaint o'r data a gyflwynwyd gan ddarparwyr gofal plant yn anghywir (e.e. lleoliad y tu allan i oriau ysgol yn agor am 03.00 ac yn cau am 06.00. Dylai hyn fod wedi bod yn 15.00 – 18.00; a gwarchodwr plant yn codi £1.00 am wythnos gyfan o bresenoldeb).

Lle mae'r gwallau hyn (neu wallau tebygol) wedi'u nodi, o ystyried nad yw'n bosibl diwygio na chywiro'r data, defnyddiwyd ffont coch mewn tablau, mae data gwallus wedi'i gylchu'n goch ar siartiau, a sylwadau wedi'u cynnwys ar ddiwedd pob adran sy'n cynnwys gwallau tebygol.

Data DHG a Dewis

Fel y nodwyd uchod, darparwyd y rhan fwyaf o'r data sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir, ffioedd, lefelau presenoldeb a lleoedd gwag, oriau agor ac ati) i awdurdodau lleol gan AGC, ar ôl cael eu cyflwyno gan ddarparwyr gofal plant yn eu DHG blynyddol.

Dewis Cymru yw cronfa ddata Cymru gyfan a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru i roi gwybodaeth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol am wasanaethau sy'n cefnogi lles. Anogir ddarparwyr gofal plant i greu a chynnal cofnod cyfredol ar Dewis Cymru o'u gwasanaethau. Defnyddir Dewis Cymru hefyd fel ffynhonnell ddata ar gyfer yr ADGP gan y gall fod yn ddefnyddiol cymharu'r data a gedwir ar Dewis Cymru â'r hyn a ddarparwyd drwy'r DHG. Gan fod y ddau yn dibynnu ar ddarparwyr gofal plant yn cofnodi gwybodaeth gywir, gall y ddwy ffynhonnell gynnwys gwallau. Fodd bynnag, gall croesgyfeirio'r ddwy ffynhonnell ddata fod yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at aliniad a gwahaniaethau.

Iaith a therminoleg a ddefnyddiwyd

Mae rhywfaint o ddata wedi'i gyflwyno gan ddefnyddio penawdau sydd wedi'u cynnwys yn y DHG. Er enghraifft, mae '*plant o'r oedran hwn ar y llyfrau*' yn cyfeirio at blant sydd ar gofrestr ddarparwyr

gofal plant o fewn grwpiau oedran a bennwyd ymlaen llaw (plant dan 1, 1 oed, plant 2 oed, plant 3 oed, plant 4 oed, plant 5-7 oed, plant 8-11 oed, ac ati). Disgrifir patrymau presenoldeb fel '*llawn amser; rhan amser neu ad hoc*'. Er nad yw'r derminoleg hon yn cael ei defnyddio bob dydd o bosibl, penderfynwyd defnyddio'r ymadroddion a ddefnyddir yn y DHG drwy gydol yr ADGP.

Oriau agor/cau

Mae'r ADGP yn gofyn am adrodd ar ystod oriau agor darparwyr. Yn y DHG, ac yn yr ADGP, adlewyrchir hyn yn y modd canlynol:

- Amser agor cynharaf (yn yr ACC): amser cychwyn cynharaf unrhyw ddarparwr o'r math hwnnw (e.e. gwarchodwr plant)
- Yr amser agor hwyrach: amser cychwyn hwyrach unrhyw ddarparwr o'r math hwnnw (e.e. gwarchodwr plant)
- Amser cau cynharaf: amser gorffen cynharaf unrhyw ddarparwr o'r math hwnnw (e.e. gwarchodwr plant)
- Amser cau hwyrach: amser gorffen hwyrach unrhyw ddarparwr o'r math hwnnw (e.e. gwarchodwr plant)
- Mae'r data hefyd yn dangos y nifer o leoliadau sydd ar agor cyn 8am, a/neu ar agor ar ôl 6pm

Dylid nodi y dylid ystyried y data ym mhob set o ymatebion ar wahân. Er enghraifft, er y gall fod gwarchodwyr plant mewn ACC yn agor am 6.00am, a gwarchodwyr plant sydd ar agor tan 18.00, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod gwarchodwyr plant ar agor rhwng 6.00am a 18.00.